

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 11 MEDI 2019 am 1.00 y. p.	WEDNESDAY, 11 SEPTEMBER, 2019 at 1:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*), Alun Roberts, Nicola Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Richard Griffiths, Richard O. Jones

PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY

J. Arwel Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)(*Cadeirydd/Chair*)
Bryan Owen

AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor –
Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent
Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

RHAGLEN

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2019.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL
CHWARTER 1 2019/20** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2018/19
(Tudalennau 19 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

**5 MONITRO CYNNYDD: GWELLIANNAU'R GWASANAETHAU PLANT -
CHWARTER 1 2019/20** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**6 MONITRO CYNNYDD: PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL -
CHWARTER 1 2019/20** (Tudalennau 61 - 80)

Cyflwyno adroddiad cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 POLISI GOSOD CYFFREDIN A CHYSYLLTIAD LLEOL (Tudalennau 81 - 212)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

8 BLAEN RHAGLEN WAITH (Tudalennau 213 - 230)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2019

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)
	Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Alun Roberts, Bryan Owen
	Aelodau Portffolio
	Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol) Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuencid) (ar gyfer eitem 4)
WRTH LAW :	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Pennaeth Gwasanaethau Democraidd Swyddog Datblygu Gofal Cwsmer a Swyddogion Cwynion Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol (SS) (ar gyfer eitem 4) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU :	Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, Mr Keith Roberts, Mrs Anest Frazer, Mr Dyfed Wyn Jones (Aelodau Cyfetholedig), y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd) Miss Awen G. Maple (Cynorthwydd Denu Talent)

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ac estynnodd groeso arbennig i Miss Awen G. Maple a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cynorthwydd Talent Denu.

1 DATGANIAD DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2019 a chawsant eu cadarnhau fel cofnod cywir.

3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YN 2018/19

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Cynhyrchir yr adroddiad yn unol â'r gofyniad statudol ac mae'n ceisio hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyngor yn ogystal ag amlinellu'r blaenoriaethau gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion yr hoffai yn y lle cyntaf ddiolch i Dr Caroline Turner, ei ragflaenydd a oedd yn y swydd am y rhan fwyaf o 2018/19, am ei gwaith a'i chefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd y Swyddog ei bod yn braf gallu adrodd ar y cynnydd a wnaed ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion fel ei gilydd yn y pedwerydd Adroddiad Blynyddol y mae Ynys Môn wedi'i gyhoeddi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Penllanw'r gwaith da yn y Gwasanaethau Plant oedd arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2018 a ddangosodd fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud cynnydd da ond bod yn rhaid iddynt barhau i gryfhau gwasanaethau ac arferion.

Dros y 12 mis diwethaf, bu nifer o ddatblygiadau o fewn y Gwasanaethau Plant y mae'r Gwasanaeth yn falch ohonynt, gan gynnwys y modd y cafodd yr holl waith ei danategu gan y Fframwaith Ansawdd Gwella Ymarfer a ddyluniwyd i lywodraethu ac arwain y gweithlu; llunio Strategaeth Ymgysylltu Teulu Môn yn ogystal â'r Gwasanaeth Camu Ymlaen sy'n anelu at gryfhau ymhellach deuluoedd nad oes angen cymorth statudol arnynt bellach ond sy'n parhau i fod angen arweiniad. Mae'r Cynnig Newydd i Ofalwyr Maeth a gyflogir gan y Cyngor wedi'i weithredu a gobeithir y bydd yn cynyddu gallu'r Cyngor i recriwtio gofalwyr maeth a'u cynorthwyo i gynnig y gefnogaeth orau i blant sy'n cael eu maethu.

Yn yr un modd, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gallu gwneud cynnydd yn eu nod i gynorthwyo oedolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac adlewyrchir hynny yn agoriad yr Uned Gofal Ychwanegol newydd, sef Hafan Cefni. Mewn partneriaeth â BIPBC, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i gomisiynu darpariaeth gofal cartref newydd i breswylwyr gan ddarparwyr sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl wedi cryfhau eu ffocws ar helpu unigolion i wella eu llesiant trwy sesiynau iechyd a ffitrwydd grŵp a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ar eu taith at adferiad.

Wrth edrych ymlaen, er bod 2019/20 yn parhau i fod â heriau pellach i'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ystyrir bod y ddau wasanaeth mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nhw. Rhaid diolch yn arbennig i holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn a heb eu hymrwymiad a'u hymroddiad, ni fyddai'r cyflawniadau niferus y mae'r adroddiad blynyddol yn dyst iddynt wedi bod yn bosibl.

Wrth ystyried yr Adroddiad Blynyddol, roedd y Pwyllgor yn gytûn ei fod yn ei neges yn nodi llawer o lwyddiannau y gall y Cyngor gymryd sicrwydd ac anogaeth ohonynt. Cydnabu'r Pwyllgor fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn faes cymhleth lle gellir teimlo heriau newidiadau demograffig, galw cynyddol a phwysau costau yn ddifrifol a bod sicrhau cynnydd a gwelliant yn ymrwymiad parhaus. Yn y drafodaeth fanwl, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn -

- O dan Safon Mesur Ansawdd 3, nodir bod 79% o oedolion a gofalwyr ac 81% o blant yn yr Arolwg Dinasyddion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r hyn y mae'r ystadegau hyn yn ei ddweud am yr 21% sy'n weddill o oedolion ac 11% o blant ac a yw'r unigolion hyn mewn perygl o lithro trwy'r rhwyd a pheidio â chael gofal priodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro fod yr Arolwg Dinasyddion yn caniatáu i ymatebwyr aros yn ddiennw os ydynt yn dymuno ond mewn achosion lle mae ymatebwyr yn rhoi eu henwau a lle mae o fewn gallu'r Gwasanaeth i ddylanwadu ar eu sefyllfa, yna bydd y Gwasanaeth yn cysylltu â'r unigolyn (unigolion) dan sylw. Mae'n bwysig nodi, er bod y Gwasanaeth yn gallu ac yn ceisio gwella bywydau unigolion, mae yna achosion lle na fydd unigolion, er gwaethaf mewnbwn ac ymdrechion gorau'r Gwasanaeth, yn teimlo'n ddiogel 100% o'r amser ac yn achos person hŷn, gellir priodoli hyn i bryder ynghylch cael codwm er enghraifft. Bydd y Gwasanaeth yn gwrando ar sylwadau a lle bydd y cyfle yn codi, bydd yn darparu cefnogaeth ychwanegol e.e. er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd person yn cael codwm.

- Wrth gydnabod bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu sawl her, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r prif heriau sy'n wynebu'r Gwasanaethau Oedolion yn benodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro fod y brif her yn dod o'r newid demograffig a ddaw yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sydd angen gofal cymdeithasol y gallai hyn arwain ato yn y dyfodol. Mae'n heriol ceisio sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng cefnogi unigolion trwy wasanaethau ataliol yn y gymuned a chydabod bod yn rhaid darparu ar gyfer rhai unigolion y mae eu hanghenion yn ddifrifol. Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r her hon yw trwy weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a chyda'r Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol a dyma'r ymagwedd sydd wedi ei mabwysiadu gyda datblygiad parhaus y Timau Adnoddau Cymunedol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi pobl yn eu hardaloedd lleol eu hunain.

- Wrth gydnabod y pwysau ariannol ar y Gwasanaethau Plant o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc y mae angen gofalu amdanynt, roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai Llywodraeth Cymru fod yn dwyn pwysau ar awdurdodau lleol i osod targed ar gyfer lleihau yr angen i blant fynd i ofal. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch safiad y Cyngor ar yr ymagwedd hon.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol mai bwriad Llywodraeth Cymru yw gweithio gyda phob cyngor lleol i benodi targed (er ei fod yn darged meddal) i leihau nifer y plant mewn gofal. Eglurodd yr Aelod Portffolio mai barn yr Awdurdod oedd nad oedd ymagwedd o'r fath yn ddefnyddiol ac y gallai fod yn broblemus ac er y byddai'n well gan yr Awdurdod pe na bai'n rhaid i blant ddod i ofal yn y lle cyntaf, mae wedi ymrwymo fel rhiant corfforaethol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gadw'n ddiogel, a bod darpariaeth briodol ar eu cyfer lle mae angen; gallai gosod targed fel hyn wyro oddi wrth y cyfrifoldeb hwn. Ni fydd yr Awdurdod hwn yn gosod targed o'r fath a chafodd hynny ei gyfleu mewn cyfarfod o Ddeiliaid Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf lle'r oedd Gweinidog a Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Portffolio wrth y Pwyllgor fod rhai awdurdodau yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n dod i'w gofal.

Esboniodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd drefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer lleihau nifer y plant mewn gofal lle mae'n ddiogel i wneud hynny sy'n cynnwys adolygu sefyllfa'r plentyn sy'n derbyn gofal o leiaf ddwywaith y flwyddyn i weld a oes opsiwn arall ar ei gyfer. Er bod gan yr Awdurdod strategaeth glir i alluogi plant i adael gofal, nid yw mor hawdd iddo ddylanwadu ar nifer y plant sydd angen gofal. Ar adeg y cyfarfod â

Swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd yr holl blant yr oedd yr Awdurdod yn gofalu amdanynt yn destun gorchymyn llys sy'n golygu y barnwyd eu bod mewn perygl o niwed.

Roedd consensws ymhlith aelodau'r Pwyllgor bod gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod yn gam yr oedd ganddynt amheuan difrifol yn ei gylch ac nad oedd yn ddull priodol o fynd i'r afael â mater y nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal y mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal atynt fel rhai o'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod perygl, unwaith y byddai targed wedi'i osod, mai cyflawni'r targed hwnnw yn hytrach na budd gorau'r unigolyn fyddai'n ganolbwynt sylw. Nododd y Pwyllgor ei fod yn hapus â strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer lleihau nifer y plant mewn gofal, a bod ganddo hyder ynddi, ac roedd yn cytuno â'r Aelod Portffolio y dylid gwrthsefyll ymdrechion i osod targed.

Cynigiodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dylan Rees, ac eiliwyd ef, fod y Pwyllgor yn nodi ei fod yn fodlon â chynlluniau strategaeth yr Adran ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ac yn credu y byddai ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflwyno targedau yn wrthgynhyrchiol. Felly mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad i beidio â chyflwyno targedau. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol gan y Pwyllgor.

Penderfynwyd -

- **Bod y Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018/18 a'i fod ymhellach yn nodi ei fod yn fodlon â chynlluniau strategaeth leihau yr Adran ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn credu y byddai ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflwyno targedau yn wrthgynhyrchiol. Felly, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad i beidio â chyflwyno targedau.**
- **Bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad -**
- **Yn cyfleu sefyllfa bresennol y Cyngor o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Yn adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod**
- **Yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol.**

NI ARGYMHELLWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19: GWRANDO AR A DYSGU O CWYNIION

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar weithrediad Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am y cyfnod rhwng Ebrill, 2018 a diwedd Mawrth, 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

I grynhoi, roedd yr adroddiad yn dangos -

- Y cofnodwyd cyfanswm o 212 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn - rhoddwyd blas ohonynt yn yr adroddiad (68 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 144 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion) - gostyngiad bychan o gymharu â'r cyfanswm o 232 yn 2017/18 ond yn uwch na'r 202 a dderbyniwyd yn 2016/17.

- Cofnodwyd cyfanswm o 59 o sylwadau / pryderon negyddol gan y Swyddog Cwynion yn ystod y flwyddyn - 49 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (i fyny o 32 yn y flwyddyn flaenorol) a 10 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion (i lawr o 11 yn y flwyddyn flaenorol). Dylid edrych ar hyn yng nghyd-destun nifer gostyngol y cwynion swyddogol sy'n awgrymu bod mwy o bryderon yn cael eu datrys yn anffurfiol gan osgoi eu huwchgyfeirio i Gam 1 y Weithdrefn Cwynion.
- Cofnodwyd cyfanswm o 44 o gwynion Cam 1 (51 yn 2017/18) sy'n rhannu'n 14 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a 30 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) a chynhaliwyd 8 ymchwiliad Cam 2 (9 yn 2017/18) - 6 yn y Gwasanaethau Oedolion a 2 yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Mewn perthynas â pherfformiad o ran ymateb i gwynion Cam 1 o fewn yr amserlenni statudol, yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd cynigiwyd trafodaeth i 80% (24 allan o 30) o achwynwyr o fewn yr amserlen sydd ychydig yn is na'r 82% yn 2017/18 tra bod 57% (17 allan o 30) wedi derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn yr amserlen sy'n gynydd bychan o gymharu â'r 55% yn 2017/18. Yn achos y Gwasanaethau Oedolion, cynigiwyd trafodaeth i 92% (12 allan o 14) o achwynwyr o fewn yr amserlen sydd i fyny o 62% yn 2017/18 a derbyniodd 64% ymateb ysgrifenedig o fewn yr amserlen (9 allan o 14) sydd i fyny o 31% yn 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol bod nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd yn galonogol iawn ac yn adlewyrchu'r gwelliannau yn gyffredinol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol; fodd bynnag, ni fedrir diystyru'r ffaith y cafwyd sylwadau negyddol hefyd am rai agweddau ar wasanaethau ac y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar y rhain ac yn dysgu ohonynt. Mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig wedi sefydlu proses ar gyfer sicrhau yr ymateb i gwynion mewn modd cyson ac amserol ac mae llawer o fuddsoddiad hefyd wedi'i wneud yng Ngham 1 y broses i ddatrys cwynion yn lleol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, er bod amseroedd ymateb wedi gwella yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion, mae'r Gwasanaeth wedi gosod nod o sicrhau ymateb 100% o fewn yr amserlen ac y bydd yn gweithio tuag at y nod hwnnw. Ffurfiwyd Cynllun Gweithredu i gryfhau ymhellach y modd y rheolir cwynion yn ystod 2019/20 ac mae ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad blynyddol.

Wrth ystyried yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd unrhyw un o'r cwynion yn gysylltiedig â'r gweithlu a'r modd y byddid yn mynd ati i ddelio ag unrhyw gwynion o'r fath.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod cwynion o'r fath yn cael sylw yn bennaf ar lefel Rheolwr Tîm a bod staff yn cael cefnogaeth fel rhan o'r broses ymchwilio ac y gofynnir am eu barn. Gellid delio hefyd ag unrhyw honiad yn ymwneud ag ymddygiad neu ddiogelu o dan y broses ddiogelu fwy ffurfiol - cadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw fater o'r fath wedi codi yn y Gwasanaethau Oedolion na'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2018/19.

Penderfynwyd -

- **I nodi sylwadau defnyddwyr gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod 2018/19 ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Nodi perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth weithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac wrth ddelio â chwynion.**

- **Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â sylwadau a chwynion a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.**

NI ARGYMHELLWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH.

**Y Cyngorydd Aled Morris Jones
Cadeirydd**

1

DRAFFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11 Medi 2019
Pwnc:	ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2018/19)
Pwrpas yr Adroddiad:	Herio Perfformiad
Cadeirydd Sgrwtini:	CYNG ALED M JONES
Aelod(au) Portfolio:	CYNG DAFYDD RHYS THOMAS
Pennaeth Gwasanaeth:	CARYS EDWARDS
Awdur yr Adroddiad:	GETHIN MORGAN
Rhif Ffôn:	01248 752111
E-bost:	GethinMorgan@anglesey.gov.uk
Aelodau lleol:	Amherthnasol

1. – Argymhelliad/ion

- 1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20
- 1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Gorffennaf, 2019.
- 1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

1.3.1 Mae tanberfformiad yn cael ei gydnabod a'i reoli gyda mesurau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a bydd craffu parhaus ar berfformiad ariannol gyda phwyslais ar, a chefnogaeth benodol yn cael ei roi i'r gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol er mwyn sicrhau nad yw eu rheolaeth ar berfformiad yn dirywio neu'n tangyflawni yn Ch2.

- 1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor argymhell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae'r adroddiad yn trafod gweithrediad parhaus strategaeth ddigidol y Cyngor. Pa elfennau o'r strategaeth fydd yn cael eu blaenoriaethu yn ystod Chwarter 2?

2. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysau gwasanaeth ariannol. Pa gyfraniad pellach y gall y Panel Craffu Cyllid ei wneud i sicrhau bod pwysau ar wasanaethau yn cael sylw?

3. Adroddir bod dirywiad mewn agweddau ar berfformiad ym maes tai, cynllunio a gwasanaethau plant yn ystod Ch1. Pa fesurau lliniaru ychwanegol sydd wedi'u hystyried er mwyn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad dros y misoedd nesaf?

5 – Cefndir / Cyd-destun

1.1 Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Gwella Cymru yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith sy'n ein galluogi i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gallu i'w diwallu a gwerthuso effaith ein gweithredoedd.

1.2. Mae ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac yn nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF). Mae'r DGF yn cael ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol y bydd y cyngor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis sydd i ddod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn

erbyn y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol hon, ac fe'i cyhoeddir cyn diwedd mis Hydref.

1.3. Defnyddir yr adroddiad hwn ar fonitro'r cerdyn sgorio hwn fel rhan o'r broses o fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd, sy'n gyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth gyflawni gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae'r cerdyn sgorio yn portreadu'r sefyllfa gyfredol ar ddiwedd Ch1 a bydd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

7 – Oblygiadau Ariannol

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch1.

8 – Atodiadau

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 1

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.)

ADRODDIAD MONITRO SCORECARD - CHWARTER 1 (2019/20)

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Gwella Cymru yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith sy'n ein galluogi i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gallu i'w diwallu a gwerthuso effaith ein gweithredoedd.
- 1.2. Mae ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac yn nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF). Mae'r DGF yn cael ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y cyngor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis sydd i ddod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn erbyn y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol hon, ac fe'i cyhoeddir cyn diwedd mis Hydref.
- 1.3. Defnyddir yr adroddiad hwn ar fonitro'r cerdyn sgorio hwn fel rhan o'r broses o fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd, sy'n gyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth gyflawni gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.
- 1.4. Cafodd y dangosyddion ar gyfer eleni sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio (yn debyg i flynyddoedd blaenorol) eu penderfynu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Gorffennaf, 2019 gydag aelodau o'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad a gafwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth ynghylch y dangosyddion hynny a nodwyd ganddynt fel rhai allweddol a phwysig.
- 1.5. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa gyfredol ar ddiwedd Ch1 a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

2. CYD-DESTUN

- 2.1. Fel rhan o'r gweithdy y soniwyd amdano uchod, cytunwyd bod angen gwneud rhai newidiadau i'r Cerdyn Sgorio eleni er mwyn sicrhau ymagwedd mwy strategol. I'r perwyl hwnnw, mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan strategol y Cynghorau:
 - Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir


- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

2.2. Mae yna hefyd rai DPA sydd wedi cael eu dileu oherwydd yr ystyrir eu bod yn rhy weithredol ar gyfer y Cerdyn Sgorio.

2.3. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn dwyn ynghyd mewn un adran yn lle tair, yr adrannau hynny o'r adroddiad sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cwsmer, Rheoli Pobl a Rheolaeth Ariannol fel y gellir cynnal dadansoddiad manylach o ddangosyddion cysylltiedig er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith bod ein cyflawniadau o ran rheoli perfformiad yn gadarn ac yn gynaliadwy. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod mwy o bwyslais strategol yn cael ei roi ar yr adroddiad hwn.

2.4. Ers i adroddiad Cerdyn Sgorio Ch4 2018/19 gael ei drafod ym mis Mehefin 2019, mae'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) wedi cael eu cyhoeddi gan Data Cymru.

2.5. Mae'r siart bar isod (Siart 2) yn dangos ein perfformiad dros y 3 blynedd diwethaf ar gyfer dangosyddion MAC cymharol, sef y dangosyddion MAC a gafodd eu monitro'n flaenorol ar gyfer y cyfnod 2016 i 2018. Mae'r siart yn dangos bod 4 dangosydd perfformiad ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Chwarter Uchaf (6 Uchaf), 1 wedi'i ychwanegu at y Chwarter Canol Uchaf (7fed i 11eg), 1 yn llai o ddangosyddion yn y Chwarter Canolrif Isaf (12fed i 16eg) a 2 yn aros yn y Chwarter Is (17eg i 22ain).




Siart 1

2.6. Mae'r perfformiad hwn sy'n gysylltiedig â'n dangosyddion cyhoeddus, yn nodi bod ein safle cenedlaethol wedi gwella unwaith eto eleni gan mai ni sydd â'r nifer fwyaf o ddangosyddion yn y chwarter uchaf ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn galonogol i'w nodi a gallai rhywun ddadlau bod perfformiad o'r fath i'w briodoli i'r her ychwanegol a monitro a wnaed ar y cerdyn sgorio dros y 3 blynedd diwethaf.

2.7. Mae'r siart cylch isod (siart 2) hefyd yn dangos bod perfformiad ar 54% o'n dangosyddion yn ystod 2018/19 naill ai wedi gwella neu wedi'i gynnal a bod perfformiad ar 40% ohonynt wedi dirywio o gymharu â pherfformiad 2017/18. Mae 7% o'r

dangosyddion yn ddangosyddion MAC newydd ar gyfer y flwyddyn ac felly nid oes data perfformiad ar gael ar gyfer 2017/18 y gellir eu cymharu yn ei erbyn.

Summary of area performance 2018-19



Siart 2

2.8. Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad blynyddol cyffredinol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ystod yr hydref.

3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac sy'n cael ei ddadansoddi er mwyn sicrhau gwelliant. Ar ddiwedd Ch1, mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 2.24 diwrnod wedi eu colli oherwydd absenoldeb fesul cyfwerth ag amser llawn (CALI) yn y cyfnod. Mae hwn yn welliant o gymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod Ch1 2018/19 lle collwyd 2.69 diwrnod oherwydd absenoldeb fesul CALI. Mae hefyd ar yr un lefel â'r 2.23 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul CALI yn Ch1 2017/18, sef y flwyddyn ble gwelwyd y perfformiad gorau o safbwynt absenoldeb ers i ni ddechrau monitro fel hyn.

3.3. Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i ddwyn ffrwyth yn ystod Ch1 lle mae mwyafrif y dangosyddion o dan yr is-bennawd newid i wasanaeth digidol yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch4. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd tybir bod costau'r trafodion hyn yn is na'r cyswllt wyneb yn wyneb.

3.4. Ar hyn o bryd nid oes achos i bryderu gyda'r is-bennawd siarter gwasanaeth cwsmeriaid lle mae mwyafrif y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes wrth ddatblygu'r Strategaeth Cwsmeriaid a fydd wedi'i chwblhau erbyn diwedd Ch2.

3.5. Mae'r adran rheolaeth ariannol ar ddiwedd Ch1 yn dangos rhagamcan cychwynnol y bydd gorwariant o £ 1.6m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Disgwylir y bydd gorwariant o £ 1.481m ar gyllidebau'r gwasanaethau a rhagwelir y bydd gorwariant o £ 0.265m ar gyllid corfforaethol. Disgwylir tangyflawniad o

£ 0.158m mewn perthynas â'r Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir gwarged o £ 0.304m ar incwm yn gysylltiedig â Phremiwm y Dreth Gyngor. Y gwarged net ar y Dreth Gyngor yn gyffredinol yw £ 0.146m.

- 3.6. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion yn parhau i fod dan bwysau oherwydd y galw cynyddol a throsglwyddo lleoliadau costus o'r Gwasanaethau Plant. Mae'n arferol i'r sefyllfa alldro derfynol fod yn well na'r amcangyfrif yn y chwarter cyntaf. Ar ben hynny, pe bai'r gorwariant yn digwydd mewn gwirionedd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £ 4.791m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i ariannu rhan o gyllideb 2019/20 .
- 3.7. Gellir gweld mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw Ch1' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 16 Medi.
- 3.8. Yr hyn a ddangosir drwy hyn felly yw bod y dadansoddiad o'r cardiau sgorio yn darparu sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau beunyddiol y Cyngor o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau i safon sy'n briodol ac wedi ei chytuno gan Aelodau. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod mwyafrif y dangosyddion o safbwynt rheoli perfformiad hefyd yn perfformio'n dda.

4. RHEOLI PERFFORMIAD

- 4.1. Ar ddiwedd Ch1, mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yr oeddem ynddi yn ystod Ch1 yn 2018/19. Wedi dweud hyn, rydym yn nodi bod pum dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ar ddechrau'r flwyddyn ac fe'u hamlygir fel Coch neu Ambr yn y Cerdyn Sgorio.
- 4.2. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch1 wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosyddion sy'n cael eu monitro bob chwarter yn erbyn yr amcan yn tanberfformio ar hyn o bryd ac mae pob dangosydd ac eithrio un yn WYRDD yn erbyn y targedau ar gyfer y chwarter.
- 4.3. Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** hefyd wedi perfformio'n dda gyda dim ond tri dangosydd o'r 17 a gafodd eu monitro yn Ch1 (18%) yn tanberfformio ar gyfer yr amcan ar hyn o bryd.
 - 4.3.1. Dangosydd 25 - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd mewn amser – sy'n AMBR gyda pherfformiad o 85.32% yn erbyn targed o 90 %.Mae hyn i lawr o'r 96.39% a welwyd yn Ch1 2018/19 ac ychydig yn is na'r canlyniad a welwyd ar ddiwedd 2018/19, sef 86.17%.

Y rheswm pam fod asesiadau'n hwyr yn cael eu cwblhau oedd diffyg rheolaeth mewn un grŵp ymarfer, mater sydd wedi cael sylw ers hynny. Wrth symud

ymlaen, mae proses newydd wedi'i chyflwyno lle bydd y data'n cael ei goladu mewn dull gwahanol a ddylai arwain at berfformiad gwell i Ch2.

4.3.2. Dangosydd 34 - Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymer i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo sy'n anodd i'w gosod neu 'DTLs') - sy'n GOCH oherwydd mae'n cymryd 25.6 diwrnod ar gyfartaledd i osod unedau yn erbyn targed o 21 diwrnod.

Yn ystod y chwarter gosodwyd 62 uned o lety ac o'r rhain gosodwyd 43 (cyfanswm o 69%) y tu allan i'r targed o 21 diwrnod. Cymerodd 17 o'r 43 uned (40%) hefyd fwy na 42 diwrnod i'w gosod yn ystod y cyfnod.

Er mwyn gwella'r sefyllfa o Ch2 ymlaen, mae proses symlach newydd wedi'i chyflwyno o fewn yr Gwasanaeth Tai. Y gobaith yw y dylai'r broses newydd arwain at osod unedau mewn modd mwy amserol.

4.3.3. Dangosydd 35 - Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.6% yn cael ei golli yn erbyn targed o 1.15%

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodwyd uchod. Gan ei bod wedi cymryd mwy o amser i osod unedau llety gosodadwy, mae'r rhent a gollir yn uwch.

4.4. Mae'r dangosyddion i fonitro **Amcan 3** hefyd wedi perfformio'n dda yn Ch1 - dim ond un dangosydd o'r saith (14%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan sydd wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.4.1. Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodi cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 55% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y Cerdyn Sgorio eleni, fodd bynnag, 17% oedd perfformiad y dangosydd hwn yn ystod Ch4 2018/19.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ystyried yr ôl-groniad hanesyddol ac mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol dros bob chwarter canlyniad yn 2018/19 wrth i brosesau newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r ôl-groniad gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

5.1.1. Mae tanberfformiad yn cael ei gydnabod a'i reoli gyda mesurau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a bydd craffu parhaus ar berfformiad ariannol gyda phwyslais ar, a chefnogaeth benodol yn cael ei roi i'r gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol er mwyn sicrhau nad yw eu rheolaeth ar berfformiad yn dirywio neu'n tangyflawni yn Ch2.

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2019/20

Rheoli Perfformiad / Performance Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Targed BI / Yr Target	Canlyniad 18/19 Result	Canlyniad 17/18 Result	Canlyniad 16/17 Result
Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyllawni eu potensial tymor hir								
1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	Gwyrdd / Green	-	94.70%	93.90%	93.90%	-	93.90%	94.60%
2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	Gwyrdd / Green	-	93.50%	93.30%	93.30%	-	93.30%	94.80%
3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol)	-	-	-	-	-	1.10%	4.20%	2.30%
4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol)	-	-	-	-	-	349.1	335.9	-
5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol)	-	-	-	-	-	88.30%	72.60%	-
6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol)	-	-	-	-	-	65%	63.70%	-
llyfrgelloedd (blynyddol)	-	-	-	-	-	82%	-	-
8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden	Gwyrdd / Green	-	122k	120k	-	553k	508k	464k
9) Canran y sefydliadau bywd sy'n cyrraedd safonau hylendid bywd	Gwyrdd / Green	-	98%	95%	95%	98%	98%	98%
10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bywd	Gwyrdd / Green	-	100%	90%	90%	-	-	-
11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff	Gwyrdd / Green	-	78%	50%	50%	70%	-	-
12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff	Gwyrdd / Green	-	85%	80%	80%	83%	-	-
13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd	Gwyrdd / Green	-	40	19	75	78	75	-
14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau aildefnyddio eiddo gwag	Gwyrdd / Green	-	2	1	4	9	4	-
15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol)	-	-	-	-	-	-	-	-
16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)	Gwyrdd / Green	-	100%	100%	100%	100%	-	-
17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau	Melyn / Yellow	-	12.33	12	12	13.63	-	-
18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (Ch4/Q4)	-	-	-	-	-	-	-	-
Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl								
19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed	Gwyrdd / Green	-	1.66	3	3	7.78	6.58	6.05
20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol	Melyn / Yellow	-	87.80%	90%	90%	90.91%	93.25%	90.48%
21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â pheycyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach	Gwyrdd / Green	-	80%	35%	35%	30.87%	59.26%	62.60%
22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	Gwyrdd / Green	-	61.80%	62%	62%	62.84%	62.65%	33.30%
23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth	Gwyrdd / Green	-	17.4	19	19	17.35	17.44	20.51
24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	-	98.20%	93%	93%	93.30%	96%	94.40%
25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser	Ambr / Amber	-	85.32%	90%	90%	86.17%	67.57%	89.17%
26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy	Gwyrdd / Green	-	1.88%	2.50%	10%	9.52%	9%	5%
27) Canran y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestrï Amddiffyn Plant awdurdodau lleol	Melyn / Yellow	-	10.53%	10%	10%	16.87%	-	-
28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	-	220	270	270	241	326.5	266
29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith	Gwyrdd / Green	-	98.27%	95%	95%	98%	-	-
30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddiwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	Melyn / Yellow	-	85.32%	90%	90%	86.17%	63.32%	79.35%
31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddiartref	Gwyrdd / Green	-	69.00%	60%	60%	-	-	-
32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddiartref	Gwyrdd / Green	-	83.30%	60%	60%	55.10%	65.20%	-
33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Melyn / Yellow	-	173	170	170	161.9	177	-
34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol)	-	-	-	-	-	-	-	-
35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)	Coch / Red	-	25.6	21	21	-	-	-
36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i gollu o ganlyniad i eiddo fod yn wag	Coch / Red	-	1.60%	1.15%	-	1.30%	-	-
Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol								
37) Canran y strydoedd sy'n lân	Gwyrdd / Green	-	100.00%	95%	95%	95.60%	93.60%	93.40%
38) Canran y gwastraff wedi'u aildefnyddio, ailgylchu a chompostio	Gwyrdd / Green	-	72.79%	70%	70%	69.86%	72.20%	65.80%
39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	Melyn / Yellow	-	1.13	1	1	0.2	-	-
40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person	Gwyrdd / Green	-	58.31kg	60kg	240kg	240kg	236kg	263kg
41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	Melyn / Yellow	-	86%	90%	90%	80%	86%	-
42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	Melyn / Yellow	-	50%	65%	65%	74%	47%	-
43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod	Coch / Red	-	55%	80%	80%	-	-	-
44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	-	-	-	-	2.90%	2.90%	2.90%	2.30%
45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	-	-	-	-	3.80%	3.80%	4.20%	3.20%
46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	-	-	-	-	8.70%	8.70%	8.90%	10.10%

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2019/20

Gofal Cwsmer / Customer Service	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 18/19 Result	Canlyniad 17/18 Result
Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter						
01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	Gwyrdd / Green	↑	10	19	76	71
02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbyniwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	2	-	8	9
03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol	-	-	4	-	27	28
04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol)	Gwyrdd / Green	↑	100%	80%	93%	92%
04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)	Ambr / Amber	↓	67%	80%	57%	-
05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	15	-	44	51
06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	-	-	19	-	62	112
07) Nifer o ganmoliaethau	-	-	147	-	513	753
08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen	Gwyrdd / Green	↑	85%	80%	81%	78%
09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd	-	-	205	-	1052	919
Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift						
10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol)	-	↑	9.6k	-	8.2k	-
11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn	-	↑	1.9k	-	4.7k	2k
12) Nifer o daliadau dros y we	-	↑	3.8k	-	-	-
13) Nifer o daliadau dros y ffôn	-	↑	2k	-	-	-
14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Gyfryngau Cymdeithasol	-	↑	30k	29.5k	29.5k	25k
15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor	-	↓	194k	-	-	-

Rheoli Pobl / People Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 18/19 Result	Canlyniad 17/18 Result
01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	2180	-	-	-
02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	1227	-	-	-
03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↑	2.24	2.45	-	-
03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	0.87	-	-	-
03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	1.37	-	-	-
04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↑	2.49	2.75	-	-
04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	0.88	-	-	-
04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	1.61	-	-	-
05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Ambr / Amber	↓	2.11	1.92	-	-
05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	0.66	-	-	-
05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	1.44	-	-	-
06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol)	-	-	-	11%	11%	-
07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4)	-	-	-	80%	84%	90.50%

Rheolaeth Ariannol / Financial Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Cyllideb / Budget	Canlyniad / Actual	Amrywiad / Variance (%)	Rhagolygon o'r Gwariant / Forecasted Actual	Amrywiad a Ragwellr / Forecasted Variance (%)
01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol	Melyn / Yellow	-	£36,078,971	£36,230,418	0.42%	-	-
02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwellr (Referiw)	Coch / Red	-	£135,210,190	-	-	£136,809,905	1.18%
03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwellr (Cyfalaf)	-	-	£23,279,000	-	-	£18,481,000	-20.61%
04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd	Melyn / Yellow	-	£2,735,000	-	-	£2,380,000	-12.98%
05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau)	Gwyrdd / Green	-	-£2,723,899	-£3,115,152	14.36%	-	-
06) Swm a fenthycwyd	-	-	£2,184,000	-	-	£0	0.00%
07) Chost benthyca	Gwyrdd / Green	-	£4,262,730	-	-	£4,260,516	-0.05%
08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod	Gwyrdd / Green	-	-	85.33%	-	-	-
09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	-	-	98.70%	-	-	-
10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	-	-	98.60%	-	-	-
11) % yr Amrywiad Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	-	-	95.20%	-	-	-
12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	-	-	99.36%	-	-	-
13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf)	-	-	-	98.65%	-	-	-

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11/9/19
Pwnc:	Adroddiad Perfformiad Blynyddol 18/19
Pwrpas yr Adroddiad:	Cyhoeddiad Statudol
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Aled M Jones
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Dafydd Rhys Thomas
Pennaeth Gwasanaeth:	Carys Edwards
Awdur yr Adroddiad:	Gethin Morgan
Rhif Ffôn:	01248 752111
E-bost:	GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Aelodau lleol:	n/a

1 – Argymhelliad/ion

Gofynir i'r Pwyllgor argymhell:

- y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2018/19 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor (7.10.19)

2 – Cyswilt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Defnyddir i fonitro Cynllun y Cyngor

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

- 3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - hirdymor
 - atal
 - integreiddio
 - cydweithio
 - cynnwys**[ffocws ar lesiant]**

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae 54% o'n dangosyddion naill ai wedi cynnal neu wella eu perfformiad yn ystod 2018/19. Pa fesurau a roddwyd ar waith i gael yr effaith gadarnhaol hyn ar berfformiad a pha wersi y gellir eu ddysgu i ledaenu'r rhain ledled y sefydliad yn ystod 2019/20?

2. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd o adroddiad 2018/19 a ddylid blaenoriaethu meysydd perfformiad penodol ar sail risg yn ystod 19/20 a sut mae'r paneli sgriwtini yn chwarae eu rhan?

5 – Cefndir / Cyd-destun

1.1 Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor yn eu Amcanion Llesiant a'i Gynllun Corfforaethol.

1.2 Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2018/19.

1.3 Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Dogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2018/19 fel amlinellwyd drwy ein 3 amcan penodol –

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

1.4 Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni o dan yr amcanion uchod.

1.5 Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad terfynol fydd asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

n/a

7 – Oblygiadau Ariannol

n/a

8 – Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 (drafft)

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

- Dogfen Cyflawni Blynyddol 18/19
- Cynllun y Cyngor 2017-2022

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad.....	2
Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad	3
Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad	5
Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.....	8
Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib.....	16
Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol	25
Perfformiad Ariannol 2018/19.....	30
Casgliad	32
Gwybodaeth Bellach	33

DRAFT

Rhagair

I'w gadarnhau

Cyflwyniad

Ein nod ar gyfer y cyfnod 2017-2022 fel y nodir yn ein Cynllun Cyngor yw –

“Byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu”

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Mae ymgynghoriadau diweddar â'n cymunedau, aelodau etholedig a staff wedi amlygu'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

Fe wnaethom amlinellu beth fyddem yn ei wneud i gyflawni ein Cynllun Cyngor yn ein Dogfen Gyflawni Flynnyddol ar gyfer 2018/19. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaethom gyda'n camau gweithredu mewn perthynas â'n hamcanion ac yn cymharu ein perfformiad gyda mesurau allweddol.

Fe wnaethom nodi hefyd y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd 'r nodau ac egwyddorion o ddatblygu cynaliadwy sydd wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein hamcanion wedi eu cyfateb i'r rhain fel y gwelir yn nhabl 1 isod.

Amcanion y Cyngor a'r Cyswllt gyda Nodau Cenedlaethol	Llewyrchus	Gwydn	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau cydlynol	Yr Iaith Gymraeg /	Yn fyd-eang gyfrifol
1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.		✓	✓	✓	✓	✓	
3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Tabl 1

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

Beth yw Rheoli Perfformiad?

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau a ddyrannir.

Cynllun y Cyngor

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

Sut a phryd y caiff ei fonitro?

Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod manwl y Cyngor am 12 mis yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol dros y 12 mis diwethaf

Caiff y Cynllun Corfforaethol ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; ac
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

Byrddau Rhaglen Trawsnewid

Mae'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid, a gynhelir bob chwarter, yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Ddirprwy Prif Weithredwr a byddant yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr, Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Sgriwtini.

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a gyrru cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid perthnasol a rhoi hyder i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau yn cael eu gwreddu ac mae sicrhau hyn mewn modd amserol yn allweddol.

Adolygiadau Gwasanaeth

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau Adolygiad Gwasanaeth bob blwyddyn a byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o'r Gwasanaeth

Y broses o ragweld arbedion o fewn gwasanaethau a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo'r broses o osod cyllideb blynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

Gofynnir i'r gwasanaethau gwblhau hunan-asesiad gwasanaeth er mwyn gweld lle mae'r Gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, salwch, llywodraethiant, risg ac yn y blaen. Fe'i defnyddir er mwyn rhoi sicrwydd i'r UDA / Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth wedi'i alinio yn unol â chyfeiriad ehangach y Cyngor ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol.

Cerdyn Sgorio Corfforaethol

Datblygwyd y cerdyn sgorio corfforaethol er mwyn adnabod a hysbysu arweinwyr y Cyngor am y cynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos bod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n cynorthwyo i ddarparu sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion y gellir drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol ohono. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r UDA wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws y gwasanaeth.


Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad

Mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad trwy'r cerdyn sgorio corfforaethol, mae'r dangosyddion o fewn y cerdyn sgorio'n adrodd ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol.

Caiff Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) eu cyhoeddi ac yn draddodiadol maent wedi ei ddefnyddio i gymharu bob Awdurdod Lleol yn erbyn yr un dangosyddion.

Bob blwyddyn caiff y dangosyddion PAM eu hadolygu a chyflwynir dangosyddion perfformiad newydd i fonitro perfformiad ar sail genedlaethol. Yn ogystal â chynnwys dangosyddion perfformiad newydd yn y set data mae rhai hefyd yn cael eu dileu am nad ydynt yn berthnasol neu am nad ydynt yn cael eu monitro mwyach.

Mae Siart 1 isod yn dangos ein perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf o'i gymharu â'r set bresennol o ddangosyddion PAM, h.y. y dangosyddion PAM oedd yn cael eu monitro'n flaenorol ar gyfer 2016 i 2018, a'r dangosyddion perfformiad PAM sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd ar gyfer 2018/19 sy'n cynnwys 3 o ddangosyddion ychwanegol newydd. Mae'r siart yn dangos bod 4 dangosydd perfformiad ychwanegol wedi'u hychwanegu i'r Chwarter Uchaf, bod 1 yn llai o ddangosyddion yn y Chwarter Canolrif Isaf a bod 2 yn parhau yn y Chwarter Isaf.




Siart 1

Mae'r siart cylch isod (siart 2) yn dangos bod 55% o'n dangosyddion wedi gwella neu gynnal eu perfformiad yn ystod 2018/19 a bod y perfformiad wedi dirywio mewn 40% ohonynt o gymharu â'r perfformiad yn 2017/18.

Mae 7% o'r dangosyddion yn ddangosyddion PAM newydd am y flwyddyn ac felly nid oes ganddynt ddata perfformiad ar gyfer 2017/18 er mwyn gallu cymharu.

Crynodeb o berfformiad y maes 2018-19



Siart 2

Rydym yn falch o adrodd, o blith y dangosyddion sydd wedi'u cyhoeddi, fod ein safle cenedlaethol wedi gwella eto eleni. Credwn y dylai'r mwyafrif o'r dangosyddion PAM sydd heb eu cyhoeddi hyd yma berfformio'n dda hefyd os yw'r perfformiad yn aros yn debyg i 2017/18. Bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2019 a gellir gweld y dangosyddion sydd wedi eu cyhoeddi eisoes yn Atodiad 1.

Er mwyn gwella ein perfformiad cenedlaethol yn 2019/20, fel rhan o adolygiad i berfformiad a oedd yn cynnwys gweithdy gyda chynrychiolaeth o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig, bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu monitro yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, y rhan fwyaf ohonynt bob chwarter a gweddill y dangosyddion yn flynyddol, er mwyn gallu adnabod a gwneud gwelliannau'n gynharach yn y flwyddyn. Am y tro cyntaf bydd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol hefyd yn cael ei fonitro i arddangos perfformiad yn erbyn amcanion y Cyngor yn ystod 2019/20.

Bydd y newid hwn yn sicrhau mai amcanion y cyngor yw ffocws adroddiadau perfformiad yn hytrach na dim ond y statws CAMG (gweler y diffiniad isod). Mae'r broses hon yn sicrhau bod ein Uwch Swyddogion, Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn cael asesiad rheolaidd o'n perfformiad a gellir ei ddefnyddio i ddechrau mesurau cywiro / lliniaru.

Yn ogystal â'r dangosyddion PAM, rydym wedi bod yn monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol lleol a adnabuwyd gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl ein dadansoddiad o'r dangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu, mae 59% o'n dangosyddion wedi gwella, mae 10% wedi cynnal y perfformiad, a 31% wedi gostwng mewn perfformiad o gymharu â 2017/18.

Dylid nodi hefyd fod 69% o'r dangosyddion wedi perfformio'n well na'u targedau ar gyfer y flwyddyn, roedd 22% o fewn y goddefiannau ar gyfer y targed, ac roedd yr 8% arall yn is na'r targed.

Sut ydym yn cyflwyno ein perfformiad:

Mae'r siart isod yn egluro sut ydym yn cyflwyno ein tueddiadau perfformio o fewn y cerdyn sgorio a thrwy'r ddogfen hon. Cyflwynir y cynnydd mewn perthynas ag amcanion yn ystod 2017/18 fel testun mewn siart ac mae cod lliw i gynrychioli statws y cynnydd, y cyfeirir ato fel statws CAMG (RAYG):


Coch = 10% neu fwy yn is na'r targed

Ambr = rhwng 5% a 10% o'r targed

Melyn = o fewn 5% i'r targed

Gwyrdd = o fewn y targed

Cyflwynir y statws CAMG (RAYG) gyda'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol ar ddiwedd pob adran. Dangosir y Dangosyddion Perfformiad fel yr enghraifft isod, sy'n cynnwys statws CAMG (RAYG) lleol ein chwarter perfformiad PAM cenedlaethol a'u tueddiadau fesul blwyddyn.



Chwarteli perfformiad mesurau PAM (allan o 22 awdurdod lleol)

Chwartzel Uchaf = Yn y 6 gorau yng Nghymru

Chwartzel Canolrif Uchaf = 7fed i 11^{eg} yng Nghymru

Chwartzel Canolrif Isaf = 12^{eg} i 16^{eg} yng Nghymru

DRAFT

Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir

Swyddi a Chyfleoedd Gwaith

Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
<p>Fel rhan o Fid Twf Gogledd Cymru byddwn yn cyd-weithio ag eraill i sicrhau'r buddsoddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i ddatganoli pwerau i Ogledd Cymru er budd creu 5000 o swyddi, cefnogi'r economi lleol a gwella'r cysylltiadau trafndiaeth a chyfathrebu</p>	<p>Fe wnaeth ein swyddogion gymryd rhan yn y Bid Twf llwyddiannus gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, lle ymrwymwyd cyfanswm o £240M.</p> <p>Mae'r Cyngor ac aelodau eraill o'r bwrdd oll yn gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella sgiliau a hyfforddiant, ehangu isadeiledd a datblygu Gogledd Cymru fel rhanbarth sy'n arwain drwy'r byd mewn ynni doeth, technoleg, arloesedd digidol a chysylltedd, a mwy.</p> <p>Disgwylwn i'r Fargen Twf derfynol fod yn ei lle yn ddiweddarach yn 2019 – ac i waith gychwyn ar brosiectau blaenoriaeth o 2020 ymlaen.</p>
<p>Cefnogi'r economi lleol drwy adeiladu cyfanswm o 15 unedau busnes newydd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> - Llangefni a - Chaergybi <p>gan hefyd ymestyn Canolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni i bwrpas ehangu'r gofod ar gyfer busnesau lleol.</p>	<p>Cafodd 7 o adeiladau busnes newydd eu hadeiladu a'u prydlesu yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd gwaith adeiladu ar estyniad i Ganolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni, Llangefni hefyd a gall busnesau lleol ei ddefnyddio nawr.</p> <p>Ni fu modd i ni gwblhau'r 8 uned fusnes newydd yng Nghaergybi yn ystod y flwyddyn ond fe wnaethom sicrhau caniatâd cynllunio i alluogi'r rhain i gael eu hadeiladu yn ystod 2019/20. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.</p>
<p>Cwblhau'r ffordd gyswllt yn Llangefni i alluogi gwell cyswllt rhwng yr A55 a Choleg Menai. Bydd hyn yn creu'r cyfle i weld datblygiadau sgiliau a hyfforddi pellach gan hefyd agor tir diwydiannol newydd.</p>	<p>Fe wnaethom gwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni sydd wedi caniatáu gwell cysylltiad rhwng yr A55 a Choleg Menai. Bydd hyn yn rhoi gwell cyfleoedd am hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gampws Coleg Menai trwy fwy o hygyrchedd a bydd hefyd yn rhoi gwell mynediad i'r parc diwydiannol gan felly greu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd i leoli yma.</p>
<p>Cwblhau'r gwaith o adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi i bwrpas cartrefu busnesau lleol ag ailleoli'r llyfrgell bresennol.</p>	<p>Er bod llawer o waith wedi digwydd yn Neuadd y Farchnad, Caergybi trwy gydol y flwyddyn, nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith ar amser oherwydd nad oedd modd i ni gael mynediad at ragor o gyllid UE yn amserol. Roedd hyn ynghyd â chymhlethdodau gyda'r broses adeiladu yn golygu na agorodd tan haf 2019 pam gafodd Llyfrgell Caergybi ei hadleoli yno.</p>

Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.

Addysg a Sgiliau	
Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
<p>Byddem yn drafftio, ymgynghori ac yn mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd. Bydd yn amlygu'r pwysigrwydd o ddatblygu amgylcheddau Dysgu newydd i bwrpas gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyrhaeddiad ein plant dros y blynyddoedd i ddod. Bydd ffocws cynnar ar ddatblygu'r model addysgol yn nalgylch Amlwch</p>	<p>Yn dilyn cyfnod helaeth o ymgynghori, fe wnaethom fabwysiadu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion (SMY) newydd yn ystod y flwyddyn sy'n amlygu'r ffordd ymlaen ar gyfer Addysg ar Ynys Môn.</p> <p>Yn y sector, mae'r lleihad mewn niferoedd a'r cynnydd mewn llefydd gweigion, ynghyd â'r toriadau a wynebwyd, wedi arwain at heriau cyllidebol sylweddol ar draws y sector ac mae'n debyg y bydd hyn yn parhau neu hyd yn oed waethygu dros y blynyddoedd nesaf.</p> <p>Bydd rhaid mynd i'r afael yn gadarn â'r her hon yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau system ysgolion gynaliadwy, effeithlon ar Ynys Môn. Rhagwelir y caiff hyn ei wireddu gan ddefnyddio'r SMY a fabwysiadwyd, sy'n nodi y byddwn yn –</p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu system ysgol sy'n addas am y tri deng mlynedd nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a phobl ifanc allu ffynnu a chymryd mantais o'r cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel • parhau i weithredu'n ddiflino i sicrhau bod ein safonau a darpariaeth ysgol ymysg y gorau'n genedlaethol • sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol trwy ddatblygu trefniant mwy cyfartal yn seiliedig ar gost-y-pen ar draws ysgolion a sefydlu patrwm addas ar gyfer addysg ôl-16 • sicrhau bod pob ysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i'w gallu • creu'r amgylchiadau i Benaethiaid lwyddo trwy sicrhau bod ganddynt ddigon o amser a chefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth • sicrhau system fel bod y system ysgolion yn sicrhau olyniaeth briodol • sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at "Ddylunio Lle".

	<p>Mae mwy o wybodaeth am y Strategaeth i'w gweld ar ein gwefan linc</p>
<p>Byddem yn weithio ar gwblhau'r Ysgol newydd yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen, fel ei fod yn adnodd cymunedol cynaliadwy i'r dyfodol.</p>	<p>Fe wnaethom gwblhau adeiladu Ysgol Santes Dwynwen gan agor yr ysgol yn swyddogol ar 29 Ebrill 2019. Mae gan yr Ysgol 21^{ain} Ganrif newydd yr holl adnoddau angenrheidiol i gwrdd ag anghenion y cwricwlwm newydd, a gaiff ei gyflwyno mewn ysgolion yn 2022, ac mae'n darparu'r amgylchedd gorau un ar gyfer dysgu.</p> <p>Bydd yr ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac mae'r ysgol wedi'i dylunio i gymryd 180 o ddisgyblion gyda 25 o lefydd meithrin.</p> <p>Mae'r ysgol newydd yn cwrdd â'r statws 'Rhagorol' BREEAM sy'n safon fyd-eang, sy'n gwerthuso arfer orau ar gyfer perfformiad amgylcheddol adeilad trwy ei ddyluniad, manyleb, adeiladwaith a gweithrediad. Mae'n anelu i leihau effeithiau negyddol adeiladu a datblygiad ar yr amgylchedd. Mae'r statws Rhagorol BREEAM yn rhoi'r adeilad yn y 10% uchaf o adeiladau newydd annomestig yn y DU o ran cynaladwyedd.</p> <p>Daw'r ysgol yn lle Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch. Mae'r ymatebion cychwynnol wedi bod yn galonogol ac mae'r plant wedi mwynhau gwneud ffrindiau newydd yn ogystal ag ymgymryd â phrofiadau a chyfleoedd newydd fel dod i'r ysgol ar y bws a chymryd rhan mewn timau chwaraeon.</p>
<p>Byddem yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol ysgolion cynradd Llangefni a'r cyffiniau, gan sicrhau ein bod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w gwireddu a chychwyn ar y gwaith o adeiladu</p>	<p>Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Prosiectau Moderneiddio Ysgolion yn Llangefni a Seiriol, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddiddymu ei benderfyniadau blaenorol gwnaed ym Mehefin 2018 ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg.</p>
<p>Byddem yn penderfynu ar ddyfodol addysg yn ardal Seiriol drwy gysidro dyfodol ysgolion Llandegfan, Biwmares a Llangoed</p>	<p>Roedd yr adolygiad mewnol wedi tynnu sylw at bryderon ynglŷn â'r gydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru) 2013.</p> <p>Cytunwyd i edrych o'r newydd ar y gwahanol opsiynau mewn perthynas â moderneiddio ysgolion gyda'r gofyn i ddilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru) 2018 wedi'i ddiweddarau, yn ardaloedd Llangefni a Seiriol ac i ddod ag adroddiad priodol yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan yn 2019/20.</p>

<p>Byddem yn parhau i anwytho Penaethiaid newydd y Sir (13) drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth reolaidd gan hefyd ddatblygu ein Penaethiaid dros dro (3). Byddwn yn adnabod darpar benaethiaid i'r dyfodol a'u cefnogi hwy drwy gynnig profiadau a chyfleoedd datblygol</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom hefyd ddarparu cefnogaeth a chynngor rheolaidd i'n Penaethiaid oedd newydd gymhwyso wrth iddynt ddatblygu yn eu rolau. Fe wnaeth X o benaethiaid posib y dyfodol hefyd gwblhau eu cyrsiau yn ystod y flwyddyn sy'n ein galluogi i helpu sicrhau bod staff addas, cymwysedig mewn lle at y dyfodol.</p>
<p>Byddem yn lansio rhaglen newydd Denu Talent Môn eleni fydd yn gyfle i 9 i 10 o bobl 16 oed neu drosodd i ymgymryd â hyd at 12 wythnos o brofiad o weithio gyda'r Cynngor gyda chyflog dros gyfnod yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gael blas ar waith awdurdod lleol modern drwy ymgymryd â phrosiectau a thasgau penodol</p>	<p>Cafodd y cynllun Denu Talent Môn ei lansio'n llwyddiannus yn ystod haf 2018 lle cafodd 10 o bobl ifanc eu cyflogi dros gyfnod o 12 wythnos mewn lleoliadau gwaith yng Ngwasanaethau'r Cynngor. Roedd y Cynllun yn rhoi cyfle i bobl ifanc feithrin sgiliau newydd, hyder a chael blas ar yr ystod eang o yrfaedd sydd ar gael wrth weithio mewn llywodraeth leol. Yn dilyn y cynllun, bu un person ifanc yn llwyddiannus wrth gael gwaith gyda'r Cynngor tra bod y lleill wedi mynd ymlaen i addysg bellach.</p>

Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.

Iechyd a Lles

Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
<p>Byddem yn gweithio i gynyddu cyfranogiad ein trigolion (gyda phwyslais ar ein pobl ifanc) mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden</p>	<p>Rydym yn parhau i geisio cynyddu'r cyfraniad a wneir gan ein trigolion, gyda phwyslais ar bobl ifanc, mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn gwelsom fod 67% o'r rhai fu'n cymryd rhan yn ein rhaglen NERS (Cynllun Cenedlaethol Cyfeirio i wneud Ymarfer Corff) wedi cwblhau'r cwrs llawn ac roedd 85% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y rhaglen ymarfer wedi arwain at welliant yn eu hiechyd.</p> <p>Yn ystod gwanwyn a haf 2018, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol ac ysgolion trwy Gymru, fe wnaeth dros 120,000 o blant a phobl ifanc gymryd y cyfle i gael dweud eu dweud ar chwaraeon a'u llesiant.</p> <p>Mae'r canlyniadau'n dangos, ar Ynys Môn mae 56% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf deirgwaith yr wythnos, o gymharu â 50% yn</p>

	<p>2015 a'r cyfartaledd cenedlaethol presennol o 48%.</p> <p>Roedd yr arolwg hefyd yn dangos:</p> <p>Mae 67% o ddisgyblion yn aelodau o glwb chwaraeon Mae 71% o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon tu allan i'r ysgol yn fawr Roedd 77% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb tu allan i'r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf Mae 86% o ddisgyblion yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgaredd newydd Mae 38% o ddisgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrandao ar eu barn am chwaraeon ac Addysg Gorfforol</p> <p>Mae hyn yn galonogol ac yn darparu sylfaen da i ennyn mwy o ddiddordeb mewn chwaraeon a hamdden ymysg ein pobl ifanc yn y dyfodol.</p>
<p>Byddem yn cyd-weithio ag eraill ac yn defnyddio arian cyfalaf er mwyn sefydlu cae 3G cyntaf yr Ynys ym Mhlas Arthur, Llangefni. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn offer ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi</p>	<p>Fe wnaeth Rheolwr Pêl-droed Cymru, Ryan Giggs ynghyd â'i Reolwr Cynorthwyol a chyn-drigolyn Ynys Môn, Osian Roberts agor yn swyddogol y cae 3G cyntaf ar Ynys Môn ym Mhlas Arthur, Llangefni, yn ystod y flwyddyn diolch i fuddsoddiad o £200k gan y Cyngor a Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Cydweithredol Cymru.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn cafodd yr ystafell ffitrwydd yng Nghaergybi ei hadnewyddu gydag offer newydd drwyddi draw.</p> <p>Fe wnaeth y newidiadau hyn ymysg eraill arwain at gyfanswm o 553,000 o ymweliadau â'n canolfannau hamdden i wneud gweithgarwch corfforol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn welliant ar y 508,000 o ymweliadau y flwyddyn gynt.</p>
<p>Byddem yn gweithio ag eraill i ddod a 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r niferoedd o dai fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynorthwyo i ddod â 78 o dai yn ôl i ddefnydd yn ogystal â chreu 9 o gartrefi newydd fel eu bod yn gartrefi i unigolion, cyplau a theuluoedd.</p> <p>Dyma'r Wardiau Etholiadol lle daethpwyd ag eiddo yn ôl i ddefnydd</p> <p>Aethwy - 7 Bro Aberffraw - 7 Bro Rhosyr - 6</p>

	Caergybi - 29 Canolbarth Môn - 5 Lliffon - 6 Lligwy - 2 Seiriol - 6 Talybolion - 6 Twrcelyn - 13 Ynys Cybi - 2
--	---

Dyma Astudiaeth Achos sy'n dangos llwyddiant o dan yr Amcan hwn ac sy'n dangos ein bod yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd ei botensial –

Cafodd Teulu A eu cyfeirio gan yr ysgol gynradd oherwydd pryderon oedd gan yr ysgol am les emosiynol a phresenoldeb Plentyn A. Roedd y Teulu eisiau bod yn siŵr y byddai'r plentyn yn cael ei gefnogi yn ystod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Fe wnaeth y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) gydlyn cyfarfod teulu a datblygu cynllun teulu a oedd yn cynnwys y teulu, y plentyn ac asiantaethau megis yr ysgol, Therapydd Teulu / Therapydd Chwarae NSPCC, Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Adran Dai yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Dai a'r swyddog lles addysg.


Nid oes ar Blentyn A angen cefnogaeth bellach gan ei fod wedi setlo'n llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd ac mae'n defnyddio strategaethau ymdopi y mae wedi eu dysgu i ymdopi yn y dyfodol agos. Mae Plentyn A wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd, sydd felly wedi cael gwared ar yr angen i asiantaethau ymyrryd, ac wedi gwella presenoldeb, hyder a lles emosiynol y plentyn.


Er mwyn mesur pa mor agos mae'r cyngor wedi'i alinio i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel rhan o'r dadansoddiad perfformiad blynyddol hwn, fe wnaethom gwblhau ymarfer hunan-fyfyrion (hunan-asesiad) Cenedlaethau'r Dyfodol gan ddefnyddio teclyn sydd wedi'i ddylunio'n arbennig gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Ar gyfer yr amcan hwn mae ein Rheolwyr yn y Cyngor yn credu ein bod yn **'Bod yn Fwy Mentrus'** gyda'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Credwn hyn am ein bod ar hyn o bryd yn gwneud gwaith o dan yr amcan hwn nad yw'n 'fusnes fel arfer', sy'n gwrthio'r ffiniau drwy gymryd ymagwedd rhagweithiol at yr agenda ataliaeth, datblygu talent a darparu cyfleoedd trwy waith, cydweithio â phartneriaid gyda'r bwriad o sicrhau llwyddiant ar unwaith gan hefyd gadw golwg ar y tymor hir ac ymgorffori safbwyntiau pobl yn y broses gwneud penderfyniadau, sy'n rhywbeth llawer mwy amlwg nag a fu yn y gorffennol.

Mae angen gwneud rhagor o waith o dan yr amcan hwn a byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ddiwygiedig ar gyfer 2019/20.

Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad





Mae pob un o'r dangosyddion a adnabuwyd ar gyfer Amcan 1 wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn o gymharu â'u targedau ac eithrio 2 ddangosydd a oedd o fewn 5% o'r targedau a osodwyd ar eu cyfer am y flwyddyn. Mae 5 o'r dangosyddion wedi gwella ar eu perfformiad ers 2017/18 tra bod 3 o'r dangosyddion cymaradwy wedi dirywio mymryn (llai na 0.4% pwynt) o gymharu â 2017/18.

Fodd bynnag, nid oes gan 6 o'r dangosyddion unrhyw ddata i gymharu gydag ef, felly tybir ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio unrhyw ganlyniadau meincnodi i sicrhau bod y targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn realistig ac yn sicrhau perfformiad da.

Mae presenoldeb yn ein hysgolion (PAM/007+008), er yn dangos dirywiad bach, wedi perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ac mae'r presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gweld gwelliant yn y canlyniad cenedlaethol nes ein bod yn y Chwartzel Uchaf, tra bod yr ysgolion cynradd hefyd wedi cynnal eu perfformiad yn y chwartzel uchaf.

Un dangosydd sydd wedi gweld gwelliant mawr yn ystod y flwyddyn yw nifer y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Yn ôl ein perfformiad ar gyfer y dangos hwn yn 2017/18, roedd gan Ynys Môn y ganran uchaf o ddisgyblion yn gadael blwyddyn 11 a oedd yn NEET yng Nghymru. Arweiniodd hyn at fwy o sgritwini o'r dangosydd, o fewn y Gwasanaeth a chan ein Aelodau Etholedig, ac arweiniodd at newid yn y broses i wella'r canlyniad. Rydym yn falch o weld bod y dangosydd hwn nawr yn perfformio'n dda, cyd-6^{ed} yng Nghymru, a bod ein pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn lleol, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae ein prosiect Cartrefi Gwag unwaith eto wedi sicrhau ein bod wedi llwyddo i gael 11.8% o gyfanswm nifer y tai gwag yn ôl i ddefnydd (PAM/013+014). Mae'r ymdrech hon wedi sicrhau bod 78 o eiddo yn ychwanegol ar gael i'n trigolion, sydd yn gwella cyfleoedd o fewn ei chymunedau.

Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib	
Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus	
Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
Byddem yn cwblhau'r datblygiad o'r tŷ gofal ychwanegol yn Llangefni – Hafan Cefni, fydd yn galluogi 63 person i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol	Fe wnaethom gwblhau ac agor yn swyddogol y cyfleuster tai gofal ychwanegol newydd sbon a modern, Hafan Cefni, yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Mae Hafan Cefni yn ddatblygiad sy'n cynnig cartref am oes i bobl dros 60 mlwydd oed sy'n dymuno byw'n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chrosawus gyda gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle.
Byddem yn cychwyn y gwaith paratoi o gynllunio ar gyfer tŷ gofal ychwanegol yn ardal Seiriol – Biwmares	Er bod y gwaith cynllunio wedi'i wneud ar gyfer y cyfleuster gofal ychwanegol ym Miwmares, mae'r penderfyniad i ddiddymu'r penderfyniad blaenorol ar ddyfodol Ysgol Gynradd Biwmares wedi golygu oedi yn y prosiect. Er bod hyn yn siomedig rydym yn awyddus i sicrhau y bydd y datblygiad y gorau y gall fod. Bydd yr oediad yn caniatáu inni ailedrych ar ardal de o'r Ynys ac ystyried cynigion pellach a allai fod ar gael i ni.
Byddem yn cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd yng Ngharreglwyd, Caergybi i ddarparu gofal dementia gwell gyda'r nod o atal trosglwyddiadau dianghenraid i leoliadau gofal amgen ac anaddas e.e. ysbytai neu ofal preswyl all-sirol	Fe wnaethom barhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod 15 o welyau ar gael ar gyfer gofal dementia yn Garreglwyd.
Byddem yn cwblhau'r gwaith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd o ail dendro'r cytundeb gofal cartref i leoliadau llai fel bod y ddarpariaeth yn well.	Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, buom yn llwyddiannus wrth ail-dendro'r contract gofal cartref ac mae gennym nawr 3 o ddarparwyr yn gyfrifol am y ddarpariaeth gofal cartref, sy'n rhannu traean o'r ynys bob un. Mae'r contract yn sicrhau bod y gwasanaeth o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr, a bydd yn sicrhau bod pobl hŷn sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty ac sy'n aros i ddod adref yn gallu mynd adref yn gynt nac o dan y ddarpariaeth flaenorol a ddarparwyd gan y Cyngor. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gwelyau ysbyty ar gael yn gynt ac yn ei dro bydd hynny'n lleihau'r galw ar yr ysbytai lleol.

<p>Byddem yn cynyddu'r niferoedd o hybiau cymunedol ar draws yr Ynys mewn ardaloedd tebyg i -</p> <ul style="list-style-type: none"> - Amlwch - Llangefni - Cemaes - Porthaethwy - Niwbwrch a - Benllech <p>fydd yn helpu'r agenda ataliol ac yn cadw unigolion yn actif ac yn brysur o fewn eu cymunedau.</p>	<p>Mae'r model hyb cymunedol wedi gweithio'n llwyddiannus mewn sawl ardal ar yr Ynys ac mae tua 1,100 o bobl yn cael mynediad at weithgareddau hyb cymunedol bob wythnos.</p> <p>Mae rhai o'r datblygiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Agewell Amlwch wedi ad-leoli i'r Ganolfan Hamdden ac mae dyddiau ychwanegol ar gael yn yr hyb cymunedol sydd ar ei newydd wedd ym Maes William Williams • Mae Agewell Llangefni nawr yn gweithredu yn adeilad Hafan Cefni a chaiff hwn ei weld fel model arloesol • Mae buddsoddiad cyfalaf o'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi'i gwblhau i uwchraddio a gwella mynediad i hybiau ym Mryngwran, Llanfaelog a Llanfairpwll • Mae Eglwys Fach yn Niwbwrch wedi gwella eu cyfleusterau ac yn darparu nifer uwch o weithgareddau • Mae gwaith wedi cychwyn ar drawsnewid dwy lolfa gymunedol yn hybiau cymunedol yng Nghae Gwyn, Caergybi, a Tan y Foel yn Llannerch-y-medd <p>Ni wnaed yr un cynnydd yng Nghemaes a Benllech oherwydd y ffocws ar ardaloedd eraill lle dangoswyd y lefel mwyaf o ddiddordeb eleni.</p> <p>Bydd ardaloedd eraill, gan gynnwys y ddwy ardal hon, yn dilyn yn y dyfodol.</p>
<p>Byddem yn adolygu a newid trefniadau gofal dydd sydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a gan ddarparwyr eraill fel bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar gyflawni dyheadau personol</p>	<p>Roeddem eisiau ailedrych a newid y ffordd y caiff trefniadau gofal dydd eu darparu gennym yn ystod y flwyddyn, ond yn anffodus ni fu hyn yn bosib oherwydd bod gweithgareddau eraill wedi cymryd blaenoriaeth a'r angen i ddrafftio ac ymgysylltu ar strategaeth cyfleoedd dydd ddiwygiedig gyda'r defnyddwyr.</p> <p>Bydd y weithgaredd hon nawr yn cael ei gwneud yn 2019/20 o dan gyfarwyddyd ein Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>

<p>Byddem yn cwblhau'r datblygiad yn Llawr y Dref, Llangefni fydd yn rhoi'r cyfle i'r rhai hynny sydd gydag anawsterau dysgu i symud i fflatiau dros dro er mwyn cael eu hasesu, cefnogi a'u paratoi i fyw'n annibynnol</p>	<p>Mae'r cynllun, sydd wedi gadael i ni ailwampio'r 29 o fflatiau yn llwyr, wedi elwa o fuddsoddiad ariannol sylweddol, ac mae'r fflatiau wedi eu trawsnewid i ddarparu llety byw modern a chyfforddus.</p> <p>Byddwn yn cynnig y cyfle i unigolion a chyplau dros 60 mlwydd oed ymgeisio am dŷ cymdeithasol yn y fflatiau hyn sydd wedi eu hailwampio yn Llawr y Dref, Llangefni.</p> <p>Mae rhai fflatiau wedi eu neilltuo i roi cyfle i'r rheini sydd ag anawsterau dysgu symud i fflatiau dros dro fel y gallant gael eu hasesu a'u cefnogi ar gyfer byw'n annibynnol.</p> <p>Bydd y fflatiau hyn yn barod i fod yn weithredol yn ystod 2019/20.</p>
---	--

Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib

CEFNOGAETH I BLANT A THEULUOEDD

Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
<p>Byddem yn edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant i blant, phobl ifanc a'r rhai bregus o fewn ein cymdeithas. Ein nod fydd cynyddu gwytnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl bregus mewn cymdeithas trwy weithredu Strategaeth Ataliaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n canolbwytio ar adeiladu gwytnwch, gostwng yr angen am wasanaethau statudol ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed sylweddol.</p> <p>Fe wnaethom hefyd greu swyddi newydd yn y gwasanaeth megis y swydd Gweithiwr Perthnasau Iach sy'n caniatáu i ni ymateb yn gynt i achosion lle mae risg i blant a phobl ifanc o gam-fantais.</p> <p>Fe wnaeth y gwasanaeth gymryd rhan yn y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'i bwriad yw llunio ymateb gan yr Heddlu â'u hasiantaethau partner allweddol i'r maes Profiadau Andwyol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma. Y manteision o'r rhaglen yw gostyngiad yn y cyfeiriadau gan yr Heddlu i'r gwasanaeth a chynnydd yn y nifer o gyfeiriadau Cymorth Cynnar. Mae hyn yn cefnogi'r</p>

	<p>amcanion strategol a'r gofynion statudol i ni ymyrryd yn gynharach a chanolbwyntio ar ataliaeth.</p> <p>Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi parhau i gefnogi teuluoedd o dan y nodau craidd o <i>Atal, Dychwelyd, Lleihau, ac Adolygu</i>. Fe wnaeth y tîm gefnogi teuluoedd oedd â phlant ar drothwy gofal, a'u cefnogi i beidio gorfod mynd i mewn i'r system gofal a chefnogi teuluoedd i'w plant allu dychwelyd adref atynt os ydynt wedi bod mewn gofal. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio gydag oddeutu 60 o blant yn y ffordd yma.</p>
<p>Byddem yn cyd-weithio ag eraill i godi oddeutu 60 o dai cymdeithasol newydd ar yr Ynys eleni yn yr ardaloedd a ganlyn –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Llanddeusant - Cemaes - Caergybi - Dwyran - Penysarn - Niwbwrch 	<p>Rydym wedi cydweithio â Chymdeithasau Tai trwy gydol y flwyddyn i ddarparu mwy o dai fforddiadwy ar yr Ynys.</p> <p>Cwblhawyd cyfanswm o 48 o dai newydd yn ystod y flwyddyn yn yr ardaloedd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llanddeusant – cwblhawyd 10 o unedau newydd • Cemaes – cwblhawyd 14 o unedau newydd • Dwyran – cwblhawyd 2 uned newydd • Penysarn – cwblhawyd 9 uned newydd • Niwbwrch – cwblhawyd 5 uned newydd • Caergybi – cwblhawyd 8 o unedau newydd <p>Mae gwaith wedi cychwyn hefyd ar 25 uned newydd arall yng Nghaergybi.</p> <p>Am y tro cyntaf ers yr 1980au rydym wedi cytuno ar gynlluniau i adeiladu ein stoc tai cyngor ein hunain er mwyn darparu llety addas a chwrdd ag anghenion ein tenantiaid a thrigolion y dyfodol.</p>
<p>Byddem yn parhau gyda'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan holl deuluoedd yr Ynys fan penodol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ymwneud â phlant, a theuluoedd sydd â phlant, rhwng 0-25 oed</p>	<p>Mae ein gwasanaeth Teulu Môn wedi sefydlu'n dda erbyn hyn ac mae wedi parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i aelodau o'r cyhoedd, partneriaid, a theuluoedd ar ymholiadau yn ymwneud â phlant a theuluoedd. Fe wnaethom barhau i hyrwyddo Teulu Môn trwy fynychu dyddiau agored, nosweithiau rhieni a digwyddiadau yn y gymuned.</p> <p>Rydym wedi gweithio i ddatblygu'r Hyb Cymorth Cynnar. Mae'r hyb yn gyfarfod aml-asiantaeth sy'n cynnwys asiantaethau partner allweddol gan gynnwys y trydydd sector. Pwrpas yr Hyb yw cynnig gwasanaeth i deuluoedd a fyddai efallai'n elwa o</p>

	<p>ymyrraeth gynnar a chefnogaeth. Caiff y teuluoedd sy'n cael eu trafod eu cyfeirio i'r gwasanaeth gan asiantaethau neu drwy eu cyfeirio eu hunain.</p> <p>Nid oes cefnogaeth ddigonol i bobl ifanc LGBT a'u rhieni ar Ynys Môn. Mewn ymateb, rydym wedi dechrau ar y broses o sefydlu clwb LGBT a grŵp cefnogaeth i rieni ar yr Ynys. Mae'r bobl ifanc yn greiddiol i ddatblygiad y prosiect hwn ac maent yn aelodau o'r grŵp datblygu. Mae hwn yn ddarn o waith sy'n hanfodol i ni ei ddatblygu ymhellach yn 2019/20.</p>
<p>Byddem yn parhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr Ynys</p>	<p>Fe wnaethom barhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr ynys. Rydym wedi cynyddu nifer y Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol o fewn y gwasanaeth, sydd wedi cynyddu'r capasiti.</p> <p>Mae prydlondeb yr ymatebion o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau'n dda gydag asesiadau'n cael eu cwblhau ar amser a theuluoedd yn cael y gefnogaeth gywir gan Weithiwr Cymdeithasol ar yr adeg gywir.</p> <p>Rydym yn cyfrannu'n llawn i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.</p> <p>Rydym yn cynorthwyo mewn digwyddiadau hyfforddiant ac wrth godi ymwybyddiaeth asiantaethau am drawstoriad o faterion Diogelu, gan sicrhau bod Diogelu yn aros yn uchel ar agenda'r asiantaethau a'i fod hefyd yn aros yn fusnes i bawb.</p>
<p>Byddem yn treialu lleoliadau ehangach i rai o'n plant mewn gofal drwy un ai gynnis mwy o wasanaethau, cynyddu'r lleoliadau gofal maeth neu ddarparu gofal mewn ffordd wahanol (amgen)</p>	<p>Fe wnaethom hefyd ddechrau'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth gyntaf o Gartrefi Grŵp Bach ar yr ynys – Cartref Clyd Môn.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor; parcio am ddim yn holl feysydd parcio y Cyngor; cynnydd o 10% yn y lwfans maethu a cherdyn aelodaeth gwasanaethau hamdden am ddim.</p> <p>Yn dilyn y cyhoeddiad am becyn maethu newydd ym mis Ionawr 2019, cawsom nifer o ymholiadau a dechreuwyd ar asesiadau.</p> <p>Fe wnaethom hefyd ddechrau'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth gyntaf o Gartrefi Grŵp Bach ar yr ynys – Cartref Clyd Môn. Mae hyn yn golygu dau o blant yn byw efo'i gilydd mewn awyrgylch 'gartrefol' ac yn gweithredu mewn</p>

	modd tebyg i blant adref h.y. yn mynd allan i'r ysgol, yn byw yn y gymuned, bod â chymdogion a ffrindiau ac ati.
--	--

Astudiaeth Achos –

Mae P yn byw efo'i theulu yn Llangefni ac mae ganddi anabledd dysgu ac mae'n mynychu Canolfan Addysg Y Bont. Cafodd P ei chyfeirio at y Gwasanaethau Arbenigol Plant pan oedd yn 17 mlwydd oed am wasanaeth Nyrsio pediatrig AD yn y Gymuned i gefnogi'r ysgol i reoli ei hymddygiad. Nid oedd teulu P wedi gofyn am unrhyw gefnogaeth neu ymwneud gan y gwasanaethau cyn hyn.

Fel rhan o Brosiect Pontio Partneriaeth – Y Bont (sy'n gweithio o'r Ysgol Arbennig), roedd P a'i teulu yn gallu cael y gefnogaeth ychwanegol gan Gydlynnydd Trosglwyddo y gwasanaeth heb orfod bod yn agored i weithiwr cymdeithasol. Roedd y Cydlynnydd Trosglwyddo yn gallu gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill o wahanol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda P, i gefnogi gyda chynllunio'r Broses Trosglwyddo i'r gwasanaethau anableddau dysgu oedolion.

Fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion teimlwyd y byddai'n beth positif i P ehangu ei hystod o ddiddordebau a weithgareddau er mwyn ei helpu i ddod yn fwy annibynnol, a hefyd i gefnogi ei rhieni yn eu rôl gofalu trwy alluogi iddi gael seibiannau byr.

Cytunwyd gyda'r teulu mai dyma oedd yr amser iawn i gyflwyno gweithiwr cymdeithasol o'r GAP, i edrych ar y mathau o gefnogaeth a fyddai'n helpu P ac yn cefnogi'r teulu trwy'r Trosglwyddiad i'r Gwasanaethau Oedolion. Fel rhan o Gynllun Gofal a Chefnogaeth P, roedd y teulu'n defnyddio taliadau uniongyrchol i'w galluogi hi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned ac mae hyn wedi rhoi'r cyfle i P ddatblygu ei hannibyniaeth a'i sgiliau cymdeithasol gyda chefnogaeth 2 gynorthwydd personol, bob wythnos. Dyma'r tro cyntaf i'r teulu gael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol a golygai'r berthynas hon y gallai'r gweithiwr cymdeithasol ddod i nabod y teulu a sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda'r tîm gwaith cymdeithasol o fewn y gwasanaeth anableddau dysgu oedolion.

Yn hwyrach yn y flwyddyn, fe wnaeth y Gweithwyr Cymdeithasol ymweld â'r teulu fel y byddai'r cyswllt gyda AD Oedolion yn darparu gwasanaeth di-dor i P ac fel y gallai'r teulu fod yn hyderus y gallai'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol barhau a, lle bo angen, y byddai trosglwyddiad gwasanaethau iechyd yn cael ei gydlynu gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol gwreiddiol.

Bydd y ddau weithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi P tan y bydd yn 18 mlwydd oed a bydd y Cydlynnydd Trosglwyddo yn parhau i fod ynghlwm fel rhan o'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion, gan edrych ar weithgareddau dydd ac opsiynau eraill am gyfleoedd addysg bellach.


Mae mam P wedi rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol ei bod yn teimlo bod y Gwasanaeth Trosglwyddo wedi bod yn "dda" ac mae hi wedi gwerthfawrogi'n arbennig rôl y Cydlynnydd Trosglwyddo a'r Gweithiwr Cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wrth gefnogi P a'r teulu ar y pwynt hwn yn y broses drosglwyddo.

Ar gyfer yr amcan hwn o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol credwn ein bod ar hyn o bryd yn **'Bod yn fwy Mentrus'** gyda'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Credwn fod hyn am ein bod yn ymgymryd â'r gwaith o dan yr amcan hwn nad yw o'r meddylfryd 'busnes fel arfer'.

Creda'r Rheolwyr fod hyn oherwydd y gwaith arbennig rydym yn ei wneud mewn hybiau yn y gymuned gyda phrosiectau megis 'atal codymau' a'r gwasanaeth Tylluanod y Nos. Mae'r hybiau cymunedol hyn yn enghraifft dda o sut ydym hefyd yn cynnwys ac yn ymgorffori pobl yn ein penderfyniadau ac mae hyn hefyd wedi'i dystiolaethu yn yr arfer dda sydd gennym gyda'r Cyngor Pobl Hŷn, mentoriaid cyfoed o fewn ein cartrefi, ein grŵp cyfeirio Anableddau Dysgu a hefyd y tîm cyfranogiad tenantiaid.

Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad

<p>PAM/028: Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol</p>		<p>PAM/029: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn</p>		<p>SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations</p>	
<p>86.2% ^{Melyn}</p>		<p>9.5% ^{Gwyrdd}</p>		<p>81% ^{Melyn}</p>	
Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd
TBC	17/18 - 67.6%	TBC	17/18 - 9%	n/a	17/18 - 63.3%
<p>PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn</p>		<p>SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis</p>		<p>SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith</p>	
<p>241 ^{Gwyrdd} Diwrnod</p>		<p>16.9% ^{Melyn}</p>		<p>98% ^{Gwyrdd}</p>	
Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd
n/a	17/18 - 326.5 Days	n/a	n/a	n/a	n/a
<p>PAM/025: Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd</p>		<p>SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn</p>		<p>SCA/002b - Cyfradd y pobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth</p>	
<p>7.78 ^{Coch}</p>		<p>96% ^{Gwyrdd}</p>		<p>17.35 ^{Gwyrdd}</p>	
Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd	Perfformiad Cenedlaethol	Tuedd
TBC	17/18 - 6.58	n/a	17/18 - 96%	n/a	17/18 - 17.44



Mae'r dangosyddion yn yr amcan hwn wedi perfformio'n gymharol dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn, ac eithrio 2 ddangosydd a oedd yn goch. Roedd 68% o'r dangosyddion uwchlaw'r targed, roedd 21% o'r dangosyddion o fewn 5% o'u targedau ac roedd yr 11% yn weddill yn goch yn erbyn eu targedau.

Mae'r dangosyddion o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (PAM/028+29, SCC/006+010+025, a PM28) oll wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn ac maent uwchlaw'r targed neu o fewn 5% i'r targed. Ar ôl y gwaith da yn y gwasanaeth cafwyd arolwg gan AGC ym mis Hydref 2018 sy'n dweud wrthym ein bod yn gwneud cynnydd da, ond bod rhaid i ni barhau i gryfhau gwasanaethau ac arferion. Bydd y gwasanaeth yn parhau gyda'r gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud ac yn datblygu Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd a fydd yn cynnwys y meysydd i'w datblygu a nodwyd gan AGC yn dilyn yr ail-arolwg.

Roedd tri chanlyniad positif o arolygon a wnaed gan oedolion, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn (PAM/24+26+27), ac roedd pob un o'r rhain wedi gwella ar y canlyniadau yn 2017/18. Mae'r adborth positif yn helpu i roi gwybod i ni fod y gwaith rydym yn ei wneud gyda'n cleientiaid yn gweithio a'u bod yn derbyn gofal a chefnogaeth dda gennym.

Rydym hefyd yn blês gyda nifer yr oedolion sydd wedi cwblhau rhaglen ymarfer corff y cynllun NERS (PAM/041) gan i'r cleientiaid hyn gael eu cyfeirio i'r gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Doctoriaid Meddygol oherwydd cyflyrau iechyd eu cleientiaid. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i helpu i wella cyflwr eu hiechyd ac mae'n gadarnhaol gweld bod 85% o'r cleientiaid yn credu bod eu hiechyd yn well ar ôl cwblhau'r cwrs (PAM/042).

Roedd y ddau ddangosydd a oedd yn goch yn erbyn eu targedau yn dod o'r Gwasanaethau Oedolion. Tra bod y perfformiad yn siomedig yn y ddau ddangosydd yma rydym wedi bod yn rheoli'r perfformiad trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio.

Mae'r ganran o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi ac a oedd ar becyn gofal is 6 mis yn ddiweddarach (PM20a) yn ymwneud â nifer cymharol fach o unigolion a gall y perfformiad godi a gostwng o flwyddyn i flwyddyn oherwydd hyn. Fe wnaed popeth a ellid bod wedi'i wneud ar gyfer ein cleientiaid, a'u cyflyrau iechyd yw'r ystyriaeth bennaf a'r ffactor bwysicaf i ni cyn unrhyw beth arall, ac mae perfformiad y dangosydd hwn yn adlewyrchu natur eu salwch. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ail-alluogi cyfredol ac yn ystyried dulliau o gasglu data sy'n darparu deilliannau a rhesymeg fanylach ar gyfer ymyraethau sy'n parhau i mewn i 2019/20.

Yr ail ddangosydd oedd cyfradd y bobl dros 75 oed a gafodd eu cadw yn yr ysbyty tra'n aros am Ofal Cymdeithasol (PAM/25). Cydnabyddir y bu cyfradd uchel o achosion lle roedd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTCO) yn enwedig yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn. Disgwyliwyd y byddai'r contract Gofal Cartref newydd sy'n gweithio fesul ardal wedi cael effaith positif ar y ffigyrau, ac fe gafodd ryw effaith, ond nid cymaint ag oeddem yn credu y byddai wedi'i gael. Ar gyfer 2019/20, byddwn yn gweithio gyda'r tri darparwr tuag at sicrhau fod gennym ddigon o gapasiti ail-alluogi i gwrdd â'r galw cynyddol ynghyd â gweithio ar y cyd â'n cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i sicrhau proses fwy cadarn o godio data.

Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

DATBLYGU A HYRWYDDO

Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
Byddem yn gwireddu'n cynllun rheoli cyrchfan drwy ganolbwyntio'n bennaf ar farchnata'r Ynys mewn cydweithrediad ag ymgyrch blynyddol Croeso Cymru - 'Year of the Sea'	Fe wnaethom gefnogi Croeso Cymru gyda'r ymgyrch 'Blwyddyn y Môr' a oedd yn dathlu arfordir eithriadol Cymru, gan wahodd ymwelwyr i ddarganfod profiadau epig newydd o amgylch ein glannau, gyda digwyddiadau arbennig ac atyniadau trwy gydol y flwyddyn.
Byddem yn croesawu 52 o longau mordeithio a dros 32,000 o ymwelwyr i Gaerdybi gan ysgogi'r ymwelwyr i ymweld â chyrchfannau twristiaeth lleol i dderbyn croeso cynhenid Cymreig	Fe wnaethom groesawu 46 o Longau Mordaith i Borthladd Caerdybi dros y flwyddyn, mymryn llai nag a gynlluniwyd gan y bu rhaid i 3 llong ganslo oherwydd y tywydd a bu rhaid i 3 llong arall ganslo oherwydd problemau gyda'r llong. Fe wnaeth y 46 o longau mordaith a wnaeth ddocio arwain at oddeutu 29,000 o ymwelwyr i'r ynys a Gogledd Cymru.
Byddem yn parhau gyda'n bwriad a'n cyflawniad o sicrhau bod dros 70% o'n gwastraff teuluol yn cael ei ailgylchu gan hefyd atal gwastraff aiff i bwrpas tirlenwi	Roedd ein lefelau ailgylchu yn dal i fod uwchlaw disgwyliadau Llywodraeth Cymru lle cafodd 70% o wastraff ei ailgylchu, ei ailddenyddio neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn. Byddai'r ffigwr hwn wedi bod yn uwch ar gyfer y flwyddyn ond yn anffodus roedd tân yn safle ailgylchu ein contractwyr ac o ganlyniad collwyd deunyddiau y byddem wedi gallu eu hailgylchu. Rydym yn ffyddiog y bydd y cyfraddau ailgylchu yn uwch yn ystod 2019/20.
Byddem yn buddsoddi £250,000 mewn nifer o brosiectau effeithlonrwydd ynni ar draws stad y Cyngor gan ganolbwyntio ar ein hysgolion / canolfannau hamdden	Buddsoddwyd cyfanswm o £287k ar draws ystâd y Cyngor gyda buddsoddiadau yn amrywio o oleuadau LED yn ein hysgolion i gyflwyno system dosio gemegol yn ein pyllau o fewn ein canolfannau hamdden. Gwnaethom hefyd waith ar bibellau'r ystafell boeler a gwnaethom gomisiynu Re:fit Cymru i'n cynghori ar ble y gellid gwireddu effeithlonrwydd ynni pellach dros y blynyddoedd i ddod.
Byddem yn ogystal yn cwblhau gwaith o ymchwilio i'r meysydd hynny o'r stad ac yn paratoi cynllun ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod lle bydd buddsoddiad pellach yn medru creu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynni	
Byddem yn cydlynu'r rhaglen Ynys Ynni i liniaru effeithiau, a gwella'r buddion a geir yn sgil prosiectau ynni mawr.	Eleni gwelwyd Horizon Nuclear Power yn gohirio prosiect Wylfa Newydd ac mae'r gohiriad hwn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y datblygiad i'r ynys, Gogledd Cymru a'r DU. Er gwaethaf hyn, mae nifer o gerrig milltir allweddol wedi'u cyrraedd, yn bennaf trwy Gytundeb Adran 106 ffurfiol a chredwn fod hyn yn diogelu buddiannau'r ynys, heb unrhyw anghydfod neu anghytundebau mawr rhwng Pŵer Niwclear Horizon a'r Cyngor.
Byddem yn sicrhau bod y Cyngor Sir yn dylanwadu ar brosesau DCO a Chynllunio	

<p>Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol.</p>	<p>Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â datblygwyr ynni eraill o bwys trwy'r Rhaglen Ynys Ynni gyda'r bwriad o greu swyddi a chynyddu ffyniant trwy fanteisio i'r eithaf ar nifer o brosiectau trawsnewidiol.</p>
<p>Byddem yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau atal llifogydd ym, Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd eleni, a gweithio gyda phartneriaid (Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) i ymchwilio i broblemau yn Llangefni a Dwyran. Byddwn yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer ceisiadau am gyllid i gynlluniau ym Mhorthaethwy, Llanfairpwll, Caergybi a Fali yn 2019/20 (i bwrrpas eu gwarchod i'r dyfodol o effeithiau amgylcheddol amrywiol)</p>	<p>Cychwynnwyd gwaith peirianyddol i leddfu dŵr wyneb ym Miwmares yn ystod y flwyddyn ond bu oedi wrth gwblhau'r cynllun oherwydd fod ein contractwr, Dawnus, wedi mynd i ddwylo'r Gweinyddwyr. Rydym wedi penodi contractwr newydd ers hyn, Alun Griffiths, ac mae'r gwaith wedi cychwyn a chaiff ei gwblhau yn ystod 2019/20.</p> <p>Fe wnaethom gwblhau gwaith amddiffynfa lifogydd yn llwyddiannus ym Modffordd ond ni fu modd i ni gychwyn gwaith yn Pentraeth fel y bwriadwyd, a disgwylir y dylai'r gwaith cychwyn cyn diwedd 2019.</p> <p>Cynhaliwyd sesiwn galw-i-mewn ym Mhorthaethwy i drafod cynlluniau at y dyfodol am amddiffynfeydd llifogydd ac fe wnaed cais am gyllid i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru hefyd ar gyfer gwaith yn Llanfairpwll, Y Fali a Llansadwrn.</p>

Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

Trawsnewid

Beth ddwedasom ein bod yn gwneud	Yr hyn rydym wedi'i wneud
<p>Byddem yn parhau i gyd-weithio gyda'n cymunedau i gynllunio lle gyda'r bwriad o'i harfogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu cymunedau eu hunain</p>	<p>Mae'r gwaith yn parhau gyda wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn gyda'r bwriad o sicrhau perchnogaeth dros yr agenda a'r blaenoriaethau lleol. Mae rhai wardiau wedi datblygu ymhellach ar hyd y daith nag eraill ond gobeithiwn trwy gydweithredu y bydd pob un o'r wardiau a amlinellir wedi symud ymlaen ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.</p>
<p>Byddem yn cyd-weithio gyda Chyngor Tref Biwmares i allanoli rheolaeth o'r Carchar a'r Llys i bwrrpas cynnal yr atyniad twristiaeth hanesyddol yn y dref i'r dyfodol</p>	<p>Sefydlwyd cytundeb gyda Chyngor Tref Biwmares yn ystod y flwyddyn i allanoli'r gwaith o reoli'r Llys a'r Carchar. Bydd y cytundeb yn caniatáu i'r atyniadau hanesyddol aros ar agor i'r cyhoedd gan barhau i ddarparu darlun hanesyddol o achosion llys a bywyd yn y carchar ar ddiwedd y 18^{fed} ganrif a thrwy'r 19^{eg} ganrif. Dymunwn yn dda i Gyngor Tref Biwmares at y dyfodol.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi allanoli'r gwaith o redeg Melin Llynonn a'r Tai Crynion i gogydd</p>








	lleol, Richard Holt a dymunwn yn dda iddo yntau hefyd.
Byddem yn peilota estyniad o'n cynnig Cyswllt Môn allan yn y gymuned mewn llyfrgelloedd i bwrpas hyrwyddo mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn fwy eang	Ni wnaeth ein bwriad i dreialu estyniad i'n gwasanaeth Cyswllt Môn i'r llyfrgelloedd cymunedol ddigwydd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym wedi prynu'r offer yn barod at y peilot a byddwn yn dechrau treialu hyn yn llyfrgelloedd Porthaethwy ac Amlwch yn 2019. Mae materion technegol wedi ein dal yn ôl, ond rydym wedi goresgyn y rhain bellach.
Byddem yn ail-lunio'n gwefan corfforaethol i'w wneud yn haws i drigolion yr Ynys fedru derbyn / chwilio a chyfleu gwybodaeth angenrheidiol mewn ffordd ystyrlon newydd	Fel rhan o gynllun gweithredu y Strategaeth Iaith Gymraeg, fe wnaeth y Cyngor ymrwymo i raglen dreigl 6 blynedd i ddarparu cefnogaeth ddwys i Wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol. Mae pencampwyr iaith yn y gwasanaethau Hamdden a Gwarchod y Cyhoedd wedi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn frwd yn ystod y flwyddyn. Mae dysgwyr Cymraeg yn y gwasanaethau wedi bod yn gweithio gyda mentoriaid ac wedi mynychu sesiynau 'paned a sgwrs' i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.
Byddem yn ysgogi ac yn cefnogi'r gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden i bwrpas cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg ein gweithlu drwy gydweithio'n ddwys ac yn rhagweithiol ar ymyraethau llwyddiannus	Fe wnaethom ail-ddylunio ein gwefan yn llwyddiannus ac mae golwg newydd, ffres iddi erbyn hyn a gefnogir gan bob math o lwyfannau o Gyfrifiaduron Personol i ffonau symudol. Bydd hyn yn galluogi pob defnyddiwr i gael y profiad gorau posib waeth pa ddyfais mae arni, a bydd hefyd yn ein galluogi ni i weithredu ein strategaeth ddigidol ac yn ei dro yn gymorth i ni leihau costau.

Ar gyfer yr amcan hwn o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol credwn ein bod ar hyn o bryd yn 'Gwneud Newidiadau Syml' gyda'r gwaith a wnaed eisoes yn ystod y flwyddyn. Credwn hyn am ein bod yn ymgymryd â gwaith yn yr amcan hwn sy'n gymharol hawdd i'w gyflawni ac mae nifer o'r newidiadau wedi cael eu profi'n llwyddiannus eisoes gan sefydliadau eraill tebyg i ni'n hunain.

Er enghraifft, rydym wedi gweithio'n ddiflino i gydweithio ac allanoli rhai o'n hasedau treftadaeth i ddyn busnes / cyngor tref lleol, rydym wedi cyflawni'r hyn a allwn o safbwynt Credyd Cynhwysol gan hefyd ddeall y rhwystredigaethau cenedlaethol ehangach, ac rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ein gwaith gyda digartrefedd trwy weithio gyda datblygwyr a sicrhau llais i bob grŵp sy'n cael ei dangynrychioli.

Mae ein strategaeth iaith a'n ffrydiau gwaith cysylltiedig hefyd yn parhau i ddwyn ffrwyth gyda mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yn y gwasanaethau wedi'u targedu.

Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad

<p>PAM/020: Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol</p>		<p>PAM/021: Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol</p>		<p>PAM/022: Canran y ffyrdd C mewn cyflwr gwael yn gyffredinol</p>	
<p>2.9% <small>Gwyrdd</small></p>		<p>3.8% <small>Gwyrdd</small></p>		<p>8.7% <small>Gwyrdd</small></p>	
<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Uchaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 2.9%</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Uchaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 4.2%</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Canolrif Isaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 8.9%</p>
<p>PAM/010: Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol</p>		<p>PAM/030: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall</p>		<p>PAM/035: Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon</p>	
<p>95.6% <small>Melyn</small></p>		<p>69.9% <small>Melyn</small></p>		<p>0.2 Days <small>Gwyrdd</small></p>	
<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Canolrif Isaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 93.6%</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>TBC</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 72.2%</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Uchaf</p>	<p>Tuedd</p> <p>n/a</p>
<p>PAM/043: Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person</p>		<p>PAM/018: Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cynnodau gofynnol</p>		<p>PAM/019: Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd</p>	
<p>236 kg/person <small>Melyn</small></p>		<p>80.9% <small>Coch</small></p>		<p>73.7% <small>Gwyrdd</small></p>	
<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>TBC</p>	<p>Tuedd</p> <p>n/a</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Isaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 86.1%</p>	<p>Perfformiad Cenedlaethol</p> <p>Chwartzel Uchaf</p>	<p>Tuedd</p> <p></p> <p>17/18 - 47.1%</p>

Yn debyg i'r 2 amcan cyntaf, mae'r dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r amcan wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Roedd 78% o'r dangosyddion uwchlaw'r targed am y flwyddyn, roedd 11% o fewn 5% o'r targed ac roedd y 11% yn weddill yn goch yn erbyn y targed.

Rydym yn hapus i adrodd bod ein ffyrdd A, B, a C (PAM/021+022+023) unwaith eto wedi cwrrd â'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Mae perfformiad y ffyrdd A a B yn arbennig yn ein rhol yn y chwartzel uchaf yn genedlaethol tra bod ein ffyrdd C wedi gwella ers 2017/18 ond yn parhau yn y canolrif chwartzel is.

Er nad oedd ein dangosydd ailgylchu, aildddefnyddio a chompostio (PAM/030) wedi hitio'r union un lefelau ailgylchu ag yn 2017/18, rydym dal i fod flynyddoedd ar y blaen i darged Llywodraeth Cymru

o ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025. Roedd y rheswm am beidio cyflawni'r 72% a gyflawnwyd yn 2017/18 oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth ar ôl i dân dorri allan yn ffatri ein darparwr allanol, a olygodd nad oedd peth o'n gwastraff ar gael i'w ailgylchu.

Un dangosydd na gyrhaeddodd ei darged am y flwyddyn oedd y ganran o geisiadau cynllunio a gafodd eu penderfynu o fewn 8 wythnos (PAM/018). Cafodd y dangosydd hwn a chamau lliniaru i gywiro'r perfformiad eu monitro yn y cerdyn sgorio chwarterol yn ystod y flwyddyn. Y prif resymau am y perfformiad hwn oedd salwch tymor hir yn ystod cyfran sylweddol o'r flwyddyn ac effaith paratoi system gynllunio electronig newydd. Mae proses newydd nawr mewn lle a rydym yn rhagweld ddylai arwain at well perfformiad yn 2019/20.

DRAFT

Perfformiad Ariannol 2018/19

Y Gyllideb Refeniw

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer ei wariant dydd i ddydd. Gelwir y gyllideb hon y Gyllideb Refeniw a dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor ei angen i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth grantiau mae'n eu derbyn gan y Llywodraeth.

Yn ystod 2018/19, gosodwyd cyllideb refeniw y Cyngor ar £130.9 miliwn (£126.2m yn 2017/18).

Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllidebau ac yn mesur ei berfformiad ariannol trwy gyfrif rheoli, mae hyn yn caniatáu i ni dracio gwariant yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd dros y flwyddyn.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyfrif Refeniw wario £131.5 miliwn, sef gorwariant o £633 mil yn erbyn y gwariant a gynlluniwyd o £130.9 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, trwy drawsnewid gwasanaethau a ffyrdd gwell o weithio, fe wnaeth y cyngor gynhyrchu gwerth £2.1 miliwn o arbedion. Roedd effaith y gorwariant yn golygu bod y Cyngor wedi lleihau ei Gronfeydd wrth gefn Cyffredinol o £633 mil.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 a'r incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn:

Gwasanaethau	Cyllideb Blynyddol £'000	Alldro £'000	Amrywiant £'000
Dysgu Gydol Oes	48,959	49,183	224
Gwasanathau Oedolion	24,921	26,094	1,173
Gwasanaethau Plant ac Theuluoedd	8,729	10,565	1,836
Tai	1,091	802	(289)
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	14,884	14,690	(194)
Rheoleiddio	3,820	3,646	(174)
Trawsnewid	4,431	4,322	(109)
Adnoddau	2,840	2,886	46
Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol	21,225	19,345	(1,880)
Cyfanswm Cronfa'r Cyngor	130,900	131,533	633

Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Mae gwariant cyfalaf fel arfer yn cael ei weld fel gwariant "unwaith ac am byth" ac mae'n arwain at adeiladu neu wella ein hasedau, er enghraifft ein eiddo.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £37.017 miliwn ar gyfer gwasanaethau heblaw tai, ac fe gymeradwyodd Raglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT (Cyfrif Refeniw Tai). Yn ychwanegol, cafodd ymrwymadau cyfalaf gwerth £9.348m eu dwyn ymlaen o 2017/18.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd gwerth £5.058 miliwn yn rhagor o Gynlluniau i'r rhaglen, gyda'r rhain yn cael eu hariannu'n bennaf gan Grantiau Cyfalaf ychwanegol, a chafodd cyllidebau eu diwygio gan arwain at ostyngiad o £0.959 miliwn. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 i £62.881 miliwn.

Llwyddodd y rhaglen i sicrhau cyfradd gyflawni o 48.78% a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae un cynllun sef 'y Briffordd newydd i Wylfa Newydd' wedi ei ohirio am y tro, a bydd un cynllun sef 'Gofal Ychwanegol yn Seiriol' nawr yn cael ei ariannu trwy ffynhonnell ariannu arall.

Arweiniodd hyn at gyfanswm gwariant o £30.678 miliwn, ychwanegwyd £19.307 miliwn i werth asedau. Mae'r gweddill naill ai'n cefnogi asedau nad ydynt ym mherchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£1.954 miliwn) neu ni wnaethant gynyddu'r gwerth i'r asedau cyfalaf (£9.417 miliwn).

Casgliad

Mae'n bleser gan Gyngor Sir Ynys Môn gyflwyno ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol am 2018/19 i'n cymuned. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd sy'n cael ei werthfawrogi ar draws yr ynys ac i wneud ein gorau glas i gynnal neu wella ein perfformiad er mwyn sicrhau bod ein trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.

Ar y cyfan, mae ein perfformiad ar gyfer 2018/19 wedi bod yn dda iawn, yn enwedig mewn cyfnod lle torrwyd £2.5m pellach oddi ar y gyllideb. Mae'n galonogol ein bod yn parhau i wella ein gwasanaethau drwy'r Cyngor cyfan, fel y gwelir trwy'r adroddiad, a'n bod wedi llwyddo i gwblhau gwaith pwysig yn ystod y flwyddyn.

Mae'r newyddion diweddar ynglŷn â gohirio datblygiad Wylfa Newydd wedi amlygu pwysigrwydd y datblygiad. Er gwaethaf y newyddion yma, rydym yn parhau i weithio er budd Ynys Môn mewn perthynas â'r broses gynllunio ac rydym wedi cyflwyno tystiolaeth er mwyn gwarchod buddiannau'r ynys ac mae'r cytundeb adran 106 yn destament i'n hymdrechion i liniaru'r effeithiau.

Gan edrych ymlaen i 2019/20, mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn dal i fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posib o brosiectau mawr arfaethedig, ynghyd â dylanwadu ar y Papur Gwyn Ynni drafft fel 'map llwybr' i ddarparu datblygiad niwclear newydd yn Wylfa.

Byddwn yn drafftio, yn ymgynghori ynghylch, ac yn mabwysiadu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn er mwyn gwella ffyniant Amlwch a Gogledd Ynys Môn ac yn sicrhau cyllid i weithredu'r cynllun, mae £495k wedi'i sicrhau eisoes diolch i'r NDA.

Byddwn yn parhau i weithredu ein strategaeth i ddatblygu'r Gymraeg o fewn ein hysgolion gan hefyd ysgogi a chefnogi ein staff yn y gwasanaethau Hamdden, Tai a Gwarchod y Cyhoedd i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynorthwyo 20 o fusnesau lleol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy ein prosiect Arfor.

Byddwn yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ni ar gyfer moderneiddio ysgolion yn nalgylchoedd Llangefni, Seiriol ac Amlwch ac wedi hynny yn ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen.

Yn y Gwasanaethau Plant byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi diogelwch a llesiant plant ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu 3 o gartrefi grŵp bach ar Ynys Môn – Cartrefi Clyd Môn yn 2019/20. Bydd hyn yn caniatáu i ni gefnogi plant sydd ag anghenion uchel o fewn eu hardal leol ac nid mewn lleoliadau all-sirol, costus.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn anelu i ganolbwyntio ar fodel o gefnogaeth ddydd i unigolion gydag Anabledd Dysgu mewn ffordd sy'n cwrdd â'u nodau ac sy'n eu cefnogi i ddod yn eu blaenau. Mewn partneriaeth â'n partneriaid iechyd a thrydydd sector, rydym hefyd yn bwriadu sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol o fewn 3 ardal yn Ynys Môn er mwyn darparu'r gefnogaeth orau i bobl allu aros yn annibynnol, a chaiff hyn ei gyflawni gan dimau integredig.

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl weithio efo ni trwy weithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn a wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn ynglŷn â chynllunio lle, gyda'r nod o'u galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth am eu cymunedau eu hunain.

Bydd angen gwireddu'r uchod i gyd ar adeg pan ragwelir y bydd angen toriadau cyllidebol pellach. Bydd yr her hon yn cael ei chyflawni'n uniongyrchol trwy ein proses gosod cyllideb flynyddol.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn:

www.anglesey.gov.uk/councilplan

Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni, Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost:–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a gall fod ar gael ar ddisg neu mewn Braille. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22:

<http://www.anglesey.gov.uk/councilplan>

Mae gwybodaeth bellach ar gael hefyd fel a ganlyn: polisiau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a gellir eu gweld yn: www.anglesey.gov.uk

Mae adroddiadau Archwilio ac Arolygon a gynhyrchwyd gan Rheoleiddwyr y Cyngor ar gael o'u gwefannau unigol, fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.sac.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: <https://arolygiaethgofal.cymru>
- Estyn: www.estyn.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd, neu os hoffech gael gafael ar ddogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a welir ar frig y dudalen os gwelwch yn dda.

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11.09.19
Pwnc:	Monitro Chwarterol y Gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Pwrpas yr Adroddiad:	Adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng. Aled Morris Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cyng. Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Elin Williams, Rheolwr Trawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 01248 751813 ElinWilliams@ynysmon.gov.uk
Aelodau lleol:	Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau

1 – Argymhelliad/ion

Gofynnir i'r Pwyllgor :

1.1 Gadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon a chyflwymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Mae cystylliadau clir rhwng Cynllun Datblygu Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Chynllun Ynys Môn 2017/2022. Yr amcanion yw:

1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.
2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol a phosib.
3. Gweithio gyda cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol a newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

- 3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

A yw'r Pwyllgor yn fodlon a chyflymder y cynnud a'r gwelliannau hyd ymo o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

5 – Cefndir / Cyd-destun

Fel Aelodau Etholedig rydych yn gwbl ymwybodol o'r cefndir o ran y Cynllun Gwella Gwasanaeth ac y cafodd hwn ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Yn dilyn yr ail archwiliad diweddar o'r gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio ar Gynllun Datblygu Gwasanaeth Newydd sy'n disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol.

Ers yr adroddiad diwethad, mae gwaith y Gwasanaethau Pant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar:

1. Teuluoedd Gwydn

Mae'r Tîm teuluoedd Gwydn wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017 ac mae'n cynnwys Arweinydd Ymarfer; dau Weithiwr Cymdeithasol; dau Weithiwr Cymorth; Swyddog Datblygu Rhiantu a Gweithiwr 'Reflect'. Mae swydd y Gweithiwr Reflect yn rhan o brosiect cenedlaethol sydd â'r nod o gynyddu gwytnwch merched sydd wedi cael un neu fwy o blant wedi eu symud o'u gofal yn barhaol, lleihau nifer yr achosion o feichiogrwydd lle mae'r fam eisoes wedi cael plentyn wedi'i symud o'i gofal a hynny rhag cynyddu nifer y lant sy'n dod i'r system ofal.

Mae'r tîm yn ymyrryd â theuluoedd sy'n arddangos lefel uchel o angen er mwyn darparu cymorth dwys ac ymyrraeth mewn perthynas ag egwyddorion Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng. Mae hyn er mwyn cefnogi teuluoedd sydd wedi torri i lawr; atal plant rhag dod i ofal ac ail uno plant mewn gofal â'u teuluoedd.

Mae'r tîm yn darparu ymyrraeth ddwys wyneb yn wyneb strwythuredig mewn perthynas â newid arferion rhiantu, datblygu strategaethau er mwyn rheoli ymddygiadau a datblygu sgiliau rhiantu sy'n seiliedig ar ymgysylltiad. Mae'r tîm hefyd yn darparu ymgynghoriadau, hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i'r gweithlu ehangach.

Drwy'r Tîm Teuluoedd Gwydn, mae Ynys Môn yn datblygu proffil uwch yn genedlaethol o ran cyfrannu mewn modd gweithredol at y dirwedd a'r wybodaeth yn y maes gofal

cymdeithasol a meysydd proffesiynol cysylltiedig. Mae Ynys Môn yn ymwneud â chreu, llunio a dosbarthu ymchwil ac mae'n ymwneud â gwaith Agwedd Canlyniadau Personol mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafodd Sian Morgan, un o weithwyr y tîm, wobwr yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni amd ei defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Derbyniodd Sian y wobwr 'Gofalu trwy'r Gymraeg' yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Roedd Sian yn un o chwech a gyrhaeddodd y rownd derfynol a dewisiwyd hi fel enillydd yn dilyn pleidlais gyhoeddus.

Mae effaith y Tîm Teuluoedd Gwydn ers Hydref 2017 wedi bod yn un sylweddol ac mae bellach wedi dod yn rhan o'r gwasanaeth craidd. Bydd adroddiad trylwyr ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn yn cael ei gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 9 Medi 2019.

2. Prosiect Voices from Care Cymru

Mae gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol am blant lleol sydd mewn gofal a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Mae'r grŵp hwn ymysg y mwyaf bregus yn ein cymdeithas ac mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas i wella eu hamgylchiadau personol.

Yn y cyswllt hwn, rydym yn awyddus i wrando ar fwy o'u profiadau er mwyn ceisio gwella gwasanaethau ar eu rhan a hynny drwy ddatblygu Grŵp Cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd wedi gadael gofal. Pwrpas sefydlu'r grŵp yw er mwyn cyd gynhyrchu Strategaeth Plant Mewn Gofal a Rhai sy'n gadael Gofal a Siart Rhiantu Corfforaethol.

Yn dilyn cyflwyno'r mater i Banel Rhiantu Corfforaethol Ynys Môn ar 10 Rhagfyr 2018 a sicrhau cytundeb mewn egwyddor ar gyfer y cynllun, mae'r Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Dysgu wedi cyfrannu tuag at y gwaith hwn. Gwrthododd Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfrannu tuag at y prosiect hwn. Bydd gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc rhwng 11 a 17 oed yn dechrau yn Awst 2019 gyda 'grŵp cychwynnol' o dan y Prosiect Gwneud Gwahaniaeth sy'n creu lle i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ddod ynghyd ac i ddod yn arweinwyr ar gyfer newidiadau cadarnhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn Ynys Môn. Cynhelir y gweithdy untro hwn er mwyn trafod a chytuno ar y 10 maes allweddol ar gyfer newid. Bydd pobl ifanc yn dewis eu '3 uchaf' dros y misoedd nesaf gyda'r Prosiect Gwneud Gwahaniaeth yn gweithio mewn mwy o fanylder ar y 3 uchaf dros y flwyddyn nesaf. Bydd Voices from Care Cymru hefyd yn mynychu Gwobrau STAR a'r Diwrnod o Hwyl ym mis Medi er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae Voices from Care Cymru hefyd yn y broses o recriwtio swyddog lleol a fydd yn gweithio ar y prosiect ac a fydd yn cydlynu cyfarfodydd y Grŵp Cyfranogiad ac yn cyfleu'r hyn sy'n bwysig yn lleol.

3. Pythefnos Maethu 2019

Cynhaliwyd Pythefnos Maethu ym mis Mehefin. Nod y bythefnos yw codi proffil Gofalwyr Maeth ac yn y pen draw annog mwy o aelodau o'r cyhoedd i gofrestru a dod yn Ofalwyr Maeth.

Eleni, cynhaliodd Tîm Lleoli Plant Ynys Môn ddau brif ddigwyddiad. Roedd y cyntaf yn daith gerdded uchelgeisiol, o fath ras gyfnewid o amgylch yr Ynys gan ddefnyddio llwybrau'r Llwybr Arfordirol. Fe wnaeth Aelodau Etholedig; Penaethiaid Gwasanaeth; aelodau gwahanol banelau; staff gwaith cymdeithasol a rheolwyr; gweithwyr proffesiynol asiantaethau; gweithwyr iechyd; gweithwyr addysg; Mr Urdd a llawer mwy gymryd rhan. Derbyniodd y daith gerdded adborth cadarnhaol gan y cyhoedd o ran cefnogaeth ond yn ogystal, fe gasglwyd arian tuag at Gymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn. Codwyd cyfanswm o £836.52.

Yr ail ddigwyddiad a gynhaliwyd oedd y gystadleuaeth bobî 'Bake Off' boblogaidd. Bu Swyddogion y Cyngor bobî teisennau a gafodd eu barnu gan gogydd enwog Ynys Môn, Richard Holt. Yn dilyn y gystadleuaeth cafodd y teisennau eu gwerthu i bawb a fynychodd y digwyddiad gan gasglu £440 ychwanegol.

Drwy gynnal y digwyddiadau hyn fe godwyd proffil Gofalwyr Maeth Ynys Môn a chafwyd ymateb cadarnhaol o ran cysylltiadau cyhoeddus a recriwtio, gyda chyfanswm o £1,478.34 yn cael ei gasglu ar gyfer Cymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn. Caiff ei gyflwyno'n ffurfiol i'r gymdeithas yng nghyfarfod nesaf y grŵp.

4. Recriwtio Gofalwyr Maeth

Ers cyhoeddi'r pecyn gofal maeth newydd ym mis Ionawr 2019; mae 18 o deuluoedd gofal maeth wedi holi a dangos diddordeb mewn bod yn ofalwyr maeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae 12 wedi dechrau'r broses asesu a bydd 2 arall yn gwneud hynny cyn hir.

Mae 6 eisoes wedi eu cymeradwyo fel Gofalwyr Maeth gan y Panel Maethu a Sefydlogrwydd hyd yma a bydd gofalwyr maeth eraill yn cael eu cyflwyno i'r Panel Maethu dros y misoedd nesaf.

Mae'r ymgyrch recriwtio wedi bod yn llwyddiannus gyda photensial y bydd 24 o wlaŵ gofal maeth newydd ar gael i blant Ynys Môn erbyn Hydref 2019.

5. Cynllun Datblygu Gwasanaeth

Mae'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn gynllun 3 blynedd ac mae'n cynnwys y 5 thema canlynol:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol;
2. Asesiadau amserol ac o safon, cynllunio gofal, ymyraethau a gwneud penderfyniadau er mwyn diogelu, efnogi a rheoli risgiau ar gyfer plant; cronolegau o safon da, cadw cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil;
3. Fframwaith sicrwydd ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant;
4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol 'ar yr amser iawn' er mwyn gwella bywyd teuluol a chefnogi teuluoedd ar adegau o drawma;
5. Gwella canlyniadau at gyfer plant mewn gofal.

Cafwyd datblygiadau calonogol yn yr holl feysydd uchod ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio drwy'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd.

Mae'r meysydd lle gwelwyd cynnydd yn cynnwys:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol:

Strategaeth Gweithlu bellach yn ei lle ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Er bod y gwasanaeth wedi gweld rhai newidiadau o ran staffio yn ddiweddar, roedd y rhain o ganlyniad i ddyrchafiadau mewnol neu allanol gan rai staff a chyfnodau mamolaeth.

2. Aseidiadau amserol ac o safon, cynllunio gofal, ymyraethau a gwneud penderfyniadau er mwyn diogelu, cefnogi a rheoli risgiau ar gyfer plant; cronolegau o safon da, cadw cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil;

Mae archwiliadau mewnol yn parhau i gael eu cynnal ac yn dangos cynnydd cadarnhaol o ran ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Mae angen parhau i weithio i sicrhau bod ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn dda ar draws yr holl achosion.

3. Fframwaith sicrwydd ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant;

Cyflwynwyd adroddiad trylwyr mewn perthynas â'r uchod i Bwyllgor Mehefin 2019.

4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol 'ar yr amser iawn' er mwyn gwella bywyd teuluoel a chefnogi teuluoedd ar adegau o drawma;

Mae Archwiliadau Mewnol yn parhau i gael eu cynnal ac mae plant a'u teuluoedd bellach yn cael cynnig ymyrraeth briodol ar yr amser cywir. Mae datblygiad Hyb Cymorth Cynnar Ynys Môn hefyd yn sicrhau bod teuluoedd a phlant yn cael cynnig cyngor a chymorth yn llawer cynharach ar sail Aml-asiantaeth.

5. Gwella canlyniadau at gyfer plant mewn gofal.

Mae nifer o bolisiau newydd bellach yn weithredol sy'n galluogi staff i gefnogi a gwella canlyniadau ar gyfer plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol:

- Protocol Pobl Ifanc a'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn Ynys Môn ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Polisi Gadael Gofal;
- Polisi Arian Poced, Cyfrif Banc a Chynilion ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal

Mae'r gwasanaeth yn frwdfrydig am ei Gynllun Datblygu Gwasanaeth wrth symud ymlaen.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol.

7 – Oblygiadau Ariannol

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i graffu ar yr holl gontractau ac ar adegau bydd yn herio costau, ac yn arbennig costau'r ddarpariaeth plant mewn gofal. Gwneir ymdrech hefyd i leihau gwariant ar draws y gwasanaeth ac, yn ei dro, mae wedi lleihau'r gorwariant a ragwelwyd hyn yma.

8 – Atodiadau

Dim.

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Dim.

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11 Medi, 2019
Pwnc:	Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwrpas yr Adroddiad:	Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn flaenorol)
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng. Aled Morris Jones
Aelod(au) Portffolio:	Cyng. Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol / Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Awdur yr Adroddiad:	Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini
Ffôn:	01248 752578
E-bost:	AnwenDavies@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

1 – Argymhelliad/Argymhellion

A1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol o safbwynt cyflawni ei raglen waith newydd
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod yr Ymweliadau Laming, fel dull o gryfhau ymhellach atebolrwydd, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel
- Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer ohoni'n cael ei darparu'n fewnol
- Bydd y Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Ataliol Gorfforaethol yn ystod yr Hydref, 2019
- Deilliannau'r hunan arfarniad diweddar i fesur effaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant blaenorol a'r gwerth a ychwanegwyd
- Yr angen i adolygu'r cylch gwaith i adlewyrchu'r penderfyniad diweddar i ymestyn sgôp y Panel Gwella i gynnwys gwasanaethau oedolion a hefyd gwasanaethau plant a theuluoedd.

A2 Uwchgyfeirio'r mater canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yn ymwybodol ohono:

- Gwnaed cynnydd da o ran gweithredu'r pecyn maethu newydd ond mae ychydig o oedi wrth agor y cyntaf o'r Cartrefi Clyd Môn¹. Mae hyn wedi digwydd oherwydd yr angen i ail hysbysebu swydd y rheolwr cofrestredig. Mae rheolwr cofrestredig addas bellach wedi'i benodi a chyn bo hir bydd y Gwasanaeth yn hysbysebu am reolwr cofrestredig dan hyfforddiant mewn paratoad ar gyfer y cam nesaf yn natblygiad y gwasanaeth Cartrefi Clyd Môn. Dylid nodi'r camau a gymerwyd.

¹ Cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Tai Grŵp Bach

A3 Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niferoedd Plant mewn Gofal: argymhell i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y dylai'r ymateb i Lywodraeth Cymru:

- Gynnwys cyfeiriad at ein strategaeth i leihau nifer y Plant mewn Gofal
- Peidio â gosod targed i leihau nifer y Plant mewn Gofal ar Ynys Môn.

A4 Adroddiad Blynyddol Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol: argymhell i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y dylai'r Panel Gwella graffu ar y ddogfen i'r dyfodol.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Panel o gynllun datblygu gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau plant yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb yn gadarn i argymhellion dau adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar y gwasanaethau plant² a bod camau mewn lle i leihau unrhyw risgiau. Hefyd, yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad diweddar o wasanaethau pobl hŷn³.

3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a **chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ar gais y Panel:

1. A yw'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith a wnaed gan y Panel hyd yma?
2. A yw'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Oes yna unrhyw awgrymiadau i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. Oes yna unrhyw feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

5 – Cefndir / Cyd-destun

² Dyddiedig Mawrth 2017 a Rhagfyr 2018

³ Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn disgwyl am adroddiad terfynol yr arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru

1. CYD-DESTUN

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod sgrwtini wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgrwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** (y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn flaenorol⁴).

Trefniadau Llywodraethu'r Panel

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethiant cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel⁵ a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Sefydlwyd proses ar gyfer derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan y Cyng. Richard Griffiths, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ar y Panel.

Hefyd, bydd aelodau'n cofio fod yr Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn am ganiatâd y Pwyllgor⁶ i sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant a theuluoedd. Cymeradwywyd y cynnig hwn⁷, a daeth y newid i rym ar unwaith, gan ganiatáu i:

- i. Wasanaethau Oedolion dderbyn yr un lefel o graffu ag a roddwyd i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf
- ii. Aelodau Etholedig ddatblygu gwybodaeth fwy manwl o brosesau a heriau yn y Gwasanaethau Oedolion

Cadarnhawyd mai aelodau'r Panel fydd yr Aelodau a oedd yn gwasanaethu ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant blaenorol sydd hefyd yn cynnwys yr Aelodau'n cynrychioli'r Panel Rhiant Corfforaethol (fel sylwedyddion):

Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: Aelodaeth

Cynghorydd	Swyddogaeth
Llinos Medi Huws	Arweinydd y Cyngor; Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol; Pencampwr Pobl Ifanc
R Meirion Jones	Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant
Gwilym Owen Jones	Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
Richard Griffiths	Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol; Pencampwr Plant Mewn Gofal
Bryan Owen	Arweinydd yr Wrthblaid
Kenneth P Hughes	Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant
Peter S Rogers	Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol
Aelodau'r Panel Rhiant Corfforaethol (fel sylwedyddion)	
Alun Mummery	
Margaret M Roberts	

⁴ Ehangwyd sgôp y Panel i hefyd gynnwys gofal cymdeithasol oedolion

⁵ Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 13 Tachwedd 2017

⁶ Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019





⁷ Cynnig a argymhellwyd gan y Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion (22/05/19) a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant (23/05/19)

2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae'r Panel newydd a sefydlwyd wedi rhoi blaen raglen waith ddiwygiedig mewn lle sy'n rhoi sylw i bob agwedd o'r gwasanaethau cymdeithasol. Fel man cychwyn, rhoddir blaenoriaeth i faterion yn y gwasanaethau oedolion yn ystod y sesiynau hyfforddiant a datblygiad ar gychwyn pob cyfarfod o'r Panel. Rhoddir blaenoriaeth i faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau Plant ar y rhaglen fel materion i graffu arnynt.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at gyfarfod olaf y Panel Gwella Gwasanaethau Plant (23/05/19) a dau gyfarfod cyntaf y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol newydd (a gynhaliwyd ar 27/06/19 a 23/07/19) – ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Mai** → **Gorffennaf, 2019**:

- **Cynllun Datblygu Gwasanaeth (CDG) ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** – mae'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn rhoi sylw i gyfnod 3 blynedd⁸ ac mae'n cynnwys 5 o themâu ac 14 o feysydd datblygu (gyda 2 ohonynt wedi eu trosglwyddo o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol). Rhoddwyd ystyriaeth fanwl yn ystod cyfarfod y Panel ym mis Gorffennaf⁹ i Thema 5 y CDG – sy'n cynnwys y meysydd datblygu a ganlyn:

-  Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus
-  Gwasanaethau Ôl-Ofal
-  Maethu a chefnogaeth ôl-faethu
-  Cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau ar gyfer Plant Mewn Gofal

Caniataodd trafodaethau'r Panel i Aelodau ddod i'r farn bod ganddo beth hyder o ran cyflawni'r meysydd datblygu yn Thema 5. Hefyd, nododd y Panel yr angen i sicrhau momentwm parhaus er mwyn cyflawni'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn llawn.

- **Ymweliadau Laming** – Bydd aelodau'n ymwybodol o'r fframwaith llywodraethu gadarnach sy'n sail i'r Ymweliadau Laming sydd yn cynnwys trefniadau adrodd yn ôl cadarn gan Aelodau yn dilyn ymweliadau unigol. Y nod yw dod â'r Panel yn agosach at achosion a chreu'r amodau i Aelodau werthfawrogi'n llawn gymhlethdodau a heriau cyfrifoldebau'r Gwasanaeth e.e. drwy gyfarfod â staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd yr Aelodau adroddiadau ar Ymweliadau Laming a gynhaliwyd ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf a oedd yn canolbwyntio ar:

- ❖ **Cwynion a sylwadau cadarnhaol (21/05/19)** – roedd yr Ymweliad yn amlygu proses 3 cam wrth ddelio gyda chwynion a dderbyniwyd dan weithdrefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol → Cam 1 (anffurfiol), Cam 2 (ffurfiol) ac Ombwdsmon. Yn ddiweddar, cyflwynwyd templed ar gyfer ymateb i gwynion Cam 1 gyda'r nod o wella amseroedd

⁸ Mae Cynllun Datblygu Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2019 → Mawrth 2022

⁹ Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019

ymateb. Mae'r Panel wedi gofyn i ystyriaeth gael ei roi i'r broses, camau a goblygiadau yn gysylltiedig ag Aelodau'n ystyried Adroddiad Blyneddol Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol – gyda'r bwriad y byddai'r Panel Gwella'n craffu ar y ddogfen yn y dyfodol.

- ❖ **Cyfarfod â theuluoedd sydd wedi derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (18/06/19)** – yn ystod Ymweliad Mehefin, trefnwyd cyfarfod gyda theuluoedd sydd wedi derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth. Roedd hon yn sesiwn bwerus a amlygodd 4 neges allweddol ar gyfer y Cyngor:

- i. mae'n her sylweddol i deuluoedd ymdopi gyda newid mewn gweithiwr cymdeithasol
- ii. dylai'r Awdurdod ystyried yr angen am weithwyr cymdeithasol ychwanegol er mwyn lleihau nifer yr achosion a ddynodir i weithwyr achos unigol
- iii. canmolwyd mewnbyn y Tîm Teuluoedd Gwydn
- iv. mae dibyniaeth ar gyffuriau'n cael effaith negyddol sylweddol ar deuluoedd.

- ❖ **Ymweliad â Bryn Hwfa, Rhostrehwfa (22/07/19)** – ymweliad â'r ddarpariaeth gofal seibiant ar gyfer plant/pobl ifanc sydd ag anghenion gofal sylweddol. Mae lleoliad presennol y gwasanaeth yn gyfyngedig o ran lle a gosodiad ond nododd y Panel fod hyn wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth datblygu ymhén 2/3 blynedd.

- **Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o'r gwasanaethau pobl hŷn** - ym mis Mehefin¹⁰, bu i'r Panel ystyried y trefniadau a'r prosesau ar gyfer arolygu gwasanaethau pobl hŷn yn ystod mis Gorffennaf, 2019¹¹. Nodwyd bod 3 amcan yn gyrru'r arolygiad - nodi pa mor effeithiol ydym o ran hyrwyddo annibyniaeth; ffactorau sy'n annog canlyniadau da ac unrhyw rwystrau. Roedd gwaith maes yr arolygiad yn canolbwyntio ar brofiadau 57 person hŷn drwy'r system gofal a chymorth, gan ddefnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel sail ar gyfer y gwaith maes. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Cyngor yn disgwyl am adroddiad terfynol yr arolygiad.
- **Data rheoli perfformiad** – sicrhau fframwaith perfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar grynoded o berfformiad 2018/19 yn y gwasanaethau plant (yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn ogystal â pherfformiad ariannol).

Mae'r trafodaethau hyn wedi caniatáu i'r Panel ddod i'r casgliad fod perfformiad wedi gwella ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Hefyd, fod peth hyder yng ngallu'r Gwasanaeth i gyflawni arbedion ariannol yn ystod 2019/20.

¹⁰ Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2019

¹¹ Gwnaed y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 1 Gorffennaf a'r wythnos yn cychwyn ar 15 Gorffennaf, 2019

- **Strategaeth Lleihau Niferoedd Plant mewn Gofal** – Ym mis Mai¹² derbyniodd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant gyflwyniad ar ddeilliannau ymweliad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Strategaeth Genedlaethol arfaethedig i leihau nifer y plant mewn gofal. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, penderfynodd y Panel argymhell i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y dylai'r ymateb i Lywodraeth Cymru:
 - ✚ Gynnwys cyfeiriad at ein strategaeth ar gyfer atal plant rhag dod i mewn i ofal (e.e. ymyrraeth gan y tîm teuluoedd gwydn)
 - ✚ Peidio â gosod targed ar gyfer lleihau nifer y Plant mewn Gofal ar Ynys Môn.

- **Strategaeth Ataliol Gorfforaethol** – yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf¹³ derbyniodd y Panel gyflwyniad llafar gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ynglŷn â'r gwaith o baratoi strategaeth ataliol gorfforaethol fel sail i baratoi cynllun gweithredu blynyddol yn dilyn hynny. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried fersiwn drafft o'r Strategaeth Ataliol yn yr Hydref.

- **Diweddariad ar ffrydiau gwaith unigol** – ym mis Gorffennaf¹⁴ derbyniodd y Panel ddiweddariad ar y ffrydiau gwaith a ganlyn:
 - i. **Strategaeth Maethu**
Bu cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr maeth a gafodd eu recriwtio ers cyflwyno'r strategaeth newydd ym mis Ionawr 2019. Nodwyd fod y Gwasanaeth yn debygol o ragori ar ei darged recriwtio yn ystod 2019/20 a thu hwnt.
 - ii. **Cartrefi Clyd Môn**
Mae'r eiddo cyntaf yn cael ei baratoi ar gyfer preswylwyr ac mae gwaith yn cael ei wneud i ganfod ail eiddo. Erbyn hyn, penodwyd Rheolwr Cofrestredig. Adroddwyd y bydd llithriad o ran cyflawni'r ffrwd waith hon o ganlyniad i ddau ffactor – recriwtio rheolwr cofrestredig sy'n meddu ar y cymwysterau addas a gofynion rheoleiddio. Mae argaeledd tai addas wedi bod yn ffactor hefyd. Mae'n debygol bydd y Cartref Clyd cyntaf yn weithredol ym mis Rhagfyr, 2019.
 - iii. **Addysg Ddewisol yn y Cartref**
Mae'r Panel wedi derbyn diweddariad ar y darlun cenedlaethol a lleol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi paratoi ymateb cynhwysfawr i ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ar y canllawiau statudol drafft.

- **Sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi eu hymgorffori yn rhaglen waith y Panel, cynhelir y sesiynau hyn ar gychwyn pob cyfarfod Panel. Roedd pynciau y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod y tri mis diwethaf yn cynnwys – Hyb Ymyrraeth Gynnar Ynys Môn (gwasanaethau plant), proses arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac Un Pwynt Mynediad (gwasanaethau oedolion).

¹² Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019

¹³ Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019

¹⁴ Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019

3. MESUR CANLYNIADAU AC EFFAITH Y PANEL

3.1 Cyd-destun

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae cofnodi ac asesu effaith Sgriwtini yn her gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgrwtini bob amser yn ddirnadwy ac nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig bob tro. Yn ogystal â hyn, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy siarad a thrafod. Fodd bynnag, mae taith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft o sgrwtini yn ychwanegu gwerth ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

3.2 Panel Gwella Gwasanaethau Plant

Mae craffu ar daith wella'r gwasanaethau plant wedi aeddfedu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i gyfraniad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant blaenorol. Ym mis Ebrill¹⁵, cynhaliodd aelodau'r Panel hunan-arfarniad o'i effaith gan adolygu 4 agwedd o'i waith:

- ✚ Beth weithiodd yn dda
- ✚ Nodi'r effaith y mae'r Panel wedi'i gael
- ✚ Meysydd i'w gwella
- ✚ Anghenion datblygu aelodau

3.3 Deilliannau'r Hunan-arfarniad gan Aelodau'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant

3.3.1 Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol fel fframwaith i ganiatáu Aelodau i arfarnu cyfraniad y Panel ar y daith i wella'r Gwasanaethau Plant:

- C1** Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- C2** Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal y Gwasanaethau Plant i gyfrif wrth weithredu siwrnai wella sylweddol?
- C3** Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?
- C4** Pa effaith mae bod yn Aelod o'r Panel wedi'i gael arnoch chi fel unigolyn?
- C5** Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi yn eich rôl?
- C6** Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?






3.3.2 Mae'r ffrwd waith hon wedi darparu tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol a ganlyn:

- Tîm o Aelodau, o blith yr holl bleidiau gwleidyddol a grwpiau, sydd wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth am gymhlethdodau'r gwasanaethau plant a lefel o arbenigrwydd yn y maes gwasanaeth
- Datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu'r amodau cywir ar gyfer Sgriwtini effeithiol e.e. gwelliant gwirioneddol yn lefel a dyfnder y cwestiynau a ofynnir gan y Panel
- Mae gweithgarwch sgrwtini yn cael ei gynllunio'n dda, yn effeithiol ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod o ffynonellau
- Mae gan Aelodau Etholedig well dealltwriaeth o gymhlethdodau a risgiau yn y Gwasanaethau Plant er mwyn gallu craffu yn effeithiol, dal i gyfrif a nodi blaenoriaethau wrth symud ymlaen

3.3.3 Fel rhan o'r hunan-arfarniad nodwyd meysydd i'w datblygu gan aelodau'r Panel a'u crynhoi o dan 6 thema allweddol:

- ✚ Ymweliadau Laming

¹⁵ Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2019

-  Blaen raglen waith y Panel
-  Gweithio mewn partneriaeth
-  Amllder cyfarfodydd
-  Anghenion datblygu yr Aelodau
-  Mesur canlyniadau ac effaith sgrwtini

Cynhwyswyd y themâu hyn ym mlaen raglen waith y Panel a pharheir i adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn yn chwarterol. Ar sail canfyddiadau'r hunan-arfarniad, penderfynodd yr Aelodau mai'r statws CAG **DA** (MELYN – gydag elfennau sylweddol yn Wyrdd) sy'n adlewyrchu orau gyfraniad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant i daith wella'r gwasanaethau plant.

Amgaeir copi o'r adroddiad ar yr hunan-arfarniad (**Atodiad 1**).

4 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R PRIF BWYLLGOR EU HYSTYRIED

Cyfeirir y materion a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol:

4.2 Gwnaed cynnydd da o ran gweithredu'r pecyn maethu newydd ond mae ychydig o oedi wrth agor y cyntaf o'r Cartrefi Clyd Môn¹⁶. Mae hyn wedi digwydd oherwydd yr angen i ail hysbysebu swydd y rheolwr cofrestredig. Mae rheolwr cofrestredig addas bellach wedi'i benodi a chyn bo hir bydd y Gwasanaeth yn hysbysebu am reolwr cofrestredig dan hyfforddiant mewn paratoad ar gyfer y cam nesaf yn natblygiad y gwasanaeth Cartrefi Clyd Môn. Dylid nodi'r camau a gymerwyd

4.3 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

D/B

7 – Goblygiadau Ariannol

D/B

8 – Atodiadau

9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag Awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Anwen Davies, Rheolwr Sgrwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW

Cyng. Richard Griffiths

Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol / Pencampwr Plant Mewn Gofal

Dyddiad: 08/08/19

¹⁶ Cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Tai Grŵp Bach



MESUR EFFAITH SGRIWTINI
HUNANWERTHUSIAD GAN AELODAU'R
PANEL GWELLA GWASANAETHAU
PLANT

Ebrill, 2019



MYNEGAI

- 1. Cefndir**
- 2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini**
- 3. Y Dasg**
- 4. Cwestiynau Hunanwerthuso**
- 5. Casgliadau**
- 6. Camau Nesaf**

1. Cefndir

1.1 Disgwyliadau'r rheoleiddiwr → arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn disgwyl bod:

“Trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant yn cydymffurfio â chanllawiau statudol a gyda’i gilydd yn sefydlu strategaeth effeithiol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a chanlyniadau o safon i bobl. Mae cwrdd ag anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff.... Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i’w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.”

1.2 Adroddiadau Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad arolwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar y Gwasanaethau Plant yn y Cyngor¹:

Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru: Mawrth, 2017

Fe wnaeth yr adroddiad cyntaf ddau argymhelliad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â rôl yr Aelodau:

- *“Dylai’r Cyngor barhau i gefnogi uwch swyddogion i wella eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r cymhlethdodau a’r risgiau sydd ynghlwm â chyflwyno gwasanaethau plant i sicrhau hwy eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau fod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni mor effeithiol â phosib.*
- *Mae’n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen i’r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliant yn cynyddu ac yn cael ei gynnal....”*

Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru: Rhagfyr, 2018

Daeth yr ail adroddiad i’r casgliad canlynol ynghylch y cyfraniad a wnaed gan yr Aelodau i’r daith wella yn y Gwasanaethau Plant:

- *“..... Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant gref yn CSYM. Roedd aelodau’r Cyngor yn gallu arddangos eu cyfraniad i daith wella y gwasanaethau plant. Roeddent yn gallu arddangos eu gwybodaeth am heriau allweddol sy’n wynebu’r Cyngor a sut maent yn rhyngweithio i gael effaith ar blant a theuluoedd....*
- *Roedd gan Aelodau Etholedig ddealltwriaeth glir o’u rôl ac ynghyd â’r swyddogion maent yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol. Roedd yr Aelodau yr un mor glir o’r angen am atebolrwydd ar bob lefel, a pha mor bwysig yw bod systemau a phrosesau sicrwydd ansawdd yn gallu adnabod unrhyw ostyngiad mewn perfformiad neu gyfleoedd a gollwyd a chefnogi gwelliant cyn i’r materion hynny waethygu ...*
Fe wnaeth yr Aelodau ddangos ymrwymiad i wella gwasanaethau i blant trwy gytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer y Panel Gwella Gwasanaethau

¹ Arolygon y Gwasanaethau Plant: Cyngor Sir Ynys Môn (Mawrth, 2017 a Rhagfyr, 2018)

Plant cyn yr etholiad diwethaf, yn syth ar ôl arolwg diwethaf AGC. Mae'r Panel Gwella wedi parhau i gwrdd yn fisol ac mae'r aelodau'n adrodd bod eu hyder wedi tyfu a bod y panel yn gynhyrchiol, gan adael iddynt weld y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth”.

1.3 Rôl y Panel Gwella Gwasanaethau Plant

Cafodd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant cyfredol ei sefydlu yn mis Gorffennaf, 2017 fel is-banel sefydlog i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ac roedd ganddo'r nodau canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion gwasanaethau plant sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi'r Aelodau i fod yn ymwneud mwy â'r maes, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau capasiti'r Aelodau i herio perfformiad trwy wella ansawdd y wybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth a/neu wasanaethau
- Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â'r risgiau i'r Gwasanaeth, fel sail i gyfrannu at flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaeth ynglŷn â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc a'r Pencampwr Plant mewn Gofal, rôl newydd ers Etholiad 2017.

2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini

2.1 Y Cyd-destun

Mae cael darlun o effaith Sgriwtini ac asesu'r effaith hwnnw yn her, gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob tro yn rhai o sylwedd, ac yn aml iawn nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig. Hefyd, nid yw'n hawdd mesur pa mor effeithiol yw gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau trwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau lleol lle mae mewnbyn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth a/neu wedi dylanwadu ar y modd y cawsai cynigion eu gweithredu gan y Cyngor. Mae gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft bositif yn y cyswllt hwn.

2.2 Gwelliannau a Pherfformiad y Gwasanaethau Plant

Mae'r broses o graffu'r daith wella yn y gwasanaethau plant wedi aeddfedu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf drwy fewnbyn y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

Beth oedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru i'w ddweud am gyfraniad y Panel?

Mewn adolygiad diweddar o gynnydd² o ran gweithredu'r gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru ganmol cyfraniad y Panel:

“... Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad corfforaethol parhaus a roddwyd i sicrhau bod y gwasanaethau plant yn gwella a'r parodwydd i ddod i ddealltwriaeth a rennir ynghylch yr heriau sy'n cael eu wynebu. Yn yr un modd, mae'r sgriwtini a'r her gynyddol gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad positif...”

² Gohebiaeth dyddiedig 11/01/18 gan Arolygiaeth Gofal Cymru (Adolygiad o Gynnydd wrth weithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant)

2.3 Hunanwerthusiad

Y Cyd-destun:

Ers yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno dull mwy trylwyr o atebolrwydd sy'n cael ei arwain gan yr aelodau, trwy strwythur sgrwtini diwygiedig. Fel rhan o'r strwythur hwn, mae Aelodau'n parhau i fuddsoddi mewn sgrwtini ac i gyfrannu'n frwd ato trwy waith ein 3 phanel sefydlog.

Beth sy'n gyrru hunanwerthuso yn lleol?

Rydym wedi blaenoriaethu rhoi cyfleoedd bob hyn a hyn yn y calendr i'r Aelodau gael hunanwerthuso, er mwyn iddynt allu adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion yr ymarferiad hunanwerthuso oedd:

- i. Cymryd stoc
- ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio
- iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf
- iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau.

Dyma'r ail hunanwerthusiad i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant ei gwblhau.³ Pwrpas yr hunanwerthusiad hwn oedd darparu fframwaith i Aelodau'r Panel adolygu 4 agwedd:

Beth sy'n
gweithio'n dda

Adnabod pa
effaith a
gafodd y
Panel

Meysydd i'w
gwella

Anghenion
datblygu
Aelodau

3. Y Dasg

3.1 Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Panel Gwasanaethau Plant, gwahoddwyd yr Aelodau Etholedig⁴ i raddio statws CAG cyfraniad y Panel i'r daith wella gan ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

- **Anfoddhaol** — meysydd pwysig ar gyfer gwella yn gorbwysu'r cryfderau
- **Digonol** — cryfderau yn gorbwysu'r meysydd i'w gwella
- **Da** — nifer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol
- **Rhagorol** — nifer o gryfderau, yn cynnwys enghreifftiau penodol o arferion sy'n arwain yn y sector

4. Cwestiynau Hunanarfarnu

4.1 Defnyddiodd yr Aelodau Etholedig gyfres o gwestiynau fel fframwaith i'w galluogi i werthuso cyfraniad y panel at daith wella y Gwasanaethau Plant:

³ Fe wnaeth y Panel Gwella Gwasanaethau Plant gwblhau'r hunanwerthusiad cyntaf ym mis Mai, 2018

⁴ Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2019



- C1. Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- C2. Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal i gyfrif y Gwasanaethau Plant wrth weithredu siwrnai wella sylweddol?
- C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?
- C4. Pa effaith mae bod yn Aelod o'r Panel wedi'i gael arnoch fel unigolyn?
- C5. Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi chi yn eich rôl?
- C6. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?

5. Casgliadau

5.1 Sylwadau Aelodau Etholedig ar y Panel Gwasanaethau Plant

Fe wnaeth 78%⁵ o Aelodau Etholedig y Panel gymryd rhan yn yr hunanwerthusiad. Isod mae crynodeb o'r hyn roedd ganddynt i'w ddweud:

C1. Beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Mae dyfnder ein dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant yn parhau i wella

Heb amheuaeth yr uchafbwynt i mi fu cyhoeddiad adroddiad arolwg positif gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Rhagfyr, 2018. Dylem fod yn falch o'r casgliadau, o ran materion gweithredol a hefyd o ran rôl Aelodau ac uwch swyddogion

Ymweliadau Laming:

Mae gweld effaith y strwythur staffio newydd ar lawr gwlad wedi bod yn uchafbwynt pendant i mi

Mae sesiynau datblygu ar ddechrau pob cyfarfod yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth a'n haddysgu ni fel Aelodau am y Gwasanaeth. Mae hyn yn gyfle i ymholi a gofyn cwestiynau a dylai'r rhain barhau

Mae cynifer o uchafbwyntiau wedi bod eleni ac i mi, roedd dod â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth i ben yn llwyddiannus yn sefyll allan fel un o'r cyflawniadau o bwys

⁵ 7 o'r 9 aelod o'r Panel



Mae lefel a dyfnder ein cwestiynu wedi gwella'n fawr dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n adlewyrchu dealltwriaeth gwell o lawer o'r gwasanaethau plant a mwy o hyder i graffu. Rydym nawr yn gofyn cwestiynau mwy treiddgar

C2. Pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal i gyfrif y Gwasanaethau Plant wrth weithredu siwrnai wella sylweddol?

I mi, yr effaith fwyaf a gafodd y Panel yw'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth mae'r Aelodau wedi eu harddangos i wella'r gwasanaethau plant

Mae ein gallu i ofyn cwestiynau treiddgar nawr yn ychwanegu gwerth i'r daith wella yn y Gwasanaethau Plant. Mae tystiolaeth fod ein cwestiynu wedi galluogi newid positif. Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn y Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd

Mae'n wir dweud bod tystiolaeth o gyd-berchnogaeth a dealltwriaeth o'r daith wella yn y Gwasanaethau Plant ar draws y grwpiau gwleidyddol

Mae'r Panel wedi datblygu'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi cael sgysiau gonest gyda swyddogion ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth. Mae'n bwysig bod Aelodau'n llwyr ymwybodol o'r heriau hynny

Rydym yn arwain mwy ac yn cyfrannu at drafodaethau gyda'n cyd-Aelodau mewn pwyllgorau pan fo materion yn codi ynglŷn â'r gwasanaethau plant

Mae gennym gyfrifoldeb i gwestiynu a herio. Mae'r Gwasanaeth nawr yn ein gweld fel ffrindiau beirniadol, sy'n cael effaith bositif ar y daith wella.



C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?

Credaf y byddai cysgodi gweithwyr cymdeithasol yn fodd i ni gael gwell gwerthfawrogiad o'u gwaith dydd i ddydd a'r heriau penodol o weithio yn y gwasanaethau plant

Rwy'n meddwl weithiau fod gennym ormod o eitemau ar y rhaglen. Mae'r pynciau sy'n cael eu cynnwys yn y sesiynau datblygu ar ddechrau pob cyfarfod yn llawn gwybodaeth ac yn aml maent yn arwain at drafodaethau pellach. Dylem adael amser ar y rhaglen ar gyfer hyn

Cynnal mwy o gynadleddau achos ffug yn ystod Ymweliadau Laming er mwyn cael golwg bellach ar y cymhlethdodau yng ngwaith achos gwasanaethau plant

Byddai'n fuddiol i ni edrych ar waith partneriaid eraill megis y Bwrdd Iechyd, Cyfiawnder Ieuencid a'r Heddlu etc.

C4. Pa effaith mae bod yn Aelod o'r Panel wedi'i gael arnoch fel unigolyn?

I mi, yr effaith fwyaf a gafodd y Panel yw'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth mae'r Aelodau wedi eu harddangos i wella'r gwasanaethau plant

Rwyf nawr yn llawer mwy ymwybodol o'r manylder ynghylch sawl agwedd wahanol o'r gwasanaethau plant

Mae fy hyder wedi codi o ganlyniad i gyflwyniadau, Ymweliadau Laming a'r cyfle i herio a theimlaff fod gennyf y wybodaeth i gyfrannu pan gaiff materion gwasanaethau plant eu hystyried mewn cyfarfodydd pwyllgor ac mewn cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol



C5. Pa anghenion datblygu sydd gan yr Aelodau Etholedig er mwyn eu cefnogi yn eu rôl?

Sgiliau er mwyn dadansoddi data ar ddangosyddion perfformiad allweddol mewn ffordd ddeallus

Golwg fanwl ar y fecaneg o Riantu Corfforaethol

Plant ag anghenion iechyd meddwl a rôl CAMHS

Cynnal mwy o gynadleddau achos ffug yn ystod Ymweliadau Laming er mwyn cael golwg bellach ar y cymhlethdodau yng ngwaith achos y gwasanaethau plant

C6. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?

Rydym yn elwa'n fawr o fod yn aelodau'r Panel

Fel Panel, mae angen i ni barhau i ddatblygu ac aeddfedu e.e. trwy rannu gwybodaeth gyda Chynghorau eraill

Heb amheuaeth, mae lefel ein dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf

Ein nod yw gweithio fel "ffrind beirniadol"

Gallwn nawr ofyn cwestiynau treiddgar a dal y gwasanaeth i gyfrif, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal a'i adrodd wrth y Panel

Mae ein lefel presenoldeb fel Aelodau wedi bod yn gyson uchel dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn dangos perchnogaeth ac ymrwymiad gwleidyddol i'r daith wella ac yn creu'r amodau ar gyfer gwelliant parhaus i blant a phobl ifanc fregus Ynys Môn

5.2 Canlyniadau

Gallwn dystiolaethu rhai canlyniadau oherwydd ein gwaith sgrwtini yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:

- Tîm o Aelodau sydd wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth am gymhlethdodau'r gwasanaethau plant a lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn
- Model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, sy'n annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu amodau sy'n galluogi Sgrwtini effeithiol e.e. bu gwelliant sylweddol yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel
- Gweithgaredd sgrwtini sydd wedi ei gynllunio'n dda, yn effeithlon ac yn wrthrychol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amryw o adnoddau
- Gwell dealltwriaeth gan yr Aelodau Etholedig o'r cymhlethdodau a'r risgiau yn y Gwasanaethau Plant er mwyn gallu craffu, dal i gyfrif ac adnabod blaenoriaethau'n effeithiol wrth symud ymlaen.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r hunanwerthusiad hwn, penderfynodd yr Aelodau fod statws CAG **DA** (MELYN cadarn) yn rhoi'r adlewyrchiad gorau o gyfraniad y panel i'r daith wella yn y gwasanaethau plant ar yr adeg hon.

6. Camau Nesaf

6.1 Y Cyd-destun Lleol

Mae cadw plant a phobl ifanc fregus yn ddiogel yn rôl allweddol o bwysig ac mae'n un lle mae gofyn i'r Cyngor a'i bartneriaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae llawer o sylw cyhoeddus wedi bod yn y blynyddoedd diweddar oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu â diogelu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trasig.

Wrth adrodd am ganlyniadau arolwg gwael, mae arolygiaethau gofal⁶ yn aml yn dyfynnu arferion sgrwtini gwael ymysg methiannau eraill yn y system. Mae sicrhau sgrwtini ystyrlon a chadarn o bolisiau a hefyd y gefnogaeth a/neu'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc fregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth yr aelodau Sgrwtini.

6.2 Blaenoriaethau am y cyfnod nesaf

Mae rhai materion wedi codi o'r hunanwerthusiad y mae angen rhoi sylw iddynt dros y cyfnod nesaf. Bydd y materion canlynol felly'n cael eu blaenoriaethu ar flaen raglen waith y Panel:

Meysydd i'w Datblygu

THEMA	SUT
Ymweliadau Laming	i. Parhau i drefnu Ymweliadau Laming misol yn ystod 2019/20 a thu hwnt ii. Parhau i gynnwys ystod o bynciau / themâu ar gyfer yr Ymweliadau unigol e.e. cynadleddau achos ffug; cysgodi gweithwyr cymdeithasol

⁶ Arolygiaeth Gofal Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

THEMA	SUT
Blaen Raglen Waith y Panel	Y flaen raglen waith yn canolbwyntio ar ansawdd sgriwini gyda llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth.
Gweithio mewn Partneriaeth	Ychwanegu gwaith partneriaeth o'r meysydd canlynol i raglen waith y Panel: y Bwrdd Iechyd; Cyfiawnder Ieuenctid; Heddlu Gogledd Cymru
Amllder Cyfarfodydd	Amserlennu cyfarfodydd misol o'r Panel tan ddiwedd 2019/20
Anghenion Datblygu yr Aelodau	Ychwanegu'r canlynol i'r rhestr o bynciau sesiynau datblygu y Panel: <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau wrth ddadansoddi data dangosyddion perfformiad • Plant gydag anghenion iechyd meddwl a rôl CAMHS • Golwg fanwl ar Riantu Corfforaethol
Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwini	Aelodau Etholedig y Panel i gynnal hunanwerthusiad pellach o fewn y 12 mis nesaf

6.3 Adolygu Paneli Sgriwini

Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o adolygiad ehangach gan y Cyngor o waith yr holl baneli sgriwini⁷ er mwyn sicrhau:

- i. Rhaglenni gwaith clir a chadarn
- ii. Cyflymder a ffocws priodol
- iii. Bod meysydd blaenoriaeth yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

Anwen Davies
Rheolwr Sgriwini
[Ar ran Aelodau Etholedig ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant]

⁷ Panel Sgriwini Adolygu Cynnydd Ysgolion; Panel Sgriwini Cyllid; Panel Gwella Gwasanaethau Plant

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11.9.19
Pwnc:	Polisi Gosod Cyffredin a Chyswllt Lleol
Pwrpas yr Adroddiad:	Sgrwtineiddio canlyniadau ymgynghori a Pholisi Gosod diwygiedig
Cadeirydd Sgrwtini:	Cynghorydd G.O.Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cynghorydd A. Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad:	Caron Jones ac Eiliw Llyr
Rhif Ffôn:	01248 752137
E-bost:	UnedStrategol@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	d/b

1 – Argymhelliad/ion

Fod y Pwyllgor yn sgrwtineiddio'r broses ymgynghori a chanlyniadau
Fod y Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Mae tai gyda chysylltiad agos a phob agwedd o'r Cynllun Corfforaethol o'r amcanion i'r cyflawni. Mae adroddiad Elphicke-House, 2015, yn nodi bod 'Housing is central to the success of a community'

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

- 3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - hirdymor
 - atal
 - integreiddio
 - cydweithio
 - cynnwys**[ffocws ar lesiant]**

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

A yw'r broses ymgynghori yn ymddangos yn ddigonol?– adroddiad atodiad 1
 A yw newidiadau i'r Polisi Gosod Cyffredin yn ymddangos yn dderbyniol ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad?
 Sut mae'r cynnig hwn yn galluogi'r Cyngor i wireddu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol?
 Sut y bu i'r Gwasanaeth ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) wrth ddatblygu'r polisi gosod tai diwygiedig?
 Pa effaith hir dymor fydd i'r polisi diwygiedig arfaethedig?
 Pa risgiau sydd i'r Cyngor?

5 – Cefndir / Cyd-destun**Cefndir**

Mae yna 4734 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma'r ganran o'r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

Landlord	Nifer yr Unedau	Canran o'r Stoc
Cyngor Sir Ynys Môn	3819	81%
Grŵp Cynefin	524	11%
Tai Gogledd Cymru	143	3%
Clwyd Alyn	248	5%

Ar gyfartaledd mae Tîm Opsiynau Datrysiadau yn gosod tua 260 o dai Cyngor y flwyddyn.

Yn ystod 2015/16 adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Gosod Tai Cyffredin o fod yn system sy'n seiliedig ar bwyntiau i fod yn system sy'n seiliedig ar fandiau. Daeth y Polisi newydd i rym ar yn ffurfiol yn mis Gorffennaf 2016.

Mae'r drefn yn seiliedig ar system fandio sef:

- Brys - Cysylltiad lleol ac angen brys am dŷ
- Band 1 - Angen a chysylltiad lleol
- Band 2 - Angen brys ond dim Cysylltiad lleol
- Band 3 - Angen ond dim Cysylltiad Lleol.

Cyflwynwyd y Polisi Gosod Tai diwygiedig i gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y broses gosod tai, gan sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu gosod i'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf am dai, ac i sicrhau cysondeb o ran sut mae pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu pan fo eiddo ar gael i'w osod.

Mae nifer o newidiadau wedi eu cyflwyno yn dilyn gweithrediad y Polisi Gosod Cyffredin, er mwyn cefnogi effeithlonrwydd, mae'r newidiadau fel a ganlyn:

- a) Rhaid i ymgeiswyr ddarparu 'prawf' yn y cyfweiliad asesiad am lety.
- b) Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod tai eu hunain.
- c) Ymgeisydd ddim yn gallu dewis strydoedd mwyach.
- d) Dim ond un ymgeisydd y byddwn yn ei dderbyn ar y Ffurflen Gais am lety.
- e) Defnydd o Orchard.
- f) Defnyddio bandio er mwyn lleihau'r rhestr aros.
- g) Ymgeiswyr ddim yn gallu cofrestru os nad oes ganddynt anghenion tai.

Mae Gwasanaethau Tai yn awyddus i gyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy sicrhau bod cysylltiadau teuluoedd a chymunedol yn cael eu cynnal. Ein bwriad oedd adolygu y Polisi Cofrestr Tai Cyffredin er mwyn gweld os yw ein Polisi cyfredol yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

Cynhaliwyd adolygiad ar y newid arfaethedig a'r bwriad yw bydd Polisi terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn mis Hydref, 2019.

Er mwyn gallu bod yn gymwys i fod ar y Gofrestr Tai Cyffredin mae angen i berson fod mewn angen tai, mae hyn yn cael ei ddiffinio o fewn Deddf Tai 1996 ac mae cyswllt o ran cysylltiad lleol yn rhan o Ddeddf Tai, 2014.

Ar hyn o bryd mae gofyn bod gan unrhyw ymgeisydd gysylltiad o isafswm o 5 mlynedd o gysylltiad gyda'r Ynys. Os nad oes gan berson gysylltiad gyda'r Ynys ond mae ganddynt angen am dy byddent o fewn band is.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr gael cysylltiad gyda plwyf / pentref neu dref benodol, gallent cael eu hystyried am unrhyw ardal mae gennym stoc cymdeithasol ac y maent wedi nodi eu bod eisiau byw.

Wrth adolygu y Polisi mae rhoi cyfle i newid rhai elfennau'r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas wrth symud ymlaen.

Ymgynghori â phartneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol

Fe gytunodd y Pwyllgor Gwaith i'r cynllun cyfathrebu a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil pellach ar ddiffinio cysylltiad lleol ynghyd ag derbyn adborth ar sut gellir cyflawni hyn.

Cynulleidfa Darged:

- a) Drwy gynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol canlynol:
 - Landlordiaid Cymdeithasol; Tai Gogledd Cymru, Pennaf a Grŵp Cynefin
 - Darparwyr Cefnogi Pobl; y Wallich, Digartref Ynys Môn, CAIS acyb
 - Rhai sydd yn darparu gwasanaeth cynghori
 - Llywodraeth Cymru
- b) Cwsmeriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio
- c) Aelodau Etholedig
- d) Cynghorau Tref a chymuned
- e) Grŵp Tasg o Swyddogion perthnasol

Mae **atodiad 1** yn dangos adroddiad cynhwysfawr o'r ymgynghoriad.

Cafwyd 114 o ymatebion gyda chefnogaeth i gynnwys cysylltiad lleol fel ystyriaeth yn y Polisi. Cafwyd hefyd ymateb da i gwestiynau eraill o ran gweithrediad y Polisi.

Yn seiliedig ar hyn mae **Atodiad 2** yn cyflwyno Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig sydd yn cynnwys y prif newidiadau isod:

Cysylltiad lleol:

Byddai ymgeisydd yn cael ei asesu yn ôl cyswllt gydag ardal Cyngor Tref neu Chymuned y maent wedi nodi byw ynddo lle mae yr eiddo gwag. Bydd ymgeisydd yn cael eu hystyried o fewn y Band hwnnw yn ôl dyddiad bod ar y rhestr. Bydd dal angen cysylltiad o 5 mlynedd gyda'r Ynys er mwyn bod yn gymwys, oni bai am fod mewn angen brys am eiddo yn unol a'r Ddeddf Tai.

Mae'r adolygiad wedi rhoi cyfle i edrych ar faterion eraill megis:

- Gallu cynnig trosglwyddiad i rai sydd a phlant dan 11 oed symud o fflat cymdeithasol
- Tynnu o'r Polisi yr angen i fod dros 35 oed i gael pwyntiau rhannu o fewn Band 1 gan nad yw lefel lwfans tai yn cael effaith bellach
- Cryfhau yr elfen o fod angen symud oherwydd dianc rhag trosedd neu drosedd casineb
- Creu Band ar gyfer rhai sydd a chysylltiad lleol ond dim angen tai er mwyn cynyddu nifer sydd ar y rhestr aros a rhoi opsiynau pellach pan nad yw'n bosib gosod eiddo o fewn bandiau blaenoriaeth

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i sut byddem yn diffinio cyswllt gydag ardal benodol gan edrych ar:

1. Dalgylch Cyngorau Thref a Chymuned
2. Dalgylch Cyngorwyr Sir
3. Dalgylch Ysgolion Uwchradd

Gweler **Atodiad 3** am gopi o'r mapiau.

Daethpwyd i'r canlyniadau byddai cynnwys opsiwn 1 yn ymateb i'r angen cyswllt lleol yn cyd-fynd gyda'r ymateb i'r ymgynghoriad.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Wedi atodi

7 – Oblygiadau Ariannol

Gall y broses o asesu ceisiadau yn erbyn bob Cyngor Tref a Chymuned gymryd mwy o amser gan felly arwain at cyfnod hirach o eiddo yn wag ac felly yn colli rhent

8 – Atodiadau

Atodiad 1 Adroddiad ar ganlyniadau ymynghoriad
Atodiad 2 Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig
Atodiad 3 Mapiau

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Ymgynghoriad Gosod Tai Cymdeithasol: Crynodeb o Ymatebion

Awst 2019

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i Ymgynghoriad Gosod Tai Cymdeithasol Ynys Môn. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos rhwng 17 Mehefin 2019 a 5 Awst 2019.

Cefndir:

Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori ar eu Polisi Gosod Cyffredin, er mwyn nodi a ddylid cynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi.

Mae'r Gwasanaethau Tai'n awyddus i gyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy sicrhau fod cysylltiadau teulu a chymuned yn cael eu cynnal. Ein bwriad yw adolygu'r Polisi Gosod Tai Cyffredin i weld a yw ein Polisi presennol yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

Fel rhan o'r broses roedd y Gwasanaethau Tai eisiau casglu barn yr holl randdeiliaid perthnasol.

Methodoleg:

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Gorfforaethol y Cyngor, gyda linc i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar survey monkey (*gweler Atodiad 1 am gopi o'r holiadur*). Hyrwyddwyd holiadur yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

Hyrwyddwyd yr holiadur yn gyson i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 8 wythnos.

Anfonwyd copi papur a linc i'r holiadur ar-lein at:

- 295 o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cyffredin
- 42 o ymgeiswyr nad oedd yn gymwys i ymuno â'r Gofrestr, yn ystod y 6 mis diwethaf

Anfonwyd linc i'r holiadur ar-lein at:


- 40 Cyngor Tref a Chymuned
- 30 o Gynghorwyr Ynys Môn
- Darparwyr / Asiantaethau Cefnogi Pobl
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu ar yr Ynys

Cafodd holiadur yr ymgynghoriad ei hyrwyddo yn y cyfarfodydd a ganlyn:

- Grŵp Darparwyr Cefnogi Pobl
- Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

Canlyniadau'r Holiadur:


Derbyniwyd cyfanswm o 114 holiadur wedi'i gwblhau, gyda 72 yn cael eu cyflwyno ar-lein a 42 trwy gopi papur. Mae *Siart 1* yn dyngos i ba grŵp yr oedd pob ymatebwr yn berthyn.



Gellir gweld crynodeb o ymatebion i gwestiynau 2-10 isod. Nodwch y gallai rhai ymatebion a dderbyniwyd gynnwys mwy nag un o'r "rhesymau dros ateb ia neu na" fel y gwelir yn y siartiau isod.


Gellir gweld rhestr lawn o sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymatebion i'r holiadur yn *Atodiad 2*.

A ddylai pobl a chysylltiad cymunedol i ardal benodol gael mwy o flaenoriaeth am gartref yn yr ardal hynny na person sydd heb gysylltiad i'r ardal?



Rhesymau dros ateb Dylent:


Roedd 85% o ymatebwyr o'r farn y dylai pobl sydd â chysylltiad cymunedol ag ardal benodol dderbyn mwy o flaenoriaeth ar gyfer derbyn tŷ yn yr ardal honno (gweler Siart 2 uchod), gyda nifer o'r ymatebwyr hyn yn datgan y byddai'n cryfhau cymunedau ac yn ei gwneud yn haws i ddarparu cefnogaeth i deulu a ffrindiau (gweler y siart isod).




Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn pryderu bod gwahaniaethau diwylliannol rhwng pentrefi, ac o fewn wardiau

Rhesymau dros ateb Na Ddylent:


Roedd 15% o ymatebwyr o'r farn na ddylai pobl sydd â chysylltiad cymunedol ag ardal benodol gael mwy o flaenoriaeth am dŷ yn yr ardal honno (*gweler Siart 2 uchod*), gyda rhai o'r ymatebwyr hyn yn datgan bod Ynys Môn yn ardal fechan, ac yn mynegi pryder y byddai hynny'n annheg ac y gallai rhai pobl sydd angen tŷ ond sydd heb gysylltiad cymunedol gael eu hanwybyddu (*gweler y siart isod*).




A ddylai pobl gyda cysylltiad lleol sydd wedi bod ar y gofrestr am cyfnod hiraf gael mwy o flaenoriaeth?




Rhesymau dros ateb Dylent:




Rhesymau dros ateb Na Ddylent:




A ddylai pobl sydd heb anghenion tai fynd ar y gofrestr?




Rhesymau dros ateb Dylent:




Rhesymau dros ateb Na Ddylent:



A ddylai landlordiaid cymdeithasol osod fflatiau llawr uchaf i deuluoedd sydd â phlant o dan 11 oed?




Rhesymau dros ateb Dylent:




Gwnaeth un ymatebydd yr awgrym a ganlyn ynghylch sut y gallai'r Cyngor wneud fflatiau ar y lloriau uchaf yn fwy addas:

“Gallai'r Cyngor ystyried rhoi carped ar risiau cymunol i leihau'r risg o anaf o ganlyniad i syrthio ac i gael ardal storio pramiau a beiciau er mwyn osgoi cario pramiau i fyny'r grisiau”


Rhesymau dros ateb Na Ddylent:




A ddylai pobl sydd a mwy na £50,000 o ecwiti gael blaenoriaeth îs ar y gofrestr?




Rhesymau dros ateb Dylent:




Rhesymau dros ateb Na Ddylent:




A ddylai pobl sydd wedi cael eu troi allan (evicted) o dai cymdeithasol gael eu tynnu oddi ar y gofrestr am gyfnod o amser yn dilyn hynny?




Rhesymau dros ateb Dylent:




Rhesymau dros ateb Na Ddylent:




Os ydych wedi ateb "dylent", pa mor hir ddylen nhw fod oddi ar y gofrestr?




Rhesymau dros ateb 1 blwyddyn:



Rhesymau dros ateb mwy na 1 blwyddyn:



A fyddai'r newidiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith arnoch chi?




Rhesymau dros ateb "Effaith Negyddol":

Fe wnaeth pedwar allan o'r chwech a ymatebodd gan ddweud y byddai'r newidiadau a amlinellwyd yn cael effaith arnynt, roi rheswm am hyn, sef:


- Y cysylltiad â phlwyf
- Byddwn yn falch cymryd rhywle y tu allan i fy ward bresennol ond petai cysylltiadau â'r gymuned yn cael blaenoriaeth, gallai hynny gael effaith arnaf

- Rwyf yn ddigon ffodus i fod wedi prynu tŷ nifer o flynyddoedd yn ôl
- Gallant gael effaith andwyol ar y gymuned yr wyf yn byw ynddi a hynny'n gymdeithasol ac yn economaidd

Rhesymau dros ateb "Effaith Gadarnhaol":



Rheswm dros ateb "Dim Effaith":



Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y Polisi Gosod Tai Cyffredin, nodwch nhw yma:

Mae'r ymateb i'r cwestiwn uchod i'w gweld yn Atodiad 2.

Ymatebion Eraill a Dderbyniwyd:

Yn ogystal â'r 114 o ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn:

- Derbyniwyd yr adborth a ganlyn drwy wefan y Cyngor, mewn perthynas â'r dudalen we yn esbonio'r ymgynghoriad:
"mae paragraffau 5 a 6 fel petaent yn gwrthddweud ei gilydd ac maent yn ddryslyd...mae angen eglurhad"
- Yn dilyn cyflwyniad yng nghyfarfod y Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019, cytunodd y Fforwm i gefnogi cynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi Gosod Tai Cyffredin.
- Derbyniwyd yr ymateb a ganlyn ar e-bost gan Gyngor Cymuned Llanelian:
*"Trafodwyd yr ymgynghoriad yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd yr aelodau wedi synnu bod angen ymgynghori o gwbl a ddylai cyswllt lleol gael ei ystyried wrth osod tai cyffredin. Teimlai'r aelodau yn gryf y dylai pobl lleol wedi byw yn yr ardal, gyda theulu agos yn yr ardal, neu wedi gweithio yn yr ardal am gynod o bum mlynedd neu fwy gael blaenoriaeth wrth osod ty. Dylid hefyd ystyried y diffiniad o 'lleol' wrth ddechrau gyda'r gymuned ei hun cyn ystyried y ward etholiadaol ac yna'r sir h.y. blaenioraethu pobl Llanelian, yna Twrcelyn ac yna Ynys Mon. rydym yn ddiweddar wedi cydweithio gyda Grwp Cynefin i sicrhau hyn ar gyfer stad newydd o dai cymdeithasol - Stad Dublin ym Mhenysarn
Mae pwysigrwydd cymuned a chefnogaeth teulu a ffrindiau yn amhrisiadwy, ac mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gefnogaeth yma yn eu bywyd pob dydd."*
- Derbyniwyd yr ymateb a ganlyn ar e-bost gan Gyngor Cymuned Llanbadrig:
*"Trafodwyd yr ymgynghoriad yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd yr aelodau wedi synnu bod angen ymgynghori o gwbl a ddylai cyswllt lleol gael ei ystyried wrth osod tai cyffredin. Teimlai'r aelodau yn gryf y dylai pobl lleol wedi byw yn yr ardal, gyda theulu agos yn yr ardal, neu wedi gweithio yn yr ardal am gynod o bum mlynedd neu fwy gael blaenoriaeth wrth osod ty. Dylid hefyd ystyried y diffiniad o 'lleol' wrth ddechrau gyda'r gymuned ei hun cyn ystyried y ward etholiadaol ac yna'r sir h.y. blaenioraethu pobl Llanbadrig, yna Twrcelyn ac yna Ynys Mon. rydym yn ddiweddar wedi cydweithio gyda Grwp Cynefin i sicrhau hyn ar gyfer stad newydd o dai cymdeithasol - Stad Cae Rhun
Mae pwysigrwydd cymuned a chefnogaeth teulu a ffrindiau yn amhrisiadwy, ac mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gefnogaeth yma yn eu bywyd pob dydd."*
- Derbyniwyd yr ymateb a ganlyn ar e-bost gan Gyngor Tref Amlwch:
"Trafodwyd yr ymgynghoriad yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd yr aelodau wedi synnu bod angen ymgynghori o gwbl a ddylai cyswllt lleol gael

ei ystyried wrth osod tai cyffredin. Teimlai'r aelodau yn gryf y dylai pobl lleol wedi byw yn yr ardal, gyda theulu agos yn yr ardal, neu wedi gweithio yn yr ardal am gynod o bum mlynedd neu fwy gael blaenoriaeth wrth osod ty. Dylid hefyd ystyried y diffiniad o 'lleol' wrth ddechrau gyda'r gymuned ei hun cyn ystyried y ward etholiadaol ac yna'r sir h.y. blaenioraethu pobl Amlwch, yna Twrcelyn ac yna Ynys Môn.

Mae pwysigrwydd cymuned a chefnogaeth teulu a ffrindiau yn amphrasiadwy, ac mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gefnogaeth yma yn eu bywyd pob dydd."

- Derbyniwyd yr ymateb a ganlyn ar e-bost gan y Cynghorydd Aled Morris Jones:
"Byddwn yn dymuno lleoliad lleol / person lleol i fod yn seiliedig ar ward ac yna Ynys Môn"
- Derbyniwyd llythyr gan Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru – Polisi Tai a Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn datgan:
"O ganlyniad, rydw i'n pryderu yr ymddengys bod yr ymagwedd a ddefnyddir yn eich polisi gosod yn rhoi blaenoriaeth i gysylltiad lleol o flaen 'angen brys am dŷ' ymgeisydd. Gallai'r ymagwedd hon fod yn groes i adran 167 Deddf Tai (1996) a Chôd Canllawiau Dyrannu Llety a Digartrefedd Llywodraeth Cymru."

Gweler *Atodiad 3* am y llythyr llawn.

Casgliad:

Derbyniwyd 114 o ymatebion drwy'r holiadur ymgynghori, sy'n cyfateb i'r 27% o'r 416 o unigolion yr anfonwyd y deunydd ymgynghori atynt ac a gafodd wahoddiad penodol i ymateb (heb gynnwys aelodau o'r cyhoedd a gawsant wahoddiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol). Mae hyn yn gyfradd dychweliad da ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus o'r math yma ac yn arddangos lefel sylweddol o ymgysylltiad cyhoeddus ar y cwestiwn a ddylid cynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi Gosod Tai Cyffredin ai peidio.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn arddangos cefnogaeth eang i gynnwys cysylltiad cymunedol yn y Polisi Gosod Tai Cyffredin gydag 85% o ymatebwyr o blaid hyn. Roedd nifer o ymatebwyr o blaid hyn oherwydd roeddynt o'r farn y byddai'n cryfhau cymunedau ac yn ei gwneud yn haws i roi cefnogaeth i deulu a ffrindiau, fodd bynnag, mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch yr hyn a fyddai'n cyfateb i gysylltiad cymunedol.

Yn ychwanegol at hyn, dywedodd 85% o ymatebwyr y byddai'r newidiadau a amlinellwyd yn cael naill ai effaith positif neu ddim effaith o gwbl arnynt. O'r rheiny a ddywedodd y byddai'r newidiadau'n cael effaith positif arnynt, roedd nifer yn credu y byddai'r newidiadau'n cynyddu eu siawns o gael tŷ yn eu cymunedau tra bod eraill yn credu y byddai'r newidiadau yn cael effaith negatif ar eu cymuned yn ei chyfanrwydd, yn arbennig felly'n achos cymunedau ble siaredir y Gymraeg.

O'r herwydd argymhellir bod cysylltiad cymunedol yn cael ei gynnwys yn y Polisi Gosod Tai Cyffredin ac mai Pwyllgor Gwaith y Cyngor ddylai benderfynu ar y diffiniad o gysylltiad cymunedol.

Appendix 1 –



Holiadur Tai
Cymdeithasol CYM.d

Appendix 2 –



Ymatebion.docx

Appendix 3 –



Letter to Chief
Executive North Wal

POLISI CYFFREDIN AR OSOD TAI

PARTNERIAETH YNYS MÔN AR OSOD TAI CYMDEITHASOL

Drafft Awst 2019



Caiff y polisi hwn ei rannu'n dair adran ac mae ar ffurf 'cwestiwn ac ateb'. A fyddech cystal â throï at rhestr y penodau (tudalen 3) a'r cynnwys (tudalen 4 i 10) i gael yr adran y mae ei hangen arnoch.

Mae Crynodeb o'r polisi ar gael ar wefan y Cyngor: <http://www.ynysmon.gov.uk/tai/>

Tîm Opsiynau Tai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n rheoli'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Thai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas.

Tîm Opsiynau Tai
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai: (01248) 752200

ADRANTAI@ynysmon.gov.uk

www.ynysmon.gov.uk/gosodtai www.ynysmontai.co.uk

PENODAU

1. Cyflwyniad
2. Sut mae gwneud cais am dŷ cymdeithasol?
3. Beth sydd angen i mi ei wneud unwaith y bydd fy nghyfweliad wedi'i drefnu?
4. Pa ddewisiadau sydd gennyf a phe dŷ wyf yn gymwys a rei gyfer?
5. Pa bryd y gwneir penderfyniad ar fy nghais?
6. A fyddaf yn cael caniatâd i fynd ar y gofrestr tai?
7. Pa Flaenoriaeth fydd gennyf am dŷ?
8. Beth fydd yn digwydd unwaith y byddaf wedi fy nghofrestru ar y rhestr aros?
9. Sut Mae'r sustem bandio yn gweithio?
10. Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pwy sydd yn cael cynnig llety?
11. Beth fydd yn digwydd pan gynigir eiddo i mi?
12. Eich hawl i ofyn am i benderfyniadu gael eu hadolygu?
13. Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo wedi'i addasu neu eiddo addas arnaf neu os oes angen meddygol arnaf am dŷ?
14. Polisiâu gosod lleol a sensitive
15. Eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth
16. Beth sydd gan y gyfraith i'w ddweud ynghylch sut dylid gosod tai?
17. Sut mae landloriaid cymdeithasol yn monitor gwaith gosod tai ?

ATODIADAU

- Atodiad 1 – Ffyrdd o gael tŷ cymdeithasol nad ydynt yn cyfrif fel dyraniad
- Atodiad 2 – Ardaloedd gosod
- Atodiad 3 – Anghymwyster oherwydd statws mewnfudo a chenedligrwydd

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD

- a) Y polisi
- b) Oes crynodeb o'r polisi hwn?
- c) Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael ei osod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?
- d) Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tŷ cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?
- e) Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tŷ cymdeithasol?
- f) Beth yw 'gosod' tŷ?
- g) Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol ac eithrio trwy osod?
- h) Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ?
- i) Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai?

2. SUT MAE GWNEUD CAIS AM Dŷ CYMDEITHASOL?

- a) Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?
- b) Sut mae gwneud cais am dŷ cymdeithasol?
- c) Rwyf yn 16 neu'n 17 mlwydd oedd. Oes rheolau arbennig?
- d) Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?
- e) Gwnes gais o'r blaen ond cafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?
- f) Oes rhaid i mi fynd am gyfweiliad opsiynau tai?
- g) Fydd fy nghais am gyfweiliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?
- h) Oes gennyf ddewis ynghylch pryd gaf fy nghyfweld?
- i) Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddiartref neu am golli fy nghartref? 2.10
Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ?
2.11 Beth fydd yn digwydd os oes angen cymorth arnaf i wneud cais am dŷ?

3. BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD UNWAITH Y BYDD FY NGHYFWELIAD WEDI'I DREFNU?

- a) Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweiliad opsiynau tai?
- b) Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'r cyfweiliad opsiynau tai?

- c) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â'r dogfennau i fy nghyfweliad opsiynau tai?
- d) Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â'm dogfennau i'm cyfweliad?
- e) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael anhawster cael hyd i'r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i'm cyfweliad?
- f) Beth fydd yn digwydd mewn cyfweliad opsiynau tai?
- g) Fydd angen i'r Cyngor gysylltu â rhywun arall cyn prosesu fy nghais?
- h) Ydi'r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?
- i) Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i sicrhau y caiff fy nghais ei ystyried?
- j) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cwrdd â'r 'gofynion trefniadaethol' a restrir yn **3.9**?
- k) Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?
- l) Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

4. PA DDEWISIADAU SYDD GENNYF A PHA DŶ WYF I'N GYMWYS AR EI GYFER?

- a) Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?
- b) Oes modd i mi ddewis pa ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno o fewn ardal osod?
- c) Pa ardaloedd gosod oes modd i mi eu dewis?
- d) Sut medraf gael gwybod pa dai sydd ar gael ym mhob ardal?
- e) Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy'n debygol o fod ar gael yn fy newis ardaloedd?
- f) Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?
- g) Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?
- h) Oes modd i mi ddewis mathau'r eiddo yr wyf yn eu dymuno?
- i) Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar y mathau o eiddo y medraf eu dewis?
- j) Sut mae'r Cyngor yn penderfynu beth yw maint yr eiddo y mae gennyf hawl iddo?
- k) Pwy sy'n medru cael ei gofrestru fel rhan o'm haelwyd?
- l) Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddi?
- m) Rwyf yn feichiog. Pa bryd fydd gennyf hawl i ystafell wely ychwanegol?
- n) Oes sefyllfaoedd lle byddai modd i mi gael cynnig eiddo mwy na'r hyn y mae gennyf hawl iddo?

- o) Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?
- p) Oes modd i'r Cyngor a- chymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

5. PA BRYD Y GWNEIR PENDERFYNIAD AR FY NGHAIS?

- a) Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?
- b) Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?
- c) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?
- d) Os byddaf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor, oes modd i mi ofyn iddynt ei hailystyried?

6. A FYDDAF YN CAEL MYND AR Y GOFRESTR TAI ?

- a) Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?
- b) Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?
- c) Pam fyddwch chi'n edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?
- d) Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?
- e) Nid wyf yn gymwys ar gyfer dŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?
- f) Pobl a gyfyngir
- g) Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion?
- h) Oes sefyllfaoedd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?
- i) Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?
- j) Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?
- k) Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi denantiaeth ar y cyd gyda mi?

7. PA FLAENORIAETH FYDD GENNYF AM DŶ?

- a) Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?
- b) Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cymhwyso am unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?
- c) Fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i fy incwm a fy sefyllfa ariannol?

- d) Beth fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth iddo wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?
- e) Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan fydd y polisi hwn yn dod i rym?
- f) A fyddaf yn cael mwy o flaenoriaeth os gwnaf gais fel person digartref?

8. BETH FYDD YN DIGWYDD UNWAITH Y BYDDAF WEDI FY NGHOFRESTRU AR Y RHESTR AROS?

- a) Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?
- b) A fedraf golli fy nyddiad amser aros?
- c) Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?
- d) Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?
- e) A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?
- f) Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa'n newid?
- g) Oes sefyllfaoedd lle bydd angen i mi ddarparu gwybodaeth efallai neu fynychu cyfweiliad er mwyn parhau i fod yn gymwys am gynnig o dŷ?
- h) Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel na fyddaf yn gymwys i gael tŷ?
- i) A fedraf ofyn am ohirio fy nghais am dŷ, er enghraifft, os nad wyf eisieu cynnig o dŷ tan rywbryd yn y dyfodol?
- j) Oes sefyllfaoedd lle gallai fy nghais gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai?
- k) Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?
- l) Oes angen i mi adnewyddu fy nghais yn rheolaidd?

9. SUT MAE'R SYSTEM BANDIO'N GWEITHIO?

- a) Beth yw bandio?
- b) Sut mae bandio'n gweithio?
- c) Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?
- d) Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?
- e) Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol?
- f) Pwy sy'n cymhwyso am y band 'Brys'?
- g) Pwy sy'n cymhwyso am Fand 1?
- h) Oes modd i mi gymhwyso am Fand 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?
- i) Pwy sy'n cymhwyso am Fand 2? 9.10 Pwy sy'n cymhwyso am Fand 3?
- 9.11 Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng?

- 9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei gostwng?
- 9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?
- 9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?
- 9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan 9.11?
- 9.16 Oes sefyllfaoedd pryd gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?

10. SUT MAE'R LANDLORDIAID YN PENDERFYNU PWY SY'N CAEL CYNNIG LLETY?

- a) Oes ffyrdd gwahanol y gallai ymgeiswyr gael eu dewis am dŷ?
- b) Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?
- c) Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y gosodir tŷ?
- d) A fedr landlord 'fynd heibio' yr ymgeisydd ar frig y rhestr?
- e) Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?
- f) Beth fydd yn digwydd os bydd y person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?
- g) Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo gwag ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?
- h) Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried gosod eiddo i mi?
- i) Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth a'r amser aros ag ymgeisydd arall?

11. BETH FYDD YN DIGWYDD PAN GYNNIGIR EIDDO I MI?

- a) Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?
- b) Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?
- c) Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?
- d) Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?
- e) Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynnigir i mi?
- f) Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?
- g) Sawl cynnig oes modd i mi ei dderbyn?
- h) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig?
- i) Beth sy'n digwydd os credaf fod yr eiddo a gynnigiwyd i mi yn anaddas?

- j) Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?
- k) Oes yna unrhyw sefyllfaoedd lle gellir tynnu'n ôl y cynnig o dŷ?
- l) Mae fy nghais wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr tai oherwydd fy mod wedi gwrthod dau gynnig. Oes modd i mi wneud ail gais a mynd yn ôl ar y rhestr aros?

12. EICH HAWL I OFYN AM I BENDERFYNIADAU GAEL EU HADOLYGU

- a) Pa benderfyniadau oes modd i mi i ofyn i'r Cyngor eu hailystyried
- b) Beth yw ystyr categori 12.1(h)?
- c) Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?
- d) Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?
- e) Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ynghylch fy nghais?
- f) Sut wyf yn gofyn am adolygiad?
- g) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?
- h) Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?
- i) Oes rhaid i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?
- j) Pa broses fydd y Cyngor yn ei dilyn os byddaf yn gofyn am adolygiad?
- k) Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?
- l) Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad i adolygu?
- m) Sut fydd y penderfyniad ynghylch fy adolygiad yn cael ei wneud?
- n) Sut byddwch yn dweud wrthyf am y penderfyniad i adolygu?
- o) Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ynghylch yr adolygiad?
- p) Rwyf yn anfodlon gyda'r penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?
- q) Oes modd i mi gwyno am y penderfyniad ynghylch yr adolygiad?

13. BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDD ANGEN EIDDO WEDI'I ADDASU NEU EIDDO ADDAS ARNAF NEU OS OES ANGEN MEDDYGOL ARNAF AM Dŷ?

- a) Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?
- b) Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?

- c) Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?
- d) Oes rhaid i mi ddarparu tystiolaeth?
- e) Pwy sy'n penderfynu a fyddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?
- f) Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau sy'n cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?
- g) Beth fydd yn digwydd os bydd angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?
- h) Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?
- i) Beth fydd yn digwydd nesaf?
- j) Rwy'n anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?
- k) Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu?

- l) Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?
- m) A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

14. POLISIÂU GOSOD LLEOL A SENSITIF

- a) Cyflwyniad
- b) Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod fod angen polisi gosod lleol?
- c) Sut mae polisiau gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?
- d) Beth yw polisiau gosod sensitif a pha bryd y cânt eu defnyddio?
- e) Cytundebau Adran 106

15. EIDDO SYDD AR GAEL I'W GOSOD YN SYTH

- a) Cyflwyniad
- b) Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?
- c) Sut wyf yn gwneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?
- d) Sut byddwch yn penderfynu i bwy y caiff eiddo sydd ar gael yn syth eu gosod?
- e) Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?

16. BETH SYDD GAN Y GYFRAITH I'W DDWEUD YNGHYLCH SUT Y DYLLID GOSOD TAI?

- a) Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisiau gosod?
- b) Gweithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli
- c) Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- d) Cyfrinachedd a gwarchod data personol
- e) Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses gosod?
- f) Pa wybodaeth sydd gennyf hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

17. SUT MAE LANDLORDIAID CYMDEITHASOL YN MONITRO GWAITH GOSOD TAI?

- a) Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?
- b) Ydi tai a osodir y tu allan i'r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?
- c) Ydi'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy'n cael tŷ cymdeithasol?

ATODIADAU

Atodiad 1 – Ffyrdd o gael tŷ cymdeithasol nad ydynt yn cyfrif fel dyraniad

- Atodiad 2 – Ardaloedd gosod
- Atodiad 3 – Anghymwyster oherwydd statws mewnfudo a chenedligrwydd
- Atodiad 4 – Anghymwyster oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Y polisi
- 1.2 Oes crynodeb o'r polisi hwn?
- 1.3 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael eu gosod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?
- 1.4 Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tai cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai hynny nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?
- 1.5 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tai cymdeithasol?
- 1.6 Beth yw 'gosod' tŷ?
- 1.7 Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol ac eithrio trwy osod ?
- 1.8 Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ ?
- 1.9 Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai ?

1.1 Y polisi

Mae'r polisi hwn yn egluro sut caiff tai cymdeithasol ym Môn eu gosod. Ynndo ceir rheolau yr ydym yn eu dilyn wrth asesu ceisiadau am dai a phenderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ cymdeithasol.

1.2 Oes crynodeb o'r polisi hwn?

Oes. Mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk/gosodtai neu gofynnwch i ni anfon copi atoch.

1.3 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael eu gosod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?

Ydi. Mae pob eiddo a osodir gan landlordiaid sy'n bartneriaid yn cael eu cynnwys yn y polisi hwn, yn amodol yn unig ar yr eithriadau sydd yn y polisi hwn. Y landlordiaid sy'n bartneriaid yw Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ynys Môn, Tai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas.

1.4 Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tai cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai hynny nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?

Ydi.

1.5 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tai cymdeithasol?

Mae'r polisi hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rheolau y mae landlordiaid sy'n bartneriaid eu defnyddio. Ceir hefyd weithdrefnau ac arweiniad sy'n helpu swyddogion tai i weinyddu'r polisi hwn. Ewch i **16.6** i weld eich hawl cyfreithiol i ofyn am gopi o'r cynllun gosod cyfan.

1.6 Beth yw 'gosod' tŷ?

Bydd tŷ'n cael ei osod pan gewch eich dewis oddi ar Gofrestr Tai i gael cynnig tenantiaeth o eiddo y mae un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn berchen arno.

1.7 Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol, ac eithrio trwy osod?

Oes. Weithiau daw pobl yn denant tŷ cymdeithasol ond nid oherwydd bod y tŷ am gael ei osod. Gweler **Atodiad 1** am fanylion yr eithriadau hyn. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys y ffyrdd eraill hyn o gael tŷ cymdeithasol.

1.8 Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ?

Oes. Caiff ei alw'n 'Cofrestr Tai. Hon yw'r rhestr aros am dŷ. Yn **Adrannau 2 a 3** ceir eglurhad ar sut mae modd i chi wneud cais i gael eich cynnwys ar y Gofrestr. Yn **Adrannau 6 i 10** ceir eglurhad ar sut byddwn yn asesu ceisiadau a sut byddwn yn penderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ cymdeithasol.

1.9 Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai?

Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn cynnal y Gofrestr ar ran yr holl landlordiaid cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn. Mae gan yr holl landlordiaid sy'n bartneriaid fynediad at y Gofrestr Tai fel bod modd iddynt osod tŷ ac i gofnodi cyswllt gyda chwsmeriaid pan gaiff eiddo eu gosod a thenantiaethau eu cynnig.

2. SUT WYF YN GWNEUD CAIS AM DŶ CYMDEITHASOL?

- 2.1 Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?
- 2.2 Sut wyf yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol?
- 2.3 Rwyf yn 16 neu 17 mlwydd oed. Oes rheolau arbennig?
- 2.4 Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?
- 2.5 Gwnes gais o'r blaen a chafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?
- 2.6 Oes rhaid i mi fynd am gyfweiliad opsiynau tai?
- 2.7 Fydd fy nghais am gyfweiliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?
- 2.8 Oes gennyf ddewis ynghylch pryd y caf fy nghyfweld?
- 2.9 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu am golli fy nghartref?
- 2.10 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ ?
- 2.11 Beth fydd yn digwydd os bydd angen cymorth arnaf i wneud cais am dy?

2.1 Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?

Os ydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn medrwch wneud cais i gael eich cynnwys ar y Gofrestr Tai.

2.2 Sut wyf yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol?

Os ydych yn dymuno gwneud cais ewch i'r Gwasanaethau Tai yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni neu ffonio Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai'r Cyngor ar (01248) 752200. Bydd y Gwasanaethau Cwsmeriaid yn:

- Rhoi cyngor i chi
- Trefnu apwyntiad cyngor ar opsiynau tai ac yn
- Cadarnhau'r wybodaeth a'r dogfennau y mae angen i chi ddod gyda chi i'ch cyfweiliad.

2.3 Rwyf yn 16 neu'n 17 mlwydd oed. Oes rheolau arbennig?

Oes. Os ydych yn 16 neu'n 17 mae modd i chi wneud cais am dŷ fel pawb arall. Fodd bynnag, os ydych yn cael cynnig tŷ cyn yr ydych yn 18 bydd y landlord yn disgwyl i chi gael gwarantwr ac ymddiriedolwr. Bydd yn rhaid i'r landlord fod yn fodlon fod y person (neu'r mudiad) hwn yn briodol ac yn medru gweithredu fel eich gwarantwr a'ch

ymdiriedolwr. Er enghraifft, mae'n rhaid iddynt fedru fforddio i dalu'r rhent am unrhyw denantiaeth a roddir i chi (rhag ofn na fyddwch chi'n talu'r rhent). Os ydych yn methu cael gwarantwr ac ymdiriedolwr, efallai byddai'r landlord yn gwrthod cynnig y denantiaeth i chi. Os ydych dros 16 neu 17 byddwn yn rhoi cyngor i chi ynghylch cael gwarantwr ac ymdiriedolwr yn ystod eich cyfweiliad opsiynau tai.

2.4 Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?

Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwn yn gofyn i chi a fydddech yn dymuno tenantiaeth un person ynteu denantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall yn eich cartref. Un person yn unig fedr fod y prif ymgeisydd. Hwn fydd y person y byddwn yn cysylltu ag o yng nghyswllt y cais. Gweler **11.3** ar gyfer pan fo'r landlordiaid yn rhoi tenantiaethau ar y cyd.

Os ydych yn gwneud cais ac yn meddwl gofyn am denantiaeth ar y cyd, mae'n bwysig iawn bod yn ymwybodol:

- Y bydd gan denant ar y cyd yr un hawliau â chi dan y denantiaeth gan gynnwys yr hawl i fyw yn y cyfan o'r eiddo (oherwydd mai un denantiaeth fyddai yno, a byddech chi'n dal honno ar y cyd)
- Nad oes hawl cyfreithiol i 'droi' tenantiaeth ar y cyd yn denantiaeth un person, e.e. os yw eich cyd-denant yn symud allan ac rydych chi'n dymuno tenantiaeth un person yn eich enw eich hun yn unig
- Y gall cyd-denant ddod â'ch tenantiaeth i ben heb eich caniatâd chi gan roi i'r landlord hysbysiad ymadael. Nid oes yn rhaid i'ch cyd-denant hyd yn oed ddweud wrthy ch cyn iddo/iddi wneud hyn
- Os bydd eich cyd-denant yn dod â'ch tenantiaeth ar y cyd i ben ac rydych wedi'ch gadael yn byw yn yr eiddo heb denantiaeth, ni fydd wastad yn bosib rhoi tenantiaeth newydd i chi e.e. os oes gennych fwy o ystafelloedd gwely nag y mae eu hangen arnoch
- Bod cyd-denantiaid yn 'gyfrifol ar y cyd ac yn unigol' am y cyfan o'r rhent a'r holl ymrwymadau eraill dan y cytundeb tenantiaeth hyd oni bydd y denantiaeth yn dod i ben. Os ydych yn gyd-denant, byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am rent a holl ymrwymadau'r denantiaeth, hyd yn oed os byddwch yn symud allan o'r eiddo, cyhyd ag y bydd y denantiaeth yn parhau
- Os ydych yn gyd-denant, byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am rent a holl ymrwymadau'r denantiaeth, hyd yn oed os ydych yn symud allan o'r eiddo, cyhyd ag y bydd y denantiaeth yn parhau.
- Os bydd eich cyd-denant yn marw byddwch yn dod yn denant un person yn awtomatig. Fodd bynnag, os byddwch chi yna'n marw nid oes modd i'ch teulu 'olynu' i'r denantiaeth. Mae'r sefyllfa'n wahanol pe byddech wedi cael tenantiaeth un person: gall aelodau o'ch teulu sy'n byw gyda chi olynu'r denantiaeth pan fyddwch yn marw.

2.5 Gwnes gais o'r blaen a chafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?

Os cafodd eich cais ei wrthod dan y polisi blaenorol, gallwch wneud ail gais. Byddwn yna'n penderfynu a ydych yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai dan y polisi hwn.

Os ydych wedi cael gwrthod cais dan y polisi hwn mae modd i chi wneud ail gais os yw eich sefyllfa wedi newid. Efallai y byddwn yn gwrthod ystyried eich cais os na fu newid perthnasol yn eich amgylchiadau ers y penderfyniad diwethaf.

2.6 Oes rhaid i mi fynd am gyfweliad opsiynau tai?

2.7 Fe allwn ofyn wrthyhch ddwad i gyfweliad os rydych wedi eich derbyn yn gychwynol i fod mewn angen tai sydd yn eich rhoi mewn Band Brys neu Band 1. Mae hyn er mwyn gwneud yn siwr eich bod yn derbyn cyngor tai da. **Fydd fy nghais am gyfweliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?**

Bydd. Byddwn yn anfon llythyr neu e-bost atoch i:

- Gadarnhau dyddiad ac amser eich cyfweliad opsiynau tai
- Dweud wrthyhch pa wybodaeth a dogfennau y mae'n rhaid i chi ddod â nhw i'ch cyfweliad
- Dweud wrthyhch lle gallech gael crynodeb o'r polisi hwn ar lein

2.8 Oes gennyf ddewis ynghylch pryd y caf fy nghyfweld?

Oes. Byddwn yn ceisio trefnu amser sy'n gyfleus i chi.

2.9 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu am golli fy nghartref?

Os ydych yn ddigartref neu o bosib am fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod byddwn yn trefnu apwyntiad fel bod modd i ni benderfynu a oes gan y Cyngor ddyletswydd tuag atoch dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Byddwn hefyd yn eich helpu i wneud cais am dŷ cymdeithasol os yw hyn yn briodol yn eich sefyllfa briodol chi.

2.10 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ ?

Os ydych eisoes wedi'ch cofrestru ar gais rhywun arall am dŷ byddwn yn gofyn i chi gadarnhau nad ydych yn dymuno symud i dŷ arall hefo nhw. Unwaith y byddwch wedi cadarnhau hyn byddwch yn medru gwneud ar eich cyfer chi yn unig. Byddwn hefyd yn cysylltu gyda'r ymgeisydd arall ac efallai'n gohirio'i gais (gweler 8.8).

2.11 Beth fydd yn digwydd os bydd angen cymorth arnaf i wneud cais am dŷ?

Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael cymorth os ydych angen cymorth i wneud cais am dŷ. Er enghraifft, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael unrhyw gymorth y mae ei angen arnoch oherwydd anabled neu broblem llythrennedd neu os oes angen gwasanaethau cyfieithu arnoch.

3. BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD UNWAITH Y BYDD FY NGHYFWELIAD WEDI'I DREFNU?

- 3.1 Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweiliad opsiynau tai?
- 3.2 Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'r cyfweiliad opsiynau tai?
- 3.3 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â'r dogfennau i fy nghyfweliad opsiynau tai?
- 3.4 Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â'm dogfennau i'm cyfweiliad?
- 3.5 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael anhawster cael hyd i'r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i'm cyfweiliad?
- 3.6 Beth fydd yn digwydd mewn cyfweiliad opsiynau tai?
- 3.7 Fydd angen i'r Cyngor gysylltu â rhywun arall cyn prosesu fy nghais?
- 3.8 Ydi'r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?
- 3.9 Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i sicrhau y caiff fy nghais ei ystyried?
- 3.10 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cwrdd â'r 'gofynion trefniadaethol' a restrir yn 3.9?
- 3.11 Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?
- 3.12 Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

3.1 Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweiliad opsiynau tai?

Byddwn yn ceisio trefnu dyddiad ac amser sy'n gyfleus i chi. Os cewch na fedrwch ddod i'r cyfweiliad a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni er mwyn trefnu amser arall. Os na fedrwch yn wirioneddol ddod i gyfweiliad opsiynau tai, byddwn yn cynnig cyfweiliad i chi dros y ffôn, er enghraifft, os ydych yn byw yn bell i ffwrdd. Os na fedrwch ddod am gyfweiliad i'n swyddfeydd oherwydd eich bod yn anabl, mae modd i ni ymweld â chi yn eich cartref.

3.2 Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'm cyfweiliad opsiynau tai?

Oes. Pan fyddwn yn gwneud yr apwyntiad byddwn yn dweud wrthy ch beth i ddod gyda chi. Byddwn hefyd yn cadarnhau hyn yn eich llythyr apwyntiad (neu e-bost). Fel arfer, byddwn yn gofyn i chi ddod â dogfennau i brofi:

- Pwy ydych.
- Eich incwm, eich cyfalaf ac a ydych yn berchen ar unrhyw eiddo ▪ Eich man preswyllo cyfredol.
- Pwy yw'r bobl sy'n byw gyda chi (neu a fydd o bosib yn byw gyda chi) a lle maent yn byw

Os oes gennych unrhyw lythyrau neu ddogfennau sy'n berthnasol i pam bod angen tŷ arnoch a fyddech cystal â dod â'r rhain gyda chi e.e. rhybudd ymadael gan eich landlord.

3.3 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â'r dogfennau hyn i'm cyfweiliad opsiynau tai?

Os na fyddwch yn dod â'r dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi eu cyflwyno (gweler **3.2**) ni fedrwn gymryd eich cais. Byddwn yn trefnu apwyntiad arall i chi.

3.4 Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â'm dogfennau i'm cyfweiliad?

Os na fyddwch yn dod â'r dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi eu darparu (gweler **3.2**) i gyfweiliad sydd wedi'i aildrefnu (gweler **3.3**), byddwn yn gofyn i chi anfon y dogfennau atom. Ni fyddwn yn trefnu cyfweiliad arall ac yn cytuno i gymryd eich cais ond pan fyddwn wedi derbyn y dogfennau.

3.5 Beth fydd yn digwydd os wyf yn cael anhawster cael hyd i'r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i'm cyfweiliad?

Os ydych yn meddwl y cewch, o bosib, drafferth cael y dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi ddod â nhw i'ch cyfweiliad, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym cyn diwrnod eich cyfweiliad fel bod modd i ni eich cynghori.

3.6 Beth fydd yn digwydd mewn cyfweiliad opsiynau tai?

Mae'r cyfweiliad yn rhoi cyfle i chi drafod eich sefyllfa'n fanwl. Byddwn yn dweud wrthyh a fyddwch yn debygol o gymhwyso am dŷ cymdeithasol ai peidio. Byddwn hefyd yn dweud wrthyh a fydd aros am dŷ cymdeithasol yn realistig yn eich sefyllfa benodol chi. Yn ystod y cyfweiliad:

- Byddwch yn cael gwybod am droseddau y mae'n rhaid i chi eu hosgoi pan fyddwch yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol.
- Byddwch yn cael gwybod sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio ac am eich hawliau cyfreithiol yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol.
- Gofynnir i chi roi caniatâd i'r ffordd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio (e.e. trwy roi caniatâd i ni gysylltu â mudiadau eraill os bydd angen i ni wneud hynny).
- Gofynnir i chi roi eich manylion cyswllt a'ch dewis ynghylch a ydych yn dymuno cael gohebiaeth trwy e-bost neu lythyr.
- Gofynnir i chi roi gwybodaeth am eich sefyllfa a math y tŷ y mae ei angen arnoch. Gofynnir i chi hefyd am fath y tŷ y byddai'n well gennych, gan gynnwys ei fath, ei faint a'i leoliad.
- Gofynnir i chi gadarnhau a oes angen math arbennig o dŷ arnoch chi neu aelodau eich aelwyd neu a oes gennych/ganddynt unrhyw anghenion penodol e.e. llety llawr gwaelod oherwydd nad ydynt yn gallu symud yn rhwydd neu addasiadau oherwydd anabledd corfforol.

- Rhoddir gwybod i chi sut y byddir yn debygol o ymdrin â'ch cais, gan gynnwys pa flaenoriaeth y byddwch yn debygol o'i chael (gweler **adran 9**), ac a ydych yn debygol o gael cynnig tŷ cymdeithasol.
- Dywedir wrthy ch beth fydd yn digwydd nesaf. Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atoch ar ôl y cyfweiliad yn cadarnhau'r penderfyniad y byddwn wedi'i wneud ynghylch eich cais (gweler **5.1** a **5.2**).
- Fe'ch cynghorir ynghylch cadw'ch llety presennol neu ynghylch ffyrdd eraill o gael hyd i dŷ (os yw'n briodol, e.e. os byddwch, o bosib, yn colli eich tŷ cyfredol neu os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref).

3.7 Fydd angen i'r Cyngor gysylltu ag unrhyw un arall cyn prosesu fy nghais?

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â mudiadau eraill i gael gwybodaeth y bydd ei hangen arnom cyn prosesu eich cais. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni wirio gwybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni e.e. gofyn am dystlythyrau tenantiaeth. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd i gysylltu â thrydydd parti pan fyddwch yn cyflwyno cais am dŷ.

3.8 Ydi'r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?

Ydi. Rydym yn ystyried pob cais, ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol penodol (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw cael asesu eich cais o reidrwydd yn golygu y bydd gennych hawl i fynd ar y Gofrestr Tai. Gweler **6.1** am bwy nad oes ganddo hawl i gael ei gofrestru ar y rhestr aros.

3.9 Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i wneud yn siŵr y caiff fy nghais ei ystyried?

Os ydych yn dymuno i'ch cais gael ei ystyried rhaid i chi:

- Fynd i gyfweiliad opsiynau tai neu gymryd rhan ynddo
- Cydweithredu trwy ateb y cwestiynau y gofynnwn ynghylch eich sefyllfa ac ynghylch amgylchiadau'r bobl yn eich aelwyd
- Cyflwyno tystiolaeth dderbyniol o bwy ydych.
- Cyflwyno tystiolaeth dderbyniol o'ch cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo - os ydym angen tystiolaeth i'n bodloni ein hunain eich bod yn gymwys am dŷ (gweler **6.3** i **6.7** ac **Atodiad 3** am y rheolau ynghylch mewnfudo a chenedligrwydd).
- Darparu cyfeiriad post.
- Darparu tystiolaeth dderbyniol o bwy yw'r bobl sy'n aros gyda chi yn eich aelwyd a lle maent yn byw.
- Caniatáu i ni ymweld â chi yn eich cartref (os ydym yn penderfynu bod angen ymweld â'ch cartref).

Efallai y bydd gofyn i chi wneud pethau eraill. Gelwir y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' yn 'ofynion gweithdrefnol'. Efallai y bydd gofynion gweithdrefnol eraill yn cael eu cynnwys yn yr arweiniad i staff sy'n mynd law yn llaw â'r polisi hwn.

3.10 Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cyrraedd y 'gofynion gweithdrefnol' a restrir yn

3.9?

Os na fyddwch yn gwneud y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' a restrir uchod yn **3.9** byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig na fedrwn wneud penderfyniad ynghylch eich cais. Byddwn yn rhoi amser rhesymol i chi unioni hyn. Os ydych yn parhau i beidio ag unioni hyn byddwn yn canslo'ch apwyntiad. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

3.11 Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?

Os mai tŷ dros dro sydd gennych, dylech roi'r cyfeiriad hwnnw i ni. Os nad oes gennych lety o gwbl, bydd yn rhaid i chi roi cyfeiriad d/o i ni fel bod modd i ni ysgrifennu atoch. Gall hwn fod yn gyfeiriad aelod o'r teulu neu ffrind sy'n fodlon derbyn post ar eich rhan. Os byddwch yn rhoi cyfeiriad d/o bydd angen i chi wneud yn siŵr fod rhywun yn y cyfeiriad yn dweud wrthyhych pan fyddwch yn cael llythyrau. Gallwch ofyn i ni anfon gohebiaeth drwy e-bost.

3.12 Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

Efallai y bydd angen i ni ymweld â chi yn eich cartref i gadarnhau eich sefyllfa fel bod modd i ni wneud penderfyniad a ydych yn gymwys ac a oes gennych flaenoriaeth i symud tŷ. Er enghraifft, efallai y byddwn yn ymweld â chi yn eich cartref os oes angen i ni edrych a oes gormod o bobl yn byw yno, edrych ar amodau eiddo gwael, a yw eiddo'n cyrraedd y safon (os oes gennych denantiaeth gyda landlord sy'n bartner), neu am unrhyw reswm arall. Efallai y byddwn hefyd yn ymweld â chi yn eich cartref os ydym yn fodlon bod angen gwneud hynny oherwydd eich bod ag anabledd sy'n effeithio'n andwyol ar eich gallu i ymweld â Swyddfeydd y Cyngor neu gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn.

4. PA DDEWISIADAU SYDD GENNYF, A PHA DŶ YDW I'N CYMHWYSO AMDANO?

- 4.1 Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?
- 4.2 Oes modd i mi ddewis pa ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno o fewn ardal osod?
- 4.3 Pa ardaloedd gosod oes modd i mi eu dewis?
- 4.4 Sut medraf gael gwybod pa dai sydd ar gael ym mhob ardal?
- 4.5 Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy'n debygol o fod ar gael yn fy newis ardaloedd?
- 4.6 Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?
- 4.7 Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?
- 4.8 Oes modd i mi ddewis mathau'r eiddo yr wyf yn eu dymuno?
- 4.9 Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar y mathau o eiddo y medraf eu dewis?
- 4.10 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu beth yw maint yr eiddo y mae gennyf hawl iddo?
- 4.11 Pwy sy'n medru cael ei gofrestru fel rhan o'm haelwyd?
- 4.12 Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddi?
- 4.13 Oes sefyllfaoedd lle byddai modd i mi gael cynnig eiddo mwy na'r hyn y mae gennyf hawl iddo?
- 4.14 Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?
- 4.15 Oes modd i'r Cyngor a chymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?
- 4.16 Oes modd i'r Cyngor a'r cymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

4.1 Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?

Oes. Mae modd i chi ddewis cyn lleied neu gymaint o ardaloedd ag y dymunech (oni bai eich bod yn ddigartref, gweler **4.7** isod). Ni ddylech ddewis ardal oni bai eich yn wirioneddol dymuno byw yno. Y rheswm am hyn yw y byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y Gofrestr os byddwch yn gwrthod dau gynnig o dŷ (gweler **11.8**). Yn anffodus, ychydig iawn o dai cymdeithasol sydd mewn rhai ardaloedd neu mae llawer o bobl yn dymuno byw yno. Byddwn yn dweud wrthyf os yw'n realistig dewis ardal benodol yn ystod eich cyfweiliad opsiynau tai.

4.2 Oes modd i mi ddewis ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno mewn ardal osod?

Nac oes. Os ydych yn dewis ardal mae'n bosib y medrwch gael cynnig eiddo mewn unrhyw ran o'r ardal osod honno.

4.3 Pa ardaloedd gosod fedraf i eu dewis?

Gweler **Atodiad 2** am fap sy'n dangos pob ardal osod.

4.4 Sut medraf gael gwybod faint o dai sydd ar gael ym mhob ardal?

Rydym fel mater o drefn yn cyhoeddi pa dai sydd gennym ym mhob ardal osod. Mae'n bwysig nodi mai cyfanswm nifer yr eiddo yw hyn ac efallai mai ychydig o eiddo yn unig a ddeuai'n wag bob blwyddyn (neu ddim o gwbl). O'r herwydd, rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth isod:

- (a) Faint o eiddo oedd wedi bod ar gael i'w gosod yn flaenorol ym mhob ardal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- (b) Pa fand blaenoriaeth oedd gan yr ymgeisydd llwyddiannus, ac
- (c) Am faint oedd yn rhaid iddo aros yn y band hwnnw cyn cael yr eiddo y bu iddynt ei dderbyn

Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cael ei rhoddi i unrhyw gwsmer sy'n gofyn amdani.

Ni fydd y wybodaeth yn (a) a (b) uchod ar gael hyd oni fydd y polisi wedi bod mewn grym am chwe mis.

4.5 Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy'n debygol o ddod ar gael yn fy newis ardaloedd?

Nid ydym yn gwybod ymlaen llaw pa eiddo a ddaw ar gael. Yr oll y gallwn ei wneud yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi, e.e. faint o eiddo o'r math a'r maint y mae ei angen arnoch sydd wedi dod ar gael yn flaenorol mewn ardal osod dros gyfnod penodol o amser a faint o bobl sydd o'ch blaen ar y rhestr aros honno (gweler **4.4**). Mae hyn yn rhoi syniad bras i chi o ba mor hir y mae'n debygol o fod cyn y medrwch gael eiddo (gweler hefyd **16.6** am eich hawl i ofyn am wybodaeth).

4.6 Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?

Oes. Efallai y byddwn yn gwrthod eich cofrestru ar gyfer ardal os credwn ei bod yn annhebygol y cewch gynnig tŷ yn yr ardal honno. Er enghraifft, efallai na fyddai fawr ddim tai neu ddim tai o gwbl o'r math a'r maint y mae eu hangen arnoch mewn ardal benodol. Neu efallai nad ydych yn cwrdd â meini prawf gosod y landlord.

4.7 Rwyf yn ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?

Bydd. Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau digartref isod tuag atoch bydd yn rhaid i chi ddewis o leiaf chwe ardal osod. Yr unig eithriad yw pe byddem yn penderfynu nad oes chwe ardal lle byddai llety'n gyfreithiol addas i chi (yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth digartrefedd). Dyma'r dyletswyddau digartrefedd:

- Dyletswydd adran 66 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y ddyletswydd i helpu i'ch atal rhag colli llety os byddwch o bosib yn dod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod)
- Dyletswydd Adran 68 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i sicrhau bod llety dros dro ar gael ar eich cyfer os oes gennym reswm i gredu y gallech fod yn gymwys i dderbyn cymorth, eich bod efallai'n ddigartref ac efallai mewn angen â blaenoriaeth)
- Dyletswydd adran 73 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i'ch helpu i ganfod llety os ydych yn ddigartref), a
- Dyletswydd adran 75 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i sicrhau bod llety ar gael ar eich cyfer os ydych yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen â blaenoriaeth ac na chafodd eich digartrefedd ei ddatrys pan oedd gan y Cyngor ddyletswydd adran 73 tuag atoch).

Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau uchod tuag atoch bydd gennych ddau fis i fynegi eich dewis ynghylch yr ardaloedd gosod y dymunech symud iddynt. Ar ddiwedd y ddau fis, gan ddechrau gyda derbyn un o'r dyletswyddau, medrwn ehangu'r ardaloedd gosod yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei wneud oni bai y credwn y byddai llety yn yr ardaloedd gosod ychwanegol yn fwyaf tebygol o fod yn addas i chi wrth orffen y ddyletswydd ddigartrefedd.

4.8 Oes modd i mi ddewis mathau'r eiddo yr wyf yn eu dymuno?

Oes. Medrwnch ddewis mathau'r eiddo (tŷ, fflat ac ati) a lefelau llawr yr ydych yn eu dymuno ac y dymunech gael eich ystyried ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yr hyn yr ydych yn ei ddymuno yw'r unig beth sy'n penderfynu pa fath o eiddo yr ydych yn gymwys ar gyfer amdano, ond hefyd math eich aelwyd (gweler **4.12** isod).

Os ydych yn 55 oed neu'n hŷn, gallwch ddweud eich bod eisiau cael eich ystyried ar gyfer eiddo a chynlluniau tai sydd wedi eu neilltuo ar gyfer pobl hŷn.

4.9 Rwy'n ddigartref. Oes modd i hyn gael effaith ar fathau'r eiddo y medraf eu dewis?

Oes. Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau tuag atoch a restrir yn **4.7** efallai y bydd eich dewisiadau'n cael eu trechu. Efallai y byddwn yn dewis mathau'r eiddo yr ydych yn gymwys i gael eu cynnig, yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei ystyried sy'n addas i chi.

4.10 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu eiddo o ba faint y mae gennyf hawl iddo?

Rydym yn asesu maint y cartref y mae ei angen arnoch yn ôl nifer a chyfansoddiad aelodau eich aelwyd. Byddwn yn asesu nifer yr ystafelloedd gwely y bydd eu hangen arnoch. Gweler **4.11** a **4.12** isod

4.11 Pwy sy'n medru cael ei gofrestru fel rhan o fy aelwyd?

Byddwn yn penderfynu pwy sydd â'r hawl i gael ei gynnwys ar eich cais am dŷ fel rhan o'ch aelwyd Fel arfer, rhaid i'r bobl sy'n cyfrif fel y rhai y mae angen iddynt fyw gyda chi:

- Fyw gyda chi fel aelod o'r teulu, neu
- Fod yn blentyn i chi a bod yn ddibynnol arnoch.

Os oes gennych blentyn sy'n ddibynnol arnoch chi a rhywun arall (e.e. cynbartner) byddwn yn ystyried a ddylid ei drin fel rhan o'ch aelwyd. Os oes trefniant i rannu gwarchodaeth efallai y byddem yn penderfynu na ddylid trin y plentyn fel rhan o'ch aelwyd e.e. oherwydd bod ganddo eisoes lety gyda'i riant/warchodwr arall.

4.12 Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddynt?

Caiff nifer yr ystafelloedd gwely y mae gennych hawl iddynt ei hasesu gan ddefnyddio'r rheolau a ganlyn. Rydych yn gymwys ar gyfer un ystafell wely am bob un o'r bobl isod sydd yn eich aelwyd:

- Un person sengl neu gwpl sy'n 16 oed neu hŷn
- Dau blentyn o'r un rhyw, os yw'r ddau blentyn dan 16
- Dau blentyn dan 10 oed, waeth beth yw eu rhyw ▪ Unrhyw blentyn arall.

Efallai eich bod yn gymwys ar gyfer un ystafell wely ychwanegol os:

- Ydych chi neu eich partner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gyda chi i aros dros nos, neu
- Ei fod yn afresymol i ddau berson rannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabledd ar yr amod bod tystiolaeth am yr angen hwn a'n bod yn fodlon y byddech yn medru fforddio'r llety.

Yn y tabl isod, ceir arweiniad i faint yr eiddo y caiff y mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd eu cofrestru ar eu cyfer fel arfer

AELWYD A MAINT YR EIDDO

Cyfansoddiad yr Aelwyd	Nifer yr Ystafelloedd Gwely				
	1	2	3	4	5
Un person					
Cwpl					
Dynes feichiog (sengl neu mewn cwpl)					

Cwpl neu un rhiant gydag un plentyn dan 16					
Cwpl neu un rhiant gyda dau o blant o'r un rhyw dan 16 neu â dau blentyn o wahanol ryw ac sydd ill dau dan 10					
Cwpl neu un rhiant gyda dau o blant o wahanol ryw dan 16 lle mae un plentyn yn o leiaf 10					
Cwpl neu un rhiant gyda thri o blant dan 16					
Cwpl neu un rhiant gyda phedwar o blant dan 16, yn unrhyw un o'r categorïau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ▪ i gyd o'r un rhyw; ▪ Dau fachgen a dwy ferch; ▪ Tri o'r un rhyw, lle mae o leiaf ddau o'r plant sydd o wahanol ryw dan 10. 					
Cwpl neu un rhiant gyda phedwar o blant dan 16, tri o'r un rhyw, lle mae un ai'r tri sydd o'r un rhyw i gyd dros 10 neu mae'r plentyn sydd o'r rhyw arall dros 10					
Cwpl neu un rhiant gyda phump o blant dan 16					
Cwpl neu un rhiant gyda mwy na phump o blant dan 16					

Bydd ymgeiswyd sydd hefo plant sydd yn dibynnu arnynt (dependent children) rhwng 17 ac 21 oed yn cael eu hystyried hefo'r criteria uchod ar gyfer aelwyd ac maint yr eiddo **.4.13 Rwyf yn feichiog. Pryd fydd gennyf hawl i ystafell wely ychwanegol?**

Byddwch yn cael eich trin fel petai eich plentyn wedi cael ei eni'n barod (i bwrpas gweithio allan maint yr eiddo y mae gennych hawl iddo) unwaith y byddwch wedi bod yn feichiog am 26 wythnos. Efallai y byddwn yn defnyddio ein disgrisiwn i newid eich hawliau o ran ystafelloedd gwely yn gynt na'r dyddiad hwn os byddwn yn teimlo bod hynny'n briodol ac wedi ystyried materion megis:

- A yw eich amgylchiadau'n eithriadol;
- Y galw gan ymgeiswyr eraill am eiddo o'r math a'r maint y byddai gennych chi hawl iddo os penderfynir y bydd gennych hawl i ystafell wely ychwanegol;
- Bod neb ar ôl ar y rhestr aros ar gyfer eiddo o faint mwy yn yr ardal(oedd) yr ydych wedi ei/eu dewis;
- Eich gallu i fforddio'r rhent a'r costau uwch sy'n gysylltiedig ag eiddo mwy.

4.14 Oes sefyllfaoedd lle medrwn gael cynnig eiddo mwy na'r hyn y mae hawl gennyf iddo?

Fel arfer, dim ond maint yr eiddo y mae gennych hawl iddo y cewch ei gynnig (gweler **4.12** uchod). Weithiau byddem yn medru cynnig eiddo mwy, ond fel arfer, ni fydd hyn yn digwydd oni bai:

- Nad oes neb ar ôl ar y rhestr aros, a
- Bod y landlord yn fodlon y byddech yn medru fforddio'r rhent

4.15 Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?

Nac oes. Os cewch eich derbyn ar y Gofrestr Tai, gallwch gael cynnig tenantiaeth gydag unrhyw un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid.

4.16 Oes modd i'r Cyngor a'r cymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

Oes. Er enghraifft, mae modd i rai eiddo gael eu cadw ar gyfer pobl dros oed penodol.

5. PA BRYD Y GWNEIR PENDERFYNIAD AR FY NGHAIS?

- 5.1 Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?
- 5.2 Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?
- 5.3 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?
- 5.4 Os wyf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor, oes modd i mi ofyn iddynt ei hailystyried?

5.1 Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?

Byddwn yn prosesu'ch cais unwaith y byddwch yn cwrdd â'r holl ofynion trefniadaethol (ceir eglurhad ar y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn yn **3.9**). Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 21 diwrnod calendr i ddiwrnod eich cyfweiliad opsiynau tai neu o fewn 21 diwrnod i ni dderbyn yr holl wybodaeth a'r dogfennau y mae eu hangen arnom (os yw hyn yn hwyrach). Os ydych wedi cytuno i dderbyn e-byst, efallai y byddwn yn anfon y penderfyniad atoch mewn e-bost.

5.2 Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthyfch:

- a ydych wedi'ch derbyn ar y rhestr aros.

Os ydych wedi'ch derbyn ar y rhestr aros, byddwn yn dweud wrthyfch:

- pa flaenoriaeth (band) a ddyfarnwyd i chi (gweler **9.6** i **9.10**)
- dyddiad eich amser aros (gweler **8.1**)
- math (neu fathau) y tŷ yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei gyfer (gweler **4.8**), a ▪ maint yr eiddo yr ydych yn gymwys ar ei gyfer (gweler **4.10** i **4.14**).

Byddwn hefyd yn dweud wrthyfch os byddwn yn gwneud unrhyw un o'r mathau o benderfyniadau a ganlyn:

- Penderfyniad nad ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr Tai gweler **adran 6**). Byddwn yn dweud y rhesymau pam wrthyfch
- Penderfyniad fod statws eich band blaenoriaeth wedi'i ostwng (gweler **9.11**) ac os felly, pa fand a ddyfarnwyd i chi. Byddwn yn dweud y rhesymau pam wrthyfch.

Byddwn yn dweud wrthyfch am eich hawl i ofyn am adolygiad os ydych yn anfodlon gyda'n penderfyniad ar eich cais (gweler **adran 12.5**).

Bydd y llythyr penderfyniad yn egluro bod copi o'r hysbysiad o benderfyniad ar gael i'w gasglu o swyddfa'r Cyngor am gyfnod rhesymol. Mae'r llythyr hefyd yn egluro os na fyddwch yn derbyn y llythyr (neu'r e-bost) o benderfyniad, byddwch yn cael eich trin fel petaech wedi cael gwybod pan gafodd y llythyr ei anfon i'r cyfeiriad post neu e-bost a gawsom gennych.

5.3 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?

Os oes gennych gwestiynau ynghylch eich cais, a fyddech cystal â ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid yr Adran Tai ar (01248) 752200 neu anfon e-bost atynt yn tai@ynysmon.gov.uk. Os oedd eich cyfweiliad yn y 21 diwrnod diwethaf ac nid ydych wedi cael penderfyniad, awgrymw'n eich bod yn disgwyl am ein llythyr neu ein neges e-bost yn cadarnhau canlyniad eich cais.

5.4 Os wyf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor oes modd i mi ofyn iddynt ei ailystyried?

Oes. Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthyhych beth yw'r penderfyniad ar eich cais, byddwn hefyd yn dweud wrthyhych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am fwy o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

6. A FYDDAF YN CAEL MYND AR Y GOFRESTR TAI?

- 6.1 Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?
- 6.2 Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?
- 6.3 Pam fyddwch chi'n edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?
- 6.4 Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?
- 6.5 Nid wyf yn gymwys ar gyfer dŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?
- 6.6 Pobl a gyfyngir

- 6.7 Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion?
- 6.8 Oes sefyllfaoedd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?
- 6.9 Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?
- 6.10 Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?
- 6.11 Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi denantiaeth ar y cyd gyda mi?

6.1 Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

Nac oes. Nid oes gan rai pobl yr hawl i gael eu cofrestru ar y rhestr aros. Er enghraifft, ni fyddwch yn cael eich rhoi ar y Gofrestr Tai:

- Os nad ydych wedi cwrdd â'r 'gofynion gweithdrefnol' (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid chi eu gwneud').
- Os oes gennych ddigon o adnoddau ariannol i gwrdd â'ch anghenion tŷ (gweler **7.3** a **7.4** am fwy o fanylion).
- Os nad ydych yn gymwys oherwydd eich statws mewnfudo (gweler **6.3** i **6.7** ac **Atodiad 3** am y rheolau ynghylch mewnfudo a chenedligrwydd)
- Os nad ydych yn gymwys oherwydd ymddygiad yn y gorffennol (gweler **6.8** i **6.9** ac **Atodiad 4** am y rheolau ynghylch bod yn anaddas i fod yn denant).
- Os ydych wedi gwneud cais o'r blaen, eich cais wedi'i wrthod ac nad yw eich cais wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad gwreiddiol (gweler **2.5**).

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthyh os byddwn yn penderfynu nad ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr. Byddwn yn dweud wrthyh am ein rhesymau dros wneud y penderfyniad ac yn dweud wrthyh am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am fwy o fanylion ynghylch eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

6.2 Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl mynd ar y Gofrestr Tai

Byddwn yn eich cyngori ynghylch eich opsiynau tai eraill.

6.3 Pam ydych yn edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?

Trwy gyfraith, ni chawn osod tai i bobl sydd wedi'u diarddel oherwydd eu statws mewnfudo. Ni fyddwn yn cofrestru ceisiadau gan unrhyw un nad yw'n gymwys ar gyfer tŷ dan adran 160A(1)(a) Deddf Tai 1996 a'r rheoliadau cysylltiedig.

6.4 Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?

Yn **Atodiad 3** ceir rhestr o'r grwpiau nad ydynt yn gymwys i gael tŷ oherwydd eu statws mewnfudo neu eu cenedligrwydd. A fydddech cystal â chysylltu â ni os oes angen cyngor arnoch ar sut y gallai hyn gael effaith ar eich cais.

6.5 Nid wyf yn gymwys ar gyfer tŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?

Nac oes. Ni all aelod o aelwyd, nad yw'n gymwys, gael tenantiaeth un person na thenantiaeth ar y cyd gydag ymgeisydd cymwys yn sgil cael gosod tŷ.

6.6 Pobl a gyfyngir

Ni fyddwn yn cofrestru cais unrhyw un sydd yn syrthio i grŵp 'ffafiaeth resymol' (gweler **16.1**) oherwydd digartrefedd dim ond oherwydd bod eu haelwyd yn cynnwys 'person a gyfyngir'. Person a gyfyngir yw rhywun:

- nad yw'n gymwys ar gyfer cymorth dan Bennod 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, ac
- sy'n destun rheolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, ac
- un ai:
 - Nad oes ganddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, neu
 - Bod ganddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno gyda'r amod ei fod yn cynnal ei hun a'i ddibynyddion ac yn cael llety i'w hun a'i ddibynyddion heb orfod troi at y pwrs cyhoeddus

6.7 Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n cymryd eu hanghenion i ystyriaeth?

Byddwn. Os ydych chi'n gymwys ond bod gennych ddibynyddion sydd ddim yn gymwys, byddwn yn cymryd eu hanghenion tai i ystyriaeth, e.e. wrth benderfynu ar eich blaenoriaeth a math a maint y tŷ yr ydych yn gymwys ar ei gyfer. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn cymryd statws mewnfudo perthnasau i ystyriaeth wrth benderfynu a ydynt yn rhan o'ch aelwyd. Os yw eich aelod yn cynnwys 'person a gyfyngir' efallai na fyddwn yn rhoi blaenoriaeth am dŷ i chi (gweler **6.6**).

6.8 Oes sefyllfaeodd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ymddygiad yn y gorffennol?

Oes. Os ydym yn penderfynu fod eich statws mewnfudo a chenedligrwydd yn golygu eich bod yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Tai byddwn wedyn yn ystyried a ydych o bosib yn anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol.

6.9 Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y Gofrestr Tai oherwydd ymddygiad yn y gorffennol? Rydym yn ystyried:

- a ydych chi neu aelod a'ch aelwyd wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol ac, os dyma'r achos
- a yw'r ymddygiad yn ddigon difrifol i'ch gwneud yn anaddas i fod yn denant tŷ cymdeithasol ac, os dyma'r achos
- a ydych yn parhau'n anaddas i fod yn denant ar yr adeg y byddwn yn ystyried eich cais

Mae **Atodiad 4** yn rhoi mwy o wybodaeth am sut y gwnawn y penderfyniad hwn ac am y rheolau y byddwn yn eu defnyddio.

6.10 Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?

Bydd. Os ydych yn denant ar hyn o bryd neu wedi bod â thenantiaeth yn y gorffennol byddwn yn cysylltu â'ch landlord(iaid) ac yn gofyn iddynt am fanylion am y modd y cynhaliwyd eich tenantiaeth. Mae hyn o gymorth i ni benderfynu a ydych yn addas i fod yn denant (gweler 6.9).

6.11 Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi gyd-denantiaeth gyda mi?

Nac oes. Nid oes modd rhoi i rywun nad yw'n gymwys oherwydd ymddygiad blaenorol gyd-denantiaeth gydag ymgeisydd cymwys yn sgil gosod tŷ.

7. PA FLAENORIAETH FYDD GENNYF AM Dŷ?

- 7.1 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?
- 7.2 Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cymhwyso am unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?
- 7.3 Fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i fy incwm a fy sefyllfa ariannol?
- 7.4 Beth fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth iddo wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?

- 7.5 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan fydd y polisi hwn yn dod i rym?
- 7.6 A fyddaf yn cael mwy o flaenoriaeth os gwnaf gais fel person digartref?

7.1 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?

Os ydych yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai (gweler adran 6), byddwn wedyn yn mynd ymlaen i benderfynu a oes angen tŷ arnoch. Ceir pedwar 'band'. Mae'r band a ddyfernir i chi'n seiliedig ar a oes gennych gysylltiad lleol ai peidio, a beth yw eich brys am dŷ. Dyma'r bandiau, gyda'r flaenoriaeth yn gostwng wrth fynd i lawr y tabl :

Band	Rydych os oes gennych:
Urgent	a) Angen tai brys a chysylltiad Ynys Mon b) Angen tai brys (heb gysylltiad Ynys Mon)
Band 1	Angen tai a chysylltiad Ynys Mon
Band 2	Angen tai heb gysylltiad Ynys Mon
Band 3	Heb angen tai gyda cysylltiad Ynys Mon

*Mae rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol hon. Ym Mand 3, mae angen cysylltiad lleol ar gyfer categorïau angen tŷ 28 a 30.

Ceir eglurhad llawn ar feini prawf y bandiau yn **adran 9**.

7.2 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cymhwyso ar gyfer unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?

Os nad ydych yn cymhwyso ar gyfer unrhyw un o'r bandiau ni chewch fynd ar y Gofrestr Tai. Bydd hyn yn golygu na fyddwch yn cael eich ystyried am dŷ. Byddwn yn anfon ein penderfyniad atoch yn ysgrifenedig ac yn egluro pam nad ydych yn gymwys ar gyfer y rhestr aros. Byddwn hefyd yn dweud wrthyf am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am ragor o fanylion am ofyn i ni ailystyried penderfyniadau). Os nad oes gennych angen tai a dim cysylltiad gyda Ynys Mon ni fyddwch yn cael eich cofrestru neu bydd eich cais cyfredol yn cael ei ganslo. Medrwn eich cynghori ar eich opsiynau tai eraill os oes ei angen arnoch.

7.3 A fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'm hincwm a'm sefyllfa ariannol?

Bydd. Fel arfer, ni fydd tai cymdeithasol yn cael eu darparu onid ydych yn cael trafferth i gael tŷ addas oherwydd eich sefyllfa ariannol. Efallai y byddwn yn

penderfynu nad oes modd eich cynnwys ar y Gofrestr Tai os medrwch fforddio cael tŷ yn y sector preifat. Efallai y byddwn yn eich diarddel os na allwch fforddio tŷ yn y man y dymunech fyw, ond yn gallu fforddio tŷ addas yn rhywle arall ym Môn.

7.4 Beth mae'r Cyngor yn ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?

Byddwn yn ystyried amryfal ffactorau, gan ddibynnu ar eich sefyllfa. Er enghraifft:

- Eich adnoddau ariannol ac adnoddau aelodau o'ch aelwyd. Mae adnoddau ariannol yn golygu incwm gros o £75,000 bob blwyddyn ac / neu asedau cyfalaf neu gynilion sydd dros £50,000. Golyga hyn gallwch gael eich cynnwys ar y rhestr ond ddim yn cael eich hystyried hyd nes na fydd yr adnodd ariannol yn mynd dros y trothwy uchod.
- Bod yn berchen ar dir neu eiddo a bod ag ecwiti ynddynt
- Eich gwariant a'ch ymrwymadau rhesymol
- Cyflenwad a chost tai marchnad breifat ym Môn a fyddai'n addas i chi
- A fyddai modd gwerthu eich eiddo presennol a rhyddhau'r ecwiti a ddaw yn sgil hynny i brynu neu rentu'n breifat
- Y posibilrwydd i chi gael morgais
- A yw addasu eich eiddo presennol yn opsiwn ymarferol (os yn berthnasol).

Mae'r arweiniad gweithdrefnol ar gyfer swyddogion tai (gweler **1.5**) yn cynnwys arweiniad ar sut i asesu achosion unigol, gan gynnwys ffigyrau i'ch helpu gyda maint yr incwm, cynilion a chyfalaf y byddai modd, yn nodweddiadol, ei ystyried yn dderbyniol ar gyfer mathau penodol o aelwyd. Wrth lunio'r canllawiau hyn, bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn cymryd i ystyriaeth Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol a'r data mewn perthynas â chostau tai.

Bydd y taliadau isod yn cael eu diystyru yn yr asesiad ariannol:

- i. Lwmp swm, taliadau dyfarniad pensiwn sydd yn parhau ac neu Taliadau Incwm wedi ei Warantu gan y Fyddin Brydeinig neu Lluoedd Adfyddin fel iawndal am anaf, gyflwr meddygol neu anabledd gafwyd tra ar wasanaeth weithredol. Mae hyn yn cynnwys symiau o'r Cynllun Pensiwn Rhyfel ac Cynllun Iawndal Fyddin Brydeinig.
- ii. Taliadau iawndal sydd wedi eu derbyn drwy hawliadau dioddefwr trosedd neu drwy anaf personol
- iii. Taliadau budd dal sydd ar gyfer helpu pobl gyda cost ychwanegol sydd yn cael ei achosi gan iechyd gwael neu anabledd gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i:
 - Taliadau Personol Annibynnol
 - Lwfans Byw Anbaledd
 - Lwfans Presenoldeb
 - Taliad Lluoedd Annibynnol

7.5 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan ddaw'r polisi hwn i rym?

Os oes gennych gais gweithredol am dŷ pan fo'r polisi hwn yn dod i rym, byddwn yn ailasesu pa mor gymwys ydych am dŷ gan ddefnyddio'r rheolau newydd. Os nad ydych yn gymwys ar gyfer un o'r bandiau, bydd eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr.

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn dweud wrthy ch a yw eich cais wedi'i gynnwys ar y Gofrestr ai peidio. Os ydych yn gymwys dan y polisi newydd, byddwn yn cadarnhau statws eich band blaenoriaeth a dyddiad eich amser aros. Os oes gennych gais gweithredol pan fo'r polisi hwn yn dod i rym, dyddiad eich amser aros fydd y dyddiad y byddech wedi cymhwyso ar gyfer eich statws band pe byddai'r cynllun bandio wedi bod yn weithredol yn flaenorol. Os tynnir eich cais oddi ar y Gofrestr, byddwn yn cadarnhau'r rhesymau am y penderfyniad. Byddwn hefyd yn dweud wrthy ch am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am ragor o fanylion ynghylch eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

7.6 Oes modd i mi gael mwy o flaenoriaeth os wyf yn gwneud cais fel person digartref?

Os yw'r Cyngor yn derbyn eich bod yn ddigartref dyfernir i chi statws band sy'n adlewyrchu'ch blaenoriaeth ar gyfer symud tŷ (gweler **9.6** i **9.10** am y categorïau bandio). Fodd bynnag, nid yw gwneud cais fel person digartref fel arfer yn ei gwneud yn fwy tebygol y ceir cynnig o dŷ cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw y medrwn ddod â dyletswyddau digartrefedd i ben trwy drefnu tŷ rhent yn breifat. Hefyd, os oes dyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus i chi, bydd gennych laj o ddewis ynghylch:

- Lle cynigir tŷ i chi (gweler **4.7**), a
- Math yr eiddo a gynigir i chi (gweler **4.9**).

8. BETH FYDD YN DIGWYDD UNWAITH YR WYF WEDI'M COFRESTRU AR Y RHESTR AROS?

- 8.1 Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?
- 8.2 A fedraf golli fy nyddiad amser aros?
- 8.3 Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?
- 8.4 Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?
- 8.5 A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?
- 8.6 Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa'n newid?
- 8.7 Oes sefyllfaoedd lle bydd angen efallai i mi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweiliad er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cynnig o dŷ?
- 8.8 Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel na fyddaf yn gymwys i gael tŷ?
- 8.9 A fedraf ofyn i fy nghais gael ei atal os nad wyf eisiau cynnig o dŷ tan rhywbryd yn y dyfodol?
- 8.10 Oes sefyllfaoedd lle mae modd tynnu fy nghais oddi ar y Gofrestr Tai?
- 8.11 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?
- 8.12 A oes rhaid i mi adolygu fy nghais yn rheolaidd?

8.1 Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?

Os ydych yn ymgeisydd newydd bydd eich cais yn cael ei roi ar waelod y band y mae gennych hawl iddo gweler Adran 9 am fanylion am y system fandio). Y rheswm am hyn yw y rhoddir i bob ymgeisydd 'ddyddiad amser aros'.

Eich dyddiad amser aros yw'r dyddiad pryd rhoddwyd i chi eich statws band cyfredol. Byddwch yn cael eich rhoi dan ymgeiswyr eraill yn eich band (y mae angen yr un math a maint o dŷ arnynt) oherwydd eu bod wedi bod yn disgwyl yn hirach i gael symud i dŷ arall. Bydd y rhai hynny sy'n gwneud cais ar eich ôl chi oddi tanoch (gan gymryd bod angen yr un math o dŷ arnynt yn yr un ardal).

8.2 A fedraf i golli fy nyddiad amser aros?

Medrwch, gall hyn ddigwydd:

- Os yw eich cais wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr dai (gweler **8.10**)

- Os yw eich cais yn cael ei ganiatáu oherwydd bod eich blaenoriaeth yn gostwng (gweler **9.11**)
- Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio eich blaenoriaeth am dŷ (o fewn un mis calendr o'r newid, os nad ydych yn cysylltu â ni, ee nid ydym yn y broses o osod tŷ i chi) (gweler **8.6**)
- Os nad ydych yn ymateb i gais am gadarnhad o'ch amgylchiadau cyfredol (gweler **8.7**);
- Os nad ydych yn ymateb i gais i adnewyddu eich cais (gweler **8.12**): neu
- Os ydych yn cael eich rhoi yn y band blaenoriaeth 'brys' ac yn gwrthod cynnig o denantiaeth (gweler **11.7**).

Os ydym ni wedi gostwng eich blaenoriaeth am dŷ drwy atal eich cais (gweler **9.12**) bydd eich dyddiad amser aros yn cael ei ddiwygio i'r dyddiad y byddwch unwaith eto'n gymwys i gael cynnig tŷ (gan dybio y bydd eich cais yn cael ei 'ddi-atal'). Mae hyn yn golygu y bydd eich cais yn mynd i waelod y band perthnasol pan gaiff eich cais ei ddiatal.

8.3 Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?

Mae modd i ni roi dyddiad amser aros gwahanol i chi os oes amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, gallem roi dyddiad cynt i chi os bu oedi afresymol wrth i ni brosesu eich cais ac nad oedd hyn a wnelo â dim yr oeddech chi wedi'i wneud, e.e. methu rhoi gwybodaeth neu ddogfennau.

8.4 Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?

Byddwch yn symud i fyny'r rhestr aros yn raddol wrth i ymgeiswyr eraill sydd â'r un band blaenoriaeth a dyddiadau amser aros cynt symud i dŷ arall neu fynd oddi ar y rhestr. Medrwn roi cyngor i chi ar faint o eiddo o'r math y mae ei angen arnoch oedd eisoes ar gael a faint o bobl sydd o'ch blaen ar y rhestr mewn ardal benodol (gweler **4.4**). Gall hyn fod o gymorth i chi benderfynu a ydych yn dymuno aros am dŷ cymdeithasol, ystyried opsiynau eraill neu ystyried ardaloedd gosod eraill (gweler **4.1**) neu fathau eraill o dai (gweler **4.8**).

8.5 A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?

Na fyddwch. Ni allwn warantu y cewch gynnig tŷ, hyd yn oed os cewch eich derbyn ar y rhestr aros. Yn anffodus, mae mwy o bobl yn dymuno tai nag sydd yno dai ar gael.

8.6 Beth fydd yn digwydd os yw fy sefyllfa'n newid?

Os yw eich sefyllfa'n newid, rhaid i chi roi gwybod i ni. Os dowch yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai gael effaith ar eich blaenoriaeth am dŷ, a fydddech cystal â dweud wrth Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Adran Tai'r Cyngor. Er enghraifft, rhaid i chi ddweud wrthym os:

- Ydych yn symud cartref

- Yw rhywun yn gadael eich aelwyd neu'n ymuno â hi ▪ Yw eich incwm neu eich sefyllfa ariannol yn newid.

Os nad ydych yn dweud wrthym fod eich sefyllfa'n newid efallai y byddwn yn canslo'ch cais (gweler **8.10**). At hyn, efallai na fyddem yn medru cynnig eiddo i chi pan gyrhaeddwch frig y rhestr (gweler **10.8**). Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddod am gyfweliad opsiynau tai a chyflwyno gwybodaeth a dogfennau cefnogol os bydd eich sefyllfa'n newid.

8.7 Oes sefyllfaoedd lle y bydd angen efallai i mi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweliad er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cynnig o dŷ?

Oes. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweliad:

- Os ydym yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y bydd angen i ni efallai dynnu eich cais oddi ar y gofrestr tai.
- Os ydym yn derbyn gwybodaeth yn awgrymu y bydd angen i ni efallai ostwng eich blaenoriaeth ar y rhestr aros.

Nid yw'r rhestr uchod yn un derfynol.

Gallwn dynnu eich cais oddi ar y gofrestr tai os nad ydych yn darparu'r wybodaeth yr ydym ei hangen neu os nad ydych yn mynychu cyfweliad (gweler **8.10**).

8.8 Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel nad wyf yn cymhwyso am gynnig o dŷ?

Oes. Efallai y byddwn yn gohirio eich cais neu'n tynnu achos o osod yn ei ôl os:

- Ydym wedi derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu bod eich sefyllfa o bosib wedi newid ac na fedrwch mwyach fod yn gymwys ar gyfer tŷ, nac am eich statws blaenoriaeth band.
- Os ydych yn denant tŷ cymdeithasol a heb godi cyflwr eich cartref neu eich gardd i'r safon ofynnol.
- Nid ydych mewn sefyllfa i gymryd llety e.e. oherwydd eich bod yn yr ysbyty, yn y ddalfa neu mewn sefydliad.
- Credwn fod modd o bosib i un o'r sefyllfaoedd yn **8.10** fod yn berthnasol ond nad ydym wedi penderfynu eto

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthyf os byddwn yn gohirio'ch cais (neu'n tynnu'n ôl achos o osod). Byddwn yn rhoi gwybod i chi'r rhesymau am y penderfyniad. Byddwn hefyd yn dweud wrthyf os bydd gofyn i chi roi gwybodaeth neu wneud rhywbeth cyn bod modd i'ch cais fynd yn weithredol unwaith eto.

8.9 A fedraf ofyn i fy nhais gael ei atal os nad wyf eisiau cynnig o dŷ tan rhywbryd yn y dyfodol?

Nid yw hyn yn cael ei ganiatáu fel arfer. Mae'r gofrestr tai ar gyfer pobl sydd angen tŷ *rŵan*. Efallai y byddwn yn gwneud eithriad os nad oes modd i chi dderbyn cynnig o dŷ oherwydd sefyllfa *dros dro* sy'n eich rhwystro rhag derbyn tŷ ond eich bod yn parhau i fod angen llety, e.e.:

- Rydych wedi gorfod mynd i'r ysbyty.
- Rydych yn y ddalfa.

8.10 Oes sefyllfaedd lle mae modd tynnu fy nghais oddi ar y Gofrestr Tai?

Oes. Medrwn o bosib dynnu eich cais oddi ar y rhestr aros os:

- Ydych yn gwrthod dau gynnig rhesymol o lety (gweler **11.8**).
- Ydych yn gofyn i ni dynnu'ch cais yn ei ôl
- Ydi'ch sefyllfa'n newid ac nid oes gennych hawl i aros ar y Gofrestr Tai (gweler **6.1**).
- Ydych yn dal gwybodaeth yn ei hôl neu'n methu rhoi gwybodaeth i ni yr ydym wedi gofyn i chi ei rhoi yng nghyswllt eich cais.
- Nad ydych yn cydymffurfio â'n 'gofynion gweithdrefnol' (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn).
- Nad ydych yn ymateb i ni pan ydym wedi ceisio cysylltu â chi e.e. cais i chi gadarnhau eich amgylchiadau a'ch bod yn dymuno aros ar y Gofrestr Tai (gweler **8.12**).
- Ydych yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yng nghyswllt eich cais, a hynny'n fwriadol neu'n fyrbwyll
- Nad ydych yn gymwys i gael tŷ (gweler **adran 6**).
- Rydych yn derbyn cynnig o lety wedi i lety gael ei ddyrannu.

8.11 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?

Os ydych o bosib yn colli eich cartref, mae'n bwysig cysylltu â ni cyn gynted â phosib. Byddwn yn medru rhoi cymorth a chynghor i chi. Efallai bod gennych hawl i gymorth dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Os byddwch yn dod yn ddigartref efallai y bydd angen i ni drefnu llety dros dro i chi. Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar (01248) 752200 cyn gynted ag y credwch y byddech yn ddigartref. Fel arfer, byddant yn gwneud apwyntiad gyda swyddog opsiynau tai.

8.12 A oes rhaid i mi adolygu fy nghais yn rheolaidd?

Oes. Bydd angen i chi adnewyddu'ch cais neu wneud ail gais yn rheolaidd. Mae angen i ni gadw cofnod cywir o bobl sy'n dymuno tŷ cymdeithasol ac sy'n parhau i fod yn

gymwys. Byddwn yn cysylltu gyda chi os oes angen i chi adnewyddu'ch cais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yr ydych wedi eu rhoddi i ni. Gofynnir i chi gadarnhau eich sefyllfa gyfredol pan fyddwn yn adolygu'ch cais.

Os na fyddwch yn ymateb neu'n peidio â rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom, byddwn yn eich tynnu oddi ar y Gofrestr. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi. Gallwch ofyn i ni adolygu unrhyw benderfyniad i'ch tynnu oddi ar y rhestr aros (gweler **adran 12** am ychwaneg o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

9. SUT MAE'R SYSTEM BANDIO'N GWEITHIO?

- 9.1 Beth yw bandio?
- 9.2 Sut mae bandio'n gweithio?
- 9.3 Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?
- 9.4 Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?
- 9.5 Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol?
- 9.6 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer y Band 'Brys'?
- 9.7 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 1?
- 9.8 Oes modd i mi gymhwyso am Fand 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?
- 9.9 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 2?
- 9.10 9.10 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 3?
- 9.11 Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng?
- 9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei gostwng?
- 9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?
- 9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?
- 9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan 9.11?
- 9.16 Oes sefyllfaoedd pryd gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?

9.1 Beth yw bandio?

Rydym yn defnyddio bandio i benderfynu pa flaenoriaeth sydd gennych am dŷ. Mae bandio'n ein helpu i sgorio'ch cais yn erbyn cais pawb arall y mae ganddynt hawl mynd ar y Gofrestr Tai. Mae'r flaenoriaeth y mae hawl gennych iddi'n dibynnu ar y canlynol:

- Oes brys mawr am dŷ arnoch ;
- Oes gennych gysylltiad lleol; a
- Pa mor hir yr ydych wedi'i dreulio'n aros am dŷ cymdeithasol.
- Dim angen am dy – os nad oes gennych angen am dy ond mae gennych gysylltiad gydag Ynys Mon mae'n bosib i chi gael ei cofrestru a'ch rhoi yn Band 3. Os nad oes gennych angen am dy a dim cysylltiad gydag Ynys Mon ni fyddwch yn cael ei cofrestru neu bydd eich cais yn cael ei ganslo maes o law.

Os rydych yn cael ei rhoi yn Band 3 mae'n bosib byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer 'eiddo barod i'w osod lle nad oes ymgeiswyr cymwys yn Bandiau Brys i 2.

9.2 Sut mae bandio'n gweithio?

Ceir pedwar band. Os ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr byddwn yn dyfarnu band i chi sy'n adlewyrchu eich sefyllfa benodol chi.

Dyma'r bandiau, gyda'r flaenoriaeth yn gostwng wrth fynd i lawr:

- Band Brys
- Band 1
- Band 2
- Band 3

Mae modd i chi ganfod pa fand yr ydych yn gymwys ar ei gyfer trwy edrych ar **9.6** i **9.10**.

9.3 Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?

Ym mhob band blaenoriaethir ceisiadau wrth yr amser y mae pawb wedi'i dreulio'n disgwyl am dŷ cymdeithasol (yn unol â 'dyddiad amser aros' ymgeiswyr; gweler **8.1**).

9.4 Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?

Mae angen cysylltiad lleol arnoch i chi gael eich dyfarnu â blaenoriaeth Band Brys Band 1 a Band 3 (gweler **7.1**, **9.5**, **9.6** a **9.10**).

9.5 Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon?

Mae gennych gysylltiad gydag ardal Môn os ydych chi neu aelod o'ch aelwyd:

- Yn byw yn yr ardal fel arfer am bum mlynedd (ar unrhyw adeg), neu
- Â chysylltiadau teuluol â'r ardal. Cyfyd cysylltiadau teuluol fel arfer pan fo gan rywun riant, plentyn sy'n oedolyn, brawd neu chwaer sydd yn byw yn yr ardal ers o leiaf bum mlynedd adeg dyddiad y cais ac rydych chi a'r perthyn agos dan sylw sy'n byw'n agos yn datgan dymuniad i chi fod yn agos i'r perthyn, neu

- Yn rhoi cefnogaeth angenrheidiol neu'n ei dderbyn gan berson neu ddarparwr arbenigol yn yr ardal, neu
- Wedi bod yn gweithio yn yr ardal am bum mlynedd (ar unrhyw adeg), neu
- Wedi cael cynnig gwaith yn yr ardal ond eich bod chi neu'r aelod ag anabledd yn methu derbyn y cynnig oherwydd anhawster cael tŷ yn yr ardal sy'n ddigon addas (rhaid dangos tystiolaeth o'r anabledd a'r cynnig o waith), neu
- Angen symud i'r ardal fel bod aelod o'r aelwyd sydd ag anabledd yn medru mynd i'r ysgol neu gael cefnogaeth arbenigol, ond ei fod yn methu gwneud hynny oherwydd yr anhawster cael tŷ yn yr ardal sy'n ddigon addas (rhaid i'r angen fod yn ganlyniad i'r anabledd a rhaid dangos tystiolaeth o'r anabledd a'r angen i symud i'r ardal), neu
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn un ai gweithio neu'n byw yn yr ardal;
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog sydd ddim yn gweithio nac yn byw yn yr ardal ar hyn o bryd ond wedi bod yn byw yn yr ardal yn y gorffennol, gan gynnwys byw yno yn sgil cael eich/ei anfon yno yn y gorffennol pan oeddech/oedd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.
- O fewn Band lle mae cysylltiad âg Ynys Mon ei angen byddwch yn cael eu blaenoriaethu ar sail y canlynol: Rydych chi, neu aelodau'r teulu, wedi preswyllo am 5 mlynedd neu fwy yn ardal Cyngor Cymuned ymhle y mae'r ty sydd i'w osod wedi'i leoli. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Os nad oes unrhyw un o'r ceisiadau yn cyrraedd y meini prawf uchod, bydd ceisiadau lle mae'r ymgeisydd wedi preswyllo llai na 5 mlynedd (neu heb breswyllo o gwbl) yn ardal y Cyngor Cymuned lle mae'r eiddo sydd i'w osod wedi'i leoli yn cael eu hystyried. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddwch wedi byw mewn cymuned gyfagos gario eich preswyliaeth i gymuned arall. Gall hyn ddigwydd dim ond pan fo angen llety arbenigol nad yw ar gael yn eu cymuned bresennol ac mae ar gael mewn cymuned gyfagos. Byddai llety arbenigol yn cynnwys tai gwarchod, tai hygyrch neu dai sy'n darparu gwasanaeth penodol ac arbenigol.

9.6 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer y band 'Brys'?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer band 'Brys' os oes:

- Angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), a bod

- Gennych gysylltiad gydag Ynys Mon (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon).

Cedwir y Band Brys ar gyfer achosion brys mawr. Ychydig iawn o ymgeiswyr sy'n debygol o gael y statws hwn.

BAND BRYs	
1)	<p>Angen brys sy'n gysylltiedig ag achos meddygol, lles neu anabledd</p> <p>Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Â chyflwr meddygol sy'n rhoi bywyd yn y fantol neu sy'n debygol o wneud hynny ac mae'r llety cyfredol (neu'r ffaith nad oes llety) yn cael effaith andwyol sylweddol ar y cyflwr, neu mae symud tŷ am wella'r cyflwr yn sylweddol; (b) Wedi cael ei asesu fel rhywun y mae angen ei symud ar frys i eiddo addas; (c) Â salwch corfforol neu feddyliol, anabledd, cyflwr meddygol neu anhwylder ymddygiadol difrifol, sy'n peri problem iddo ef neu i uned yr aelwyd, fel ei fod yn methu'n llwyr ag ymdopi â'i lety presennol a byddai symud yn lliniaru'r broblem. Er enghraifft, salwch terfynol neu gyflwr datblygedig sy'n gwaethygu; (d) Yn yr ysbyty ac yn methu dychwelyd adref oherwydd bod y llety'n gwbl anaddas i'w anghenion tymor hir oherwydd dyluniad, lleoliad a/neu yn anaddas ar gyfer addasiadau sy'n ofynnol oherwydd anabledd; (e) Yn anabl ac yn methu cael cyfleusterau hanfodol yn yr eiddo, er enghraifft lle mae'n anaddas ar gyfer cael bath neu fynd i'r toiled neu fynd i mewn i'r eiddo ei hun. Nid oes modd addasu'r eiddo'n economaidd i gwrdd â'i anghenion. (f) Angen symud i roi cefnogaeth i berson â salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol ac nid oes modd i'r person hwnnw ymdopi yn ei lety presennol heb gefnogaeth yr ymgeisydd; neu (g) Sy'n byw mewn llety sy'n orlawn sy'n gadael y person yn agored i haint a fyddai o bosib yn angheuol neu'n ddifrifol iawn, er enghraifft lle mae'n dioddef o gyfnod hwyr HIV. <p>Yn yr achosion hyn, bydd gofyn cael tystiolaeth i ddangos bod yr hawliad yn ddilys.</p>
2)	<p>Colli cartref yn sgil trychineb</p> <p>Ymgeiswyr sy'n colli eu cartref yn sydyn ac yn barhaol yn sgil trychineb ac sydd â chyfle rhesymol o gael tŷ mewn cyfnod byr.</p>
3)	<p>Gadael y lluoedd arfog neu gael anaf difrifol wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Ymgeisydd y mae angen iddo symud i lety sydd wedi'i addasu'n addas oherwydd salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol y bu iddo neu aelod o'i aelwyd ei gael yn sgil gwasanaethu yn y lluoedd arfog (b) Ymgeisydd y mae angen llety arno oherwydd ei fod yn gadael y lluoedd arfog ac yn colli llety milwrol. Caiff pobl sydd wedi gadael y lluoedd arfog dan y drefn 'Rhyddhau yn ôl ei Hawl' (DAOR) eu heithrio o'r ddarpariaeth hon ac ni roddir iddynt statws band angen brys am dŷ.
4)	<p>Pobl sy'n cael llety gan lywodraeth leol mewn gofal neu dŷ â chymorth cymeradwy ac yr ystyrir eu bod yn barod i 'symud ymlaen'</p>
5)	<p>Mae angen tŷ cymdeithasol ar frys ar yr aelwyd i atal plentyn rhag gorfod mynd i ofal neu aros mewn gofal</p>

Ymhlith esiamplau mae:

- (c) Rhieni maeth y mae angen llety arnynt ar frys er mwyn cymryd plentyn.
- (d) Achosion lle mae cynllun gofal plentyn wedi nodi bod angen llety i atal y plentyn rhag gorfod cael gofal llywodraeth leol (er enghraifft, plentyn mewn angen / plentyn sy'n derbyn gofal / amddiffyn plant).

6) **Tenantiaid sydd gan un ystafell wely neu fwy yn ormod i nifer y bobl yn y tŷ ac sy'n dymuno trosglwyddo i eiddo llai neu sy'n byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu nad oes ei angen arnynt, ar yr amod bod un o'r isod yn berthnasol:**

- (e) Maent yn dioddef caledi ariannol (yn achos tenantiaid tai cymdeithasol sy'n byw mewn tai sy'n rhy fawr); neu
- (f) Wrth iddynt symud byddai'n debygol o ryddhau eiddo i rywun sydd mewn angen (yn achos tenantiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n rhy fawr a thenantiaid sydd ddim angen eu heiddo wedi ei addasu mwyach).

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â thenantiaeth tŷ cymdeithasol ym Môn gyda landlord sy'n bartner.

7) **Digartref oherwydd camdriniaeth neu fygythiad o gamdriniaeth**

Y rhai hynny mae gan Gyngor Sir Ynys Môn un o'r dyletswyddau digartrefedd isod tuag atynt:

- (g) Dyletswydd adran 73 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014; neu
- (h) Dyletswydd adran 75 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac y mae angen tŷ ar frys arnynt oherwydd:
- (aa) camdriniaeth y tu mewn i ystyr 58 Deddf 2014 (yn achos dyletswyddau adran 73 a 75).

Mae hyn yn cynnwys

- dioddefwyr trais yn y cartref neu drais arall (achosion hynny sydd yn cael eu trafod yn MARAC)
- dioddefwyr digwyddiadau casineb
- tystion trosedd, neu dioddefwyr trosedd, fyddai mewn risg o gael eu brawychu sydd yn golygu trais neu bygythiad o drais os busech yn aros yn eich cartref

8) **Achos eithriadol o angen brys lle na ymdrinnir ag amgylchiadau na brys yr amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn**

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un sydd ag angen eithriadol am dŷ a lle mae statws band brys wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaet

9.7 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 1?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band 1 os oes:

- (i) Angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), a bod
- (ii) Gennych gysylltiad gydag Ynys Môn (gweler 9.5 am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Môn).

BAND 1

9) **Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, ac eithrio lle mae rheswm i gredu eu bod mynd yn ddigartref yn fwriadol, fel y diffinnir yn adran 77 Deddf 2014.**

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd ag angen â blaenoriaeth ac sydd â ddim angen â blaenoriaeth, ar yr amod nad oes rheswm i gredu eu bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol (hyd yn oed mewn achos lle nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto dan Ran 2 Deddf 2014 ynghylch a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref).

Mae'r diffiniad o ddigartrefedd a ddefnyddir wedi'i gynnwys yn adrannau 55 i 57 Deddf Tai (Cymru) 2014. Dan y diffiniad hwn mae person yn ddigartref os nad oes ganddo lety y mae ganddo hawl byw ynddo ac sy'n ffisegol ac yn gyfreithiol ar gael iddo fyw ynddo ac sy'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo. Mae hyn yn cynnwys yr isod:

- (a) Person nad oes ganddo lety i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig nac yn unman arall, y mae
- (i) ganddo hawl i fyw ynddo oherwydd diddordeb ynddo neu oherwydd gorchymyn llys;
 - (ii) ganddo drwydded bendant neu ymhlyg i fyw ynddo; neu
 - (iii) y mae'n byw ynddo fel man preswyllo yn sgil unrhyw ddeddf neu reol cyfraith sy'n rhoi i'r person yr hawl i aros yn y tŷ, neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adfer meddiant.
- (b) Mae person yn ddigartref hefyd os oes ganddo lety ond
- (i) Ni all sicrhau mynediad iddo, neu
 - (ii) Mae'n cynnwys strwythur, gerbyd neu gynhwysydd a fwriadwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac nid oes man lle mae gan y person hawl neu mae ganddo ganiatâd i'w roi yn rhywle a byw ynddo.

Ni ymdrinnir â pherson fel bod ganddo lety, oni bai ei fod yn llety y byddai'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo, fel y diffinnir dan adran 57 Deddf 2014.

Ni chaiff llety ei ystyried fel llety sydd ar gael i fyw ynddo onid yw ar gael i'r person hwnnw fyw ynddo ynghyd â:

- (aa) Person sydd fel arfer yn byw gydag o fel aelod o'i deulu, neu
- (bb) Unrhyw berson arall y byddai o bosib yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gydag o.

Fel arfer, rhoddir y statws hwn gan Swyddog Opsiyau Tai yn sgil asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mewn achos lle mae ymgeisydd yn ddigartref a bod rheswm i gredu ei fod efallai'n fwriadol ddigartref, efallai y bydd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth is dan gategoriâu **18** neu **19** ym Mand 3.

10) **Ymgeiswyr y mae, oherwydd eu bod yn ddigartref neu wedi'u bygwth gyda digartrefedd:**

- **ddyletswydd iddynt dan adran 66 Deddf 2014 a bod dim rheswm i gredu eu bod wedi cael eu bygwth gyda digartrefedd yn fwriadol;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 73 Deddf Tai (Cymru) 2014 a bod dim rheswm i gredu eu bod yn fwriadol ddigartref; dyletswydd iddynt dan adran 75 Deddf 2014; dyletswydd i sicrhau eiddo i ymgeiswyr mewn angen ac**

iddo flaenoriaeth (pan mae'r ddyletswydd yn adran 73 wedi dod i ben).

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr sydd:

- (a) dan fygythiad o fod yn ddigartref ac mae dyletswydd tuag atynt dan adran 66 i helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael iddynt, ar yr amod nad oes rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn fwriadol wedi'i fygwth â digartrefedd (er nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto o ran y cais digartrefedd ynghylch a yw'r ymgeisydd

yn fwriadol ddigartref ai peidio). Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd.;

- (b) yn ddigartref ac y mae dyletswydd tuag atynt dan adran 73 i'w helpu i gael llety ar yr amod nad oes rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn fwriadol ddigartref (er nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto o ran y cais digartrefedd ynghylch a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref ai peidio). Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;
- (c) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 75. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;
- (d) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 193(2). Yn yr achos hwn, cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw cyflawni'r ddyletswydd.

Lle mae ymgeisydd yn un ai ddigartref neu wedi'i fygwth gyda digartrefedd o fewn 56 diwrnod a bod rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn ddigartref (neu wedi ei fygwth â digartrefedd yn fwriadol) efallai y bydd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth lai dan gategoriâu **18 a 19** Band 2.

11) **Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfodddhaol**

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr isod:

- (a) Ymgeiswyr nad oes yr isod yn eu heiddo:
 - (i) Ystafell ymolchi gyda chyfleusterau neu mae'r chyfleusterau mewn lleoliad afiach, er enghraifft mewn cegin;
 - (ii) Cegin a/neu gyfleusterau coginio priodol;
 - (iii) Toiled yn y tŷ;
 - (iv) Cyflenwad dŵr oer neu boeth oherwydd nam yn yr eiddo;
 - (v) Cyflenwad trydan oherwydd nam gyda'r eiddo;
 - (vi) Cyflenwad nwy oherwydd nam gyda'r eiddo lle mae cyflenwad o'r fath yn ofynnol i weithredu gwasanaethau sydd eisoes yno neu wasanaethau angenrheidiol megis gwres.
- (b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tŷ gorlawn. Ystyrir bod llety'n orlawn os oes o leiaf un ystafell wely yn brin dan y diffiniad a ganlyn ar sail barhaol. Cymerir bod angen un ystafell wely ar gyfer pob un o'r isod yn aelwyd yr ymgeisydd:
 - (i) Un person neu gwpl 16 oed neu'n hŷn; a
 - (ii) Dau blentyn o'r un rhyw, lle mae'r ddau blentyn dan 16; a
 - (iii) Dau blentyn dan 10, waeth beth yw eu rhyw; ac
 - (iv) Unrhyw blentyn arallAt hyn, ystyrir y bydd ystafell wely'n angenrheidiol lle:
 - (v) Mae'r tenant neu ei bartner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gydag ef i aros dros nos, neu ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol; neu
 - (vi) Ei fod yn afresymol fod dau berson yn rhannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabled, ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol.
- (c) Ymgeiswyr sydd wedi'u cyfeirio at Dîm Gorfodi 'r Cyngor i gael tŷ arall oherwydd eu bod yn byw mewn llety yn y sector preifat lle ceir peryglon Categori 1 dan y System

Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, y mae'r Cyngor yn fodlon y dylai'r landlord neu'r trwyddedwr eu hunioni ond sy'n annhebygol o gael eu hunioni.

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n byw mewn llety afiach neu beryglus yn y sector preifat yn cael eu cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor (rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel bod modd datrys y broblem a'i gwneud yn bosib i'r ymgeisydd barhau i fyw yno lle bynnag y bo'n bosib.

Caiff peryglon Categori 1 a Chategori 2 eu hasesu dan Ran 1 Deddf Tai 2004 gan ddefnyddio'r System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Bydd swyddog ymchwilio Tîm Gorfodi'r Gwasanaethau Tai yn asesu'r eiddo i weld a oes ynddo beryglon Categori 1 a Chategori 2.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ymdrinnir â pheryglon yn anffurfiol drwy negodi gyda'r landlord. Oni fydd modd negodi ac oni cheir gwared â'r peryglon o fewn cyfnod rhesymol, bydd rhaid i Dîm Gorfodi'r gymryd unrhyw gamau gorfodaeth sydd, yn eu barn nhw, yn briodol lle mae perygl Categori 1 yn yr eiddo (er enghraifft, drwy gyflwyno rhybudd gorfodaeth neu rybudd ymwybyddiaeth o berygl). Yn achos perygl Categori 2, gall Tîm Gorfodi'r gymryd camau priodol.

Mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio i Dîm Gorfodi oherwydd bod rheswm i gredu y gall fod amodau anfodddhaol yn yr eiddo a bod y Tîm Gorfodi o'r farn bod perygl Categori 1 yn yr eiddo a hynny i'r graddau bod **risg o niwed yn fuan iawn neu niwed difrifol** i'r sawl sy'n byw yn yr eiddo sy'n golygu bod angen cyflwyno un o'r mathau isod o Rybudd Gorfodaeth:

- (i) Camau Unioni Brys;
- (ii) Gorchymyn Gwahardd Brys; neu
- (iii) Orchymyn Gwahardd,

yna bydd y Tîm Gorfodi'n cyfeirio'r achos gydag argymhelliad y dylid rhoi blaenoriaeth iddo os, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, eu bod o'r farn y bodlonir y diffiniad uchod ac nad oes modd datrys y broblem o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Tîm Gorfodi i gysylltu gyda landlordiaid sector preifat lle mae problemau gyda chyflwr eiddo a cheisio eu datrys.

- (d) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n afiach neu ymgeiswyr sy'n byw mewn amodau anfoddhaol mewn tai cymdeithasol

Bydd swyddog tai yn ymweld ag unrhyw ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar Ynys Môn mewn amodau afiach neu anfoddhaol. Fel arfer, gwneir ymholiadau gyda'r landlord fel y gellir datrys y broblem fel y gall yr ymgeisydd, os yw hynny'n bosibl, aros yn eu llety presennol.

Os bydd y Tîm Gorfodi'n fodlon na fydd yr amodau'n cael eu gwella o fewn cyfnod rhesymol o amser, gellir dyfarnu blaenoriaeth.

12. **Pobl sy'n rhannu llety**

Mae'r categori hwn yn cynnwys:

- (a) Ymgeiswyr sy'n rhannu cyfleusterau gyda deiliaid nad ydynt yn rhan o aelwyd yr ymgeisydd ar sail barhaol. Mae hyn yn golygu rhannu cegin, ystafell ymolchi/cawod neu doiled.

13. **Pobl sydd yn rhentu yn breifat ar Ynys Mon ac yn cael materion fforddiadwyedd**

Bydd angen i chi ddangos nad yw ty preifat cyfredol yn fforddiadwy ac nad oes dewis arall fforddiadwy yn y sector breifat.

14. **Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les**

Mae'r categorïau isod o ymgeiswyr yn gymwys:

- (a) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun â chyflwr meddygol sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â thŷ anaddas a lle mae'n angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'r iechyd yn sylweddol.
- (b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n creu anhawster i aelod o'r aelwyd gyda mynediad i'r eiddo - anawsterau a fyddai'n cael effaith andwyol ar les person fel nad oes modd eu datrys yn yr eiddo cyfredol ac y caent eu lliniaru'n sylweddol pe byddent yn cael tŷ arall addas.

Bydd achosion o'r fath yn cael eu hasesu yn sgil cyngor gan ymarferwr perthnasol i ganfod a oes angen i'r person symud i eiddo addas o fewn y diffiniad uchod.

- (c) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys person sydd ag anghenion gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael eu bodloni a'i bod yn angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'i ofal yn sylweddol.

15. Tenantiaid sydd eisoes yn byw mewn tai cymdeithasol ond sydd ag un ystafell wely neu fwy yn ormod ac sy'n dymuno symud i eiddo llai

Rhaid i ymgeiswyr fod â thenantiaeth tŷ cymdeithasol ar Ynys Môn gyda landlord sy'n bartner. Efallai y bydd tenantiaid tai cymdeithasol sydd yn dioddef caledi ariannol oherwydd eu bod yn byw mewn tŷ sydd yn rhy fawr yn gymwys am flaenoriaeth uwch yn y band 'Brys' os ydynt ag angen tŷ dan **gategori 6**.

16. Pobl y mae angen iddynt symud i fan penodol yn yr ardal, lle bydd methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n peri caledi (iddyn nhw eu hunain ac i eraill)

Ymhlith enghreifftiau mae:

- a. Bydd methiant i symud i'r ardal benodol yn peri caledi ariannol eithriadol
- b. Mae'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd mewn perygl o fynd i ofal preswyl neu i ysbyty oni fydd yn symud i dŷ arall yn yr ardal benodol honno.
- c. Mae angen i'r ymgeisydd symud i'r ardal benodol oherwydd bod perthynas wedi torri i lawr a bod angen diogelu a hyrwyddo lles plentyn (plant) cysylltiedig
- d. Mae'r ymgeisydd yn 'blentyn perthnasol' dan Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2000, wedi gadael gofal, yn fregus ac mae ganddo angen uchel am dŷ ac y bodlonir hynny orau trwy ddarparu tŷ sefydlog, tymor hir yn yr ardal benodol.
- e. Mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd gyflogaeth barhaol sy'n parhau, neu gynnig o gyflogaeth barhaol na fedr ei dderbyn oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.
- f. Mae'r ymgeisydd yn rhoi neu'n derbyn cefnogaeth hanfodol ac nid oes modd cyflawni'r gefnogaeth hon oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.
- g. Mae yr ymgeisydd wedi bod yn byw mewn fflat hyd at 2 dwy flynedd ac hefo 1 plentyn neu fwy sydd dan 11 mlwydd oed

17. Achos eithriadol o angen am dŷ ar frys lle na ymdrinnir â'r amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un y mae ei angen am dŷ yn eithriadol a lle mae statws band 1 wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

9.8 Oes modd i mi gymhwyso ar gyfer Band 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?

Nac oes. Os ydym wedi penderfynu eich bod yn ddigartref ond eich bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer Band 1. Dyma yw'r achos hyd yn oed os caiff y sefyllfa ei diogelu gan un o'r categorïau Band 1 eraill ac mae gennych gysylltiad lleol. Yn lle hynny, byddwch yn cael statws Band 2 (gweler categorïau **18** i **19** Band 2 yn **9.10**). Byddwch yn cael eich diarddel o fod â blaenoriaeth dan unrhyw un o'r categorïau Band 1 am chwe mis. Mae'r chwe mis yn dechrau pan fyddwn yn penderfynu eich bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol. Efallai y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Tai'n penderfynu na ddylid mynnu ar hyn os oes amgylchiadau eithriadol.

Os byddwch yna'n cael tŷ a ddim yn ddigartref mwyach ni fyddwch yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth Band 3 dan gategori **22** neu **23** mwyach. Os yw eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai ac rydych yn gwneud ail gais am dŷ ar ôl 6 mis, efallai y cewch

statws blaenoriaeth Band 1 os yw eich sefyllfa wedi'i diogelu gan un o'r categorïau angen am dŷ a bod gennych gysylltiad lleol.

Os ydym ni wedi penderfynu eich bod yn ddigartref neu'n debygol o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ond bod gennym reswm i gredu eich bod wedi dod yn ddigartref (neu wedi eich bygwth gyda digartrefedd) yn fwriadol, ni fyddwch yn cymhwyso ar gyfer Band 1. Dyma fydd yr achos hyd yn oed os yw eich sefyllfa wedi ei chynnwys gan unrhyw un o'r categorïau eraill ym Mand 1 a bod gennych gysylltiad lleol. Yn lle hynny, byddwch yn cael statws Band 3 (gweler categorïau **18** a **19** ym Mand 3 yn **9.10**). Fodd bynnag, ni fyddwch o angenrheidrwydd yn cael eich gwahardd rhag cael blaenoriaeth dan unrhyw un o'r categorïau Band 1 am 6 mis (sef yr hyn a fyddai'n digwydd petai penderfyniad yn cael ei wneud yn ffurfiol ar adeg cynnal adolygiad o asesiad digartrefedd nad ydych yn gymwys i dderbyn y ddyletswydd ddigartrefedd 'lawn' dan adran 75 oherwydd eich bod yn fwriadol ddigartref).

9.9 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 2?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band 2 os:

*Oes angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), ac

*Nad oes gennych gysylltiad (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol).

*Mae rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol hon gyda Band 2. Rydych hefyd yn cymhwyso ar gyfer Band 23 os:

(a) Rydych:

- (i) angen tŷ oherwydd digartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd (fel y nodir yn **22** neu **23** isod), a
- (ii) Mae gennych gysylltiad lleol, ond
- (iii) Nid ydych yn gymwys ar gyfer band uwch oherwydd eich bod wedi dod yn ddigartref yn fwriadol neu oherwydd bod rheswm i gredu eich bod wedi dod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, yn fwriadol (gweler **9.8**).

(b) Rydych:

- (i) yn 55 oed neu'n hŷn ac wedi dweud yn benodol y byddai'n well gennych fyw mewn tŷ i berson hŷn (fel y nodir yn **25** isod), ac (iii) mae gennych gysylltiad lleol.

- (c) Rydych yn weithiwr amaethyddol sydd wedi cael ei dadleoli (gweler **24** isod), p'un a oes gennych gysylltiad lleol ai peidio.

18. Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae'r diffiniad o ddigartrefedd a ddefnyddir wedi'i gynnwys yn adrannau 55 i 57 Deddf Tai (Cymru) 2014. Dan y diffiniad hwn mae person yn ddigartref os nad oes ganddo lety y mae ganddo hawl byw ynddo ac sy'n ffisegol ac yn gyfreithiol ar gael iddo fyw ynddo ac sy'n rhesymol i barhau i fyw ynddo. Mae hyn yn cynnwys yr isod:

- (a) Person nad oes ganddo lety i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig nac yn unman arall, y mae
 - (i) ganddo hawl i fyw ynddo oherwydd diddordeb ynddo neu oherwydd gorchymyn llys;
 - (ii) ganddo drwydded bendant neu ymhlyg; neu
 - (iii) y mae'n byw ynddo fel man preswyllo yn sgil unrhyw ddeddf neu reol cyfraith sy'n rhoi i'r person yr hawl i aros yn y tŷ, neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adfer meddiant.
- (b) Mae person yn ddigartref hefyd os oes ganddo lety ond
 - (i) Ni all sicrhau mynediad iddo, neu
 - (ii) Mae'n cynnwys strwythur, gerbyd neu gynhwysydd a fwriadwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac nid oes man lle mae gan y person hawl neu mae ganddo ganiatâd i'w roi yn rhywle a byw ynddo.

Ni ymdrinnir â pherson fel bod ganddo lety, oni bai ei fod yn llety y byddai'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo, fel y diffinnir dan adran 57 Deddf 2014.

Ni chaiff llety ei ystyried fel llety sydd ar gael i fyw ynddo onid yw ar gael i'r person hwnnw fyw ynddo ynghyd â:

- (cc) Person sydd fel arfer yn byw gydag fel aelod o'i deulu, neu
- (dd) Unrhyw berson arall y byddai o bosib yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gydag o.

Fel arfer, rhoddir y statws hwn gan Swyddog Opsiynau Tai yn sgil asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd ag angen â blaenoriaeth a'r

sawl nad ydynt ag angen â blaenoriaeth (gan gynnwys y rheiny nad yw eu statws o ran blaenoriaeth yr angen wedi ei sefydlu), ac achosion lle mae gan yr awdurdod reswm dros gredu fod yr ymgeisydd efallai wedi dod yn ddigartref (neu wedi ei fygwth â digartrefedd) yn fwriadol).

19. Ymgeiswyr y mae, oherwydd eu bod yn ddigartref neu wedi'u bygwth gyda digartrefedd:

- **ddyletswydd iddynt dan adran 66 Deddf Tai (Cymru) 2014;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 73 Deddf 2014;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 75 Deddf 2014; neu**
- **mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd iddynt dan adran 193(2) Deddf Tai 1996.**

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr sydd:

- a) dan fygythiad o fod yn ddigartref ac mae dyletswydd tuag atynt dan adran 66 i helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael iddynt. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd.;
- b) yn ddigartref ac y mae dyletswydd tuag atynt dan adran 73 i'w helpu i gael llety. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;
- c) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r ddyletswydd 'lawn' yn ddyledus iddynt dan adran 75 i sicrhau llety parhaus. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;
- d) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 193(2) Deddf 1996. Yn yr achos hwn, cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw cyflawni'r ddyletswydd.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr yn cael y statws hwn gan swyddog opsiynau tai yn dilyn asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd mewn angen blaenoriaeth a'r rhai nad ydynt mewn angen blaenoriaeth (gan gynnwys y rheini nad yw eu statws blaenoriaeth wedi cael ei sefydlu eto), ac achosion lle mae gan yr awdurdod reswm i gredu bod yr ymgeisydd efallai yn ddigartref (neu dan fygythiad o fod yn ddigartref) yn fwriadol.

20. Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfoddhaol

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr isod:

- a) Ymgeiswyr nad oes yr isod yn eu heiddo:
 - (i) Ystafell ymolchi gyda chyfleusterau neu mae'r cyfleusterau mewn lleoliad afiach, er enghraifft mewn cegin;
 - (ii) Cegin a/neu gyfleusterau coginio priodol;
 - (iii) Toiled yn y tŷ;
 - (iv) Cyflenwad dŵr oer neu boeth oherwydd nam yn yr eiddo;
 - (v) Cyflenwad trydan oherwydd nam gyda'r eiddo;
 - (vi) Cyflenwad nwy oherwydd nam gyda'r eiddo lle mae cyflenwad o'r fath yn ofynnol i weithredu gwasanaethau sydd eisoes yno neu wasanaethau angenrheidiol megis gwres.

b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tŷ gorlaw. Ystyrir bod llety'n orlaw os oes o leiaf un ystafell wely'n brin dan y diffiniad a ganlyn ar gyfer pob un o'r personau a ganlyn yn aelwyd yr ymgeisydd:

- (i) Un person neu gwpl 16 oed neu'n hŷn; a
 - (ii) Dau blentyn o'r un rhyw, lle mae'r ddau blentyn dan 16; a
 - (iii) Dau blentyn dan 10, waeth beth yw eu rhyw; ac
 - (iv) Unrhyw blentyn arall

At hyn, ystyrir y bydd ystafell wely'n angenrheidiol lle:

- (v) Mae'r tenant neu ei bartner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gydag ef i aros dros nos, neu ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol; neu
- (vi) Ei fod yn afresymol fod dau berson yn rhannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabled, ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol.

(c) Ymgeiswyr sydd wedi'u cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor i gael tŷ arall oherwydd eu bod yn byw mewn llety lle ceir peryglon Categori 1 dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, y mae'r Cyngor yn fodlon y dylai'r landlord neu'r trwyddedwr eu hunioni ond sy'n annhebygol o gael eu hunioni.

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n byw mewn llety afiach neu beryglus yn y sector preifat yn cael eu cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor (rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel bod modd datrys y broblem a'i gwneud yn bosib i'r ymgeisydd barhau i fyw yno lle bynnag y bo'n bosib.

Caiff peryglon Categori 1 a Chategori 2 eu hasesu dan Ran 1 Deddf Tai 2004 gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Bydd swyddog ymchwilio Tîm Gorfodi yn asesu'r eiddo i weld a oes ynddo beryglon Categori 1 a Chategori 2.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ymdrinnir â pheryglon yn anffurfiol drwy negodi gyda'r landlord. Oni fydd modd negodi ac oni cheir gwared â'r peryglon o fewn cyfnod rhesymol, bydd rhaid i Dîm Gorfodi gymryd unrhyw gamau gorfodaeth sydd, yn eu barn nhw, yn briodol lle mae perygl Categori 1 yn yr eiddo (er enghraifft, drwy gyflwyno rhybudd gorfodaeth neu rybudd ymwybyddiaeth o berygl). Yn achos peryglon Categori 2, gall Tîm Gorfodigymryd camau priodol.

Mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio i Dîm Gorfodi oherwydd bod rheswm i gredu y gall fod amodau anfodddhaol yn yr eiddo a bod y Tîm Gorfodi o'r farn bod perygl Categori 1 yn yr eiddo a hynny i'r graddau bod **risg o niwed yn fuan iawn neu niwed difrifol** i'r sawl sy'n byw yn yr eiddo sy'n golygu bod angen cyflwyno un o'r mathau isod o Rybudd Gorfodaeth:

- (i) Camau Unioni Brys;
- (ii) Gorchymyn Gwahardd Brys; neu
- (iii) Orchymyn Gwahardd,

yna bydd y Tîm Gorfodi'n cyfeirio'r achos gydag argymhelliad y dylid rhoi blaenoriaeth iddo os, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, eu bod o'r farn y bodlonir y diffiniad uchod ac nad oes modd datrys y broblem o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Tîm Gorfodi i gysylltu gyda landlordiaid sector preifat lle mae problemau gyda chyflwr eiddo a cheisio eu datrys.

- (d) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n afiach neu ymgeiswyr sy'n byw mewn amodau anfoddhaol mewn tai cymdeithasol

Bydd swyddog tai yn ymweld ag unrhyw ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar Ynys Môn mewn amodau afiach neu anfoddhaol. Fel arfer, gwneir ymholiadau gyda'r landlord fel y gellir datrys y broblem fel y gall yr ymgeisydd, os yw hynny'n bosibl, aros yn eu llety presennol.

Os bydd y Tîm Gorfodi'n fodlon na fydd yr amodau'n cael eu gwella o fewn cyfnod rhesymol o amser, gellir dyfarnu blaenoriaeth.

21. Pobl sy'n rhannu llety

Ymgeiswyr sy'n rhannu cyfleusterau gyda deiliaid nad ydynt yn rhan o aelwyd yr ymgeisydd ar sail barhaol. Mae hyn yn golygu rhannu cegin, ystafell ymolchi/cawod neu doiled.

22. Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les

Mae'r categorïau isod o ymgeiswyr yn gymwys:

- (a) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun â chyflwr meddygol sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â thŷ anaddas a lle mae'n angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'r iechyd yn sylweddol.
- (b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n creu anhawster i aelod o'r aelwyd gyda mynediad i'r eiddo - anawsterau a fyddai'n cael effaith andwyol ar les person fel nad oes modd eu datrys yn yr eiddo cyfredol ac y caent eu lliniaru'n sylweddol pe byddent yn cael tŷ arall addas.

Bydd achosion o'r fath yn cael eu hasesu yn sgil asesiad gan ymarferwr perthnasol i ganfod a oes angen i'r person symud i eiddo addas o fewn y diffiniad uchod.

- (c) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys person sydd ag anghenion gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael eu bodloni a'i bod yn angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'i ofal yn sylweddol.

23. Pobl y mae angen iddynt symud i fan penodol yn yr ardal, lle bydd methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n peri caledi (iddyn nhw eu hunain ac i eraill)

Ymhlith enghreifftiau mae:

- (d) Bydd methiant i symud i'r ardal benodol yn peri caledi ariannol eithriadol
- (e) Mae'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd mewn perygl o fynd i ofal preswyl neu i ysbyty oni fydd yn symud tŷ i dŷ arall yn yr ardal benodol honno.
- (f) Mae angen i'r ymgeisid symud i'r ardal benodol oherwydd bod perthynas wedi torri i lawr a bod angen diogelu a hyrwyddo lles plentyn (plant) cysylltiedig
- (g) Mae'r ymgeisydd yn 'blentyn perthnasol' dan Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2000, wedi gadael gofal, yn fregus ac mae ganddo angen uchel am dŷ ac y bodlonir hynny orau trwy ddarparu tŷ sefydlog, tymor hir yn yr ardal benodol.
- (h) Mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd gyflogaeth barhaol sy'n parhau, neu gynnig o gyflogaeth barhaol na fedrant ei dderbyn oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.
- (i) Mae'r ymgeisydd yn rhoi neu'n derbyn cefnogaeth hanfodol ac nid oes modd cyflawni'r gefnogaeth hon oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.

24. Gweithwyr Amaethyddol sydd wedi eu dadleoli

Mae'r categori hwn yn berthnasol mewn achosion lle mae'r Tîm Opsiynau Tai, gan gymryd l ystyriaeth unrhyw gyngor a geir gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Anheddau Amaethyddol, yn fodlon:

- (j) Bod yr ymgeisydd yn weithiwr amaethyddol sy'n cael ei ddadleoli o annedd ar Ynys Môn,
- b)** Bod angen yr annedd y mae'r gweithiwr yn cael ei ddadleoli ohoni i ddarparu llety ar gyfer gweithiwr amaethyddol arall,
- c)** Ni fedr y ffermwr ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli, a
- d)** Mae angen canfod llety arall ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli er budd amaethyddiaeth effeithlon.

25. Ymgeiswyr sydd yn 55 oed neu'n hŷn sydd wedi mynegi y byddai'n well ganddynt fyw mewn cynlluniau tai sydd wedi eu neilltuo ar gyfer pobl hŷn ac sydd â chysylltiad lleol

Efallai y bydd ymgeiswyr sydd yn 55 oed neu'n hŷn yn gymwys am flaenoriaeth uwch dan gategori arall o angen am dŷ.

26. Achos o angen eithriadol am dŷ lle na ymdrinnir â'r amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un y mae ei angen am dŷ yn eithriadol a lle mae statws band 2 wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai neu uwch-reolwr.

9.11 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band Dim Angen Tai

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band dim angen tai os oes

- Gennych dim angen brys na angen am dy
- Mae gennych gysylltiad gydag Ynys Mon (gweler 9.5 am yr hyn sydd yn cyfrif fel cysylltiad lleol)

DIM ANGEN AM DY

27. Bydd Ymgeiswyr yn Band 3 yn cael eu hystyried am unhryw eiddo barod l'w osod pan na fydd ymgeiswyr cwmwys yn Band Brys i Band 2

9.12 Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng ?

Oes. Medrwn ostwng eich blaenoriaeth os ydym yn fodlon:

- Bod gennych ddigon o adnoddau ariannol i gwrdd â'ch anghenion tai (gweler **7.3** a **7.4**), neu
- Bod eich ymddygiad neu ymddygiad aelod o'ch aelwyd yn golygu eich bod yn anaddas i fod yn denant (gweler **Atodiad 4**);
- Bod gennych ddyledion sy'n gysylltiedig ag eiddo (megis ôl-ddyledion rhent, ôl-ddyledion treth y Cyngor, gordaliad budd-dal tai, dyled yn sgil difrod i'r eiddo ac ati) sydd dros £100 ac sydd un ai'n gysylltiedig â'ch cartref presennol neu hen gartref, ar yr amod bod modd adfer y ddyled yn gyfreithlon; neu
- Eich bod yn fwriadol wedi gwaethygu eich sefyllfa o safbwynt tai.

9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei ostwng?

Efallai y byddwn yn gostwng eich blaenoriaeth trwy:

- Ddyfarnu i chi flaenoriaeth band is nag y byddai gennych, fel arall, hawl iddi (gweler **9.6** i **9.10** am y bandiau blaenoriaeth)
- Addasu eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**)
- Eich atal dros dro rhag bod â hawl i gael tŷ (felly bydd eich cais yn cael ei 'basio heibio' pan fyddwn yn gosod tŷ y byddai gennych, fel arfer, hawl cael eich ystyried ar ei gyfer), neu
- Cyfuniad o'r uchod.

Er enghraifft, byddwn o bosib yn penderfynu fod gohirio dros dro'n briodol oherwydd bod arnoch ddyled i landlord sy'n bartner a bydd y gohirio'n rhoi cyfle i chi glirio'r

ddyled neu gytuno ar gynllun ad-dalu ac amser i ddangos y gallwch lynu wrth y cytundeb.

Os ydym yn addasu eich dyddiad amser aros efallai y byddwn yn penderfynu ei fod yn briodol dyfarnu dyddiad sy'n adlewyrchu pryd cafodd y mater 'tramgwyddus' ei ddatrys neu pryd codwyd gohiriad (gweler **8.2**).

9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?

Wrth benderfynu caniatáu cais ai peidio (dan **9.11**) a beth ddylai'r amodau fod (dan **9.12**) rydym yn trin pob achos yn ôl ei haeddiant ac yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Rydym hefyd yn ystyried bod angen cyflawni nodau polisi ehangach megis yr angen i gael tegwch rhwng ymgeiswyr, cydraddoldeb cyfle, cynhwysiad cymdeithasol, a bod angen symud tenantiaid sy'n byw mewn tai sy'n rhy fawr iddynt ac sy'n dibynnu ar fudd-daliadau tai i lety o faint addas.

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y byddem yn penderfynu na ddylid gosod amod er bod un o'r meini prawf yn **9.11** yn berthnasol. Os oes gennych ddyled sy'n gysylltiedig ag eiddo ac sydd dros £100 gallem benderfynu peidio â gostwng eich blaenoriaeth os ydych wedi cytuno i ostwng y ddyled trwy wneud taliadau rheolaidd ac wedi cadw at y cytundeb am gyfnod sylweddol. Mae'r arweiniad gweithdrefnol i swyddogion tai yn cynnwys arweiniad ar sut y gwneir penderfyniadau i ostwng blaenoriaeth (gweler **1.5**).

9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?

Bydd. Byddwn yn cadarnhau'n ysgrifenedig benderfyniad i ostwng eich blaenoriaeth ac yn gosod dyddiad pryd y byddwn yn adolygu'r gostyngiad mewn blaenoriaeth. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto os byddwn, wrth adolygu'r gostyngiad mewn blaenoriaeth, yn penderfynu y dylai'r gostyngiad mewn blaenoriaeth barhau. Pryd bynnag y byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthyf am benderfyniad ynghylch gostwng eich blaenoriaeth, byddwn hefyd yn dweud wrthyf am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **9.15** ac adran **12**).

9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan

9.11?

Oes. Os ydych yn dymuno i ni ailystyried y penderfyniad rhaid i ni dderbyn eich cais am adolygiad o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad (gweler **12.6**).

9.16 Oes sefyllfaoedd lle gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?

Pur anaml y mae hyn yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhoi rhywun mewn band uwch neu ddyfarnu amser aros cynt oherwydd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymhell hyn neu oherwydd disgwyliad cyfreithlon (addewid sy'n rhwymo mewn cyfraith) (gweler hefyd

10 SUT MAE'R LANDLORDIAID YN PENDERFYNU PWY SY'N DERBYN CYNIGION O LETY

- 10.1 Oes ffyrdd gwahanol y gallai ymgeiswyr gael eu dewis am dŷ?
- 10.2 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?
- 10.3 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y mae eiddo am gael ei osod?
- 10.4 A fedr landlord 'basio heibio' yr ymgeisydd sydd ar frig y rhestr aros?
- 10.5 Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?
- 10.6 Beth fydd yn digwydd os bydd y person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?
- 10.7 Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo gwag ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?
- 10.8 Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried gosod eiddo i mi?
- 10.9 Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth a'r amser aros ag ymgeisydd arall?

10.1 Oes gwahanol ffyrdd y gall ymgeiswyr gael eu dewis i gael tŷ?

Oes. Er enghraifft efallai bod eiddo penodol wedi'u cadw ar gyfer rhywun:

- Sydd â chysylltiad penodol â'r ardal y mae'r eiddo ynddi (gweler **adran 14**)
- Y mae angen eiddo arno sydd wedi'i addasu neu sy'n addas oherwydd anabledd corfforol (gweler **adran 13**)
- Sy'n cwrdd â meini prawf sy'n berthnasol i'r eiddo neu'r cynllun tai penodol hwnnw (gweler **4.16**), neu
- Sydd wedi gwneud cais penodol am eiddo penodol.

Nid oes gan rai eiddo feini prawf gosod penodol ac mae modd eu gosod i unrhyw un ar y rhestr aros (ar yr amod eu bod wedi dewis yr ardal osod honno ac yn cymhwyso ar gyfer math a maint yr eiddo).

10.2 Sut mae landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?

Pan ddaw eiddo ar gael byddwn yn penderfynu ar y dull i'w ddefnyddio i'w osod. Os yw eiddo wedi'i gadw ar gyfer math penodol o ymgeisydd (gweler **4.15** a **10.1**) byddwn yn defnyddio'r dull hwnnw i ddewis i bwy y dylai'r tŷ gael ei osod.

Mae modd i'r landlordiaid sy'n bartneriaid newid y dulliau gosod a ddefnyddir i osod cynlluniau tai neu eiddo penodol, ond byddant yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Tai

fel y gellir rhoi cyngor priodol i gwsmeriaid ac fel bod modd diwygio'r canllawiau gweithdrefnol.

10.3 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y mae eiddo am gael ei osod?

Ni sy'n penderfynu:

- (a) Pa ddull gosod a gaiff ei ddefnyddio (gweler **10.1**).
- (b) Pa ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r meini prawf gosod penodol (os oes rhai).
- (c) Pa ymgeiswyr sy'n cymhwys ar gyfer y math a'r maint hwnnw o eiddo. Mae modd i landlordiaid sy'n bartneriaid nodi'n benodol a yw'r ystafelloedd gwely'n addas ar gyfer un person ynteu ddau.
- (d) Pa ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf. Ar gyfer eiddo nad oes iddynt feini prawf penodol golyga hyn, fel arfer, mai'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth band uchaf ac sydd wedi bod yn disgwyl y cyfnod hwyaf (yn ôl ei ddyddiad amser aros, gweler **8.1** a **9.3**) yw hwn.

10.4 A fedr landlord 'basio heibio' yr ymgeisydd sydd ar frig y rhestr aros?

Gall. Fodd bynnag, ni fedr landlord ond gwneud hyn os caniateir hynny dan delerau'r cynllun gosod. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Nid yw maint yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo'n addas ar gyfer maint aelwyd yr ymgeisydd (gweler **10.3c**).
- Mae'r Tîm Opsiynau Tai'n penderfynu gohirio cais fel y gellir adolygu ei flaenoriaeth (gweler **8.8**).

Mae rhestr lawn o'r amgylchiadau lle gellir 'pasio heibio' ymgeiswyr a manylion am y weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn wedi eu cynnwys yn y callawiau ar gyfer staff sydd ar gael gyda'r polisi hwn (gweler **1.5**).

10.5 Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?

Mae modd i ni benderfynu gosod eiddo un ai cyn i'r eiddo ddod yn wag i'w osod neu wedi hynny. Weithiau rydym yn neilltuo'r eiddo cyn y bydd y tenant blaenorol wedi symud allan.

10.6 Beth fydd yn digwydd os yw'r person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?

Os yw'r ymgeisydd yr ydym yn ei ddewis ar gyfer eiddo yn ei wrthod, byddwn yn dewis rhywun arall oddi ar y Gofrestr Tai i gael yr eiddo. Ar gyfer eiddo nad oes iddynt feini prawf gosod penodol golyga hyn, fel arfer, mai'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf nesaf yn ôl statws band ac amser aros yw hwn.

10.7 Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?

Efallai na fyddem yn ystyried eich cais wrth benderfynu pwy ddylai gael ei ddewis. Efallai y byddem yn gwneud hyn os oeddech chi, aelod o'ch aelwyd, neu ymwelydd â'ch cartref, yn y gorffennol, yn gyfrifol am ymddwyn yn anghymdeithasol yn yr ardal y mae'r eiddo ynddo. Gallwn benderfynu eich 'pasio heibio' ar y rhestr aros wrth greu rhestr fer ar gyfer yr eiddo, hyd yn oed os credwn eich bod yn addas i fod yn denant (gweler **6.9**). Efallai y byddem yn eich cynghori i ystyried dewis ardaloedd gosod eraill os yw'r rheol hon yn debygol o gael effaith arnoch.

10.8 Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried rhoi tŷ i mi?

Byddwn. Gallwn adolygu ein hasesiad o'ch cais cyn y gosodir tŷ i chi neu y cynigir i chi denantiaeth. Os nad ydych wedi dweud wrthym am newid yn eich sefyllfa, efallai na allwn gynnig i chi denantiaeth, hyd yn oed os byddwn wedi gosod tŷ i chi. (gweler **8.6**).

10.9 Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth ac amser aros ag ymgeisydd arall?

Os oes gennyf yr un statws band blaenoriaeth ac amser aros ag ymgeisydd arall, byddwn yn defnyddio'n disgresiwn wrth benderfynu i bwy ddylid gosod yr eiddo. Byddwn yn ystyried amryfal ffactorau. Er enghraifft, efallai y caiff rhywun ei ffafrio oherwydd ei fod wedi treulio mwy o amser yn disgwyl am dŷ cymdeithasol cyn i'w statws band cyfredol gael ei ddyfarnu neu, efallai, oherwydd y byddai'n medru rhyddhau llety mwy neu oherwydd bod ganddo gysylltiad cryfach â'r ardal osod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Byddai modd i ni gymryd ffactorau eraill i ystyriaeth, gan ddibynnu ar y sefyllfa.

11 BETH FYDD YN DIGWYDD PAN GAF GYNNIG EIDDO?

- 11.1 Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?
- 11.2 Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?
- 11.3 Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?
- 11.4 Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?
- 11.5 Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynigir i mi?
- 11.6 Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?
- 11.7 Sawl cynnig oes modd i mi ei dderbyn?
- 11.8 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig o eiddo?
- 11.9 Beth sydd yn digwydd os credaf fod yr eiddo a gynigiwyd i mi yn anaddas?
- 11.10 Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?
- 11.11 A oes unrhyw sefyllfaoedd lle y gellir tynnu'n ôl gynnig o dŷ?
- 11.12 Mae fy nghais wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr tai oherwydd fy mod wedi gwrthod dau gynnig. Oes modd i mi wneud ail gais a mynd yn ôl ar y rhestr aros?

11.1 Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?

Os byddwn yn gosod eiddo i chi, fel arfer bydd un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn dweud wrthyich am hyn yn ysgrifenedig. Efallai y byddwn yn dweud wrthyich trwy lythyr neu e-bost.

Efallai y byddwn yn dweud wrthyich ar lafar i ddechrau (ee drwy eich ffonio). Os ydych yn gwrthod y cynnig bydd hyn yn cyfrif tuag at eich dau wrthodiad (gweler **11.7** a **11.8**) ar yr amod bod gennych hawl i'r eiddo.

11.2 Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?

Oes. Yna mae modd i chi ddewis a ydych yn dymuno derbyn neu wrthod y cynnig o denantiaeth.

11.3 Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?

Os chi yw'r ymgeisydd, mae modd i chi ofyn am gael tenantiaeth ar y cyd gyda'ch partner neu rywun arall yn eich aelwyd os ydyw'n:

- Gymwys ar gyfer dŷ (gweler **6.5** a **6.11**)
- yn 16 oed neu'n hŷn (os ydynt yn 16 neu'n 17 oed, bydd angen i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn)
- wedi'i gynnwys ar eich cais
- bwriadu byw yn yr eiddo a'i ddefnyddio fel ei unig dŷ a'i brif dŷ.

Os ydych wedi gofyn am denantiaeth ar y cyd, bydd y landlord yn penderfynu a fydd yn rhoi tenantiaeth ar y cyd i chi ai peidio. Os yw landlord yn penderfynu peidio â rhoi tenantiaeth ar y cyd i chi, bydd yn rhoi'r rhesymau am hyn i chi'n ysgrifenedig.

11.4 Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?

Oes. Bydd y landlord yn rhoi amser i chi i fynd i weld yr eiddo Bydd swyddog tai'n bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a fyddo gennych am yr eiddo. Fel arfer, byddai disgwyl i chi dderbyn neu wrthod bryd hynny.

11.5 Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynigir i mi?

Nac oes. Rydych yn rhydd i dderbyn neu wrthod unrhyw eiddo a gynigir i chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, y gallai gwrthod eiddo arwain at:

- Dynnu eich enw oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **11.8**), ac
- Y cyngor yn penderfynu bod unrhyw ddyletswydd sydd ganddo tuag atoch dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd wedi dod i ben

11.6 Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?

Rhaid i ni wneud yn siŵr fod eiddo'n cael eu gosod yn sydyn. O'r herwydd, bydd yn rhaid i chi benderfynu'n sydyn a ydych yn dymuno derbyn y cynnig o denantiaeth. Byddwn yn rhoi amser i chi erbyn pryd y bydd angen i chi roi gwybod i ni. Fel arfer pan fyddwch yn mynd i weld yr eiddo fydd hyn. Os na fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn dymuno derbyn neu wrthod o fewn yr amser yr ydym wedi'i roi i chi, efallai y byddwn yn penderfynu eich bod wedi gwrthod y cynnig (hy cymryd yn ganiataol o'ch ymddygiad, eich bod wedi gwrthod y cais).

11.7 Sawl cynnig y mae modd i mi ei dderbyn?

Mae modd i chi dderbyn hyd at ddau cynnig o lety os ydych wedi'ch dyfarnu â blaenoriaeth Band 1, 2, neu 3.

Os dyfarnwyd i chi'r Band Brys byddwch yn derbyn un cynnig cyn colli'r dyfarniad Band Brys. Os ydych yn gwrthod y cynnig hwnnw, byddwch yna'n cael eich rhoi ym Mand 1 ac yn gymwys ar gyfer un cynnig arall. Bydd eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**) yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r band newydd a ddyfarnwyd i chi .

Os bydd angen symud oherwydd bod angen symud ar sail trosglwyddo wedi ei reoli gan nad yw'r achos yn cael ei ddelio o fewn y Polisi, bydd un cynnig yn cael ei wneud.

11.8 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig o eiddo?

Os byddwch yn gwrthod dau gynnig byddwch yn cael eich rhoi yn Band 3 ar gyfer ceisiadau dim blaenoriaeth am gyfnod o 6 mis. Gwneir hyn i sicrhau tegwch ag ymgeiswyr eraill sydd hefyd angen tŷ. Ni fyddwch yn cael trydydd cynnig.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd y Rheolwr Opsiynau Tai neu uwch reolwr yn y Gwasanaethau Tai yn penderfynu peidio a'ch rhoi eich cais yn Band 3 a chymeradwyo cynigion pellach. Fodd bynnag, ni wneir hyn ond mewn amgylchiadau eithriadol.

11.9 Beth sydd yn digwydd os credaf fod y llety a gynigiwyd i mi'n anaddas?

Os ydych yn gwrthod eiddo o'r math yr ydych yn gymwys ar ei gyfer, mewn ardal o'ch dewis, bydd y gwrthodiad yn cyfrif fel un o'ch dau gynnig. Byddai'n rhaid cael amgylchiadau eithriadol i hyn beidio â bod yr achos.

11.10 Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?

Efallai y bydd sefyllfaoedd lle credwch na ddylai gwrthod eiddo gyfrif yn eich erbyn. Er enghraifft, os nad oedd yr eiddo yn un o'ch dewis ardaloedd, neu os ydych o'r farn na ddylech fod wedi cael cynnig y math hwnnw o eiddo. Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad eich bod wedi gwrthod cynnig neu y dylai gwrthodiad gyfrif yn eich erbyn, mae modd i chi ofyn i ni adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Os eich cynnig cyntaf oedd hwn, rhaid i chi ofyn am adolygiad o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y gofynnwyd i chi dderbyn neu wrthod y cynnig.

Os eich ail gynnig oedd hwn, rhaid i chi ofyn am adolygiad o fewn 21 diwrnod i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad bod eich enw wedi cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **adran 12** am fwy o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau.

11.11 A oes unrhyw sefyllfaoedd lle y gellir tynnu'n ôl gynnig o dŷ?

Oes. Gall fod sefyllfaoedd lle byddwn yn tynnu'n ôl gynnig o dŷ (neu gynnig tenantiaeth yn dilyn gosod tŷ). Er enghraifft, gellir tynnu'n ôl achos o osod neu gynnig o dŷ:

- Gall asesiad fforddiadwyedd ddangos eich bod yn cael eich asesu fel risg uchel o beidio allu fforddio'r ty, ar sail hyn gall y cynnig ei dynnu yn ol. Ni fydd hyn yn golygu na fyddwch yn derbyn cynnig arall am math o dai eraill.
- Os yw eich sefyllfa wedi newid ers y tro diwethaf i ni adolygu eich cais am dŷ ac nad oes hawl gennych mwyach i'r un flaenoriaeth ar y rhestr aros neu nad oes hawl gennych mwyach i fod ar y gofrestr tai.

- Os ydych yn denant tŷ cymdeithasol a heb godi cyflwr eich cartref neu eich gardd i'r safon ofynnol.
- O oes arnoch chi rent neu mae gennych ddyled sy'n gysylltiedig ag eiddo (gweler **9.11**).
- Os ydym yn dod yn ymwybodol eich bod chi, neu aelod o'ch aelwyd, wedi ymddwyn mewn modd sy'n eich gwneud yn anaddas i fod yn denant (gweler **6.8 a 6.9**).
- Os cafodd y tŷ ei osod neu'r cynnig ei wneud mewn camgymeriad.

12 EICH HAWL I OFYN AM I BENDERFYNIADAU GAEL EU HADOLYGU

- 12.1 Pa benderfyniadau oes modd i mi i ofyn i'r Cyngor eu hadolygu?
- 12.2 Beth yw ystyr categori 12.1(g)?
- 12.3 Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?
- 12.4 Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?

- 12.5 Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ynghylch fy nghais?
- 12.6 Sut wyf yn gofyn am adolygiad?
- 12.7 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?
- 12.8 Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?
- 12.9 Oes rhaid i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?
- 12.10 Pa weithdrefn fydd y Cyngor yn ei dilyn os gofynnaf am adolygiad?
- 12.11 Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?
- 12.12 Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad adolygu?
- 12.13 Sut fydd y penderfyniad ynghylch fy adolygiad yn cael ei wneud?
- 12.14 Sut byddwch yn rhoi gwybod i mi am benderfyniad yr adolygiad?
- 12.15 Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ar yr adolygiad?
- 12.16 Rwyf yn anfodlon gyda phenderfyniad yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?
- 12.17 Oes modd i mi gwyno am benderfyniad yr adolygiad?

12.1 Pa benderfyniadau y mae modd i mi ofyn i'r Cyngor eu hadolygu?

Mae modd i chi ofyn i'r Cyngor adolygu'r penderfyniadau a ganlyn:

- (a) Penderfyniad ynghylch y statws band blaenoriaeth uwch yr ydych â'r hawl iddo (gweler **9.6 i 9.10** am y grwpiau band)
- (b) Penderfyniad am eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**)
- (c) Penderfyniad nad oes gennych hawl mynd ar y Gofrestr Tai (gweler **Adran 6** am y rheolau ynghylch pwy gaiff fynd ar y Gofrestr Tai)
- (d) Penderfyniad y bydd eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **8.10**)
- (e) Penderfyniad bod eich blaenoriaeth wedi'i ostwng (gweler **9.11 a 9.12**)
- (f) Penderfyniad eich bod wedi gwrthod cynnig o dŷ (gweler **11.10**)
- (g) Penderfyniad y dylai gwrthod tŷ gyfrif fel un o'ch dau gynnig (gweler **11.10**)
- (h) Penderfyniad am ffeithiau eich cais sy'n debygol o gael eu hystyried neu wedi cael eu hystyried, wrth ystyried gosod tŷ ai peidio (gweler **12.2**).

Gweler **5.2** am fanylion ynghylch yr hyn y bydd ein llythyr cychwynol yn ei gynnwys.

12.2 Beth yw ystyr categori 12.1(h)?

Mae categori **12.1(h)** yn cynnwys amryfal benderfyniadau negyddol posib na fyddwch o bosib yn cael gwybod amdanynt. Fel arfer, mae'r penderfyniadau hyn yn rhan o benderfyniad arall y *byddwch* wedi cael gwybod amdano. Er enghraifft, efallai eich bod yn dymuno i ni adolygu penderfyniad nad yw rhywun yn rhan o'ch aelwyd, penderfyniad am eich adnoddau ariannol neu benderfyniad am natur ac effaith cyflwr meddygol sydd gennych. Efallai na fyddwn yn dweud wrthyhych am y penderfyniadau hyn am eu bod yn rhan o benderfyniad arall e.e. pa flaenoriaeth band y mae gennych hawl iddi neu a oes gennych hawl mynd ar y Gofrestr Tai. Os ydych yn dymuno i ni edrych eto ar benderfyniad o'r math a ddisgrifir yn 12.1(h), fel arfer mae'n syniad da i chi ofyn i ni'n gyntaf gadarnhau'r wybodaeth yr ydym wedi'i hystyried. Bydd hyn yn eich helpu i ddefnyddio'n effeithiol eich hawl am adolygiad.

12.3 Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?

Cyfeiriwch at **12.1** uchod os gwelwch yn dda. Os nad ydych yn siŵr o hyd a oes modd i chi ofyn i ni adolygu penderfyniad, cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gwasanaethau Tai a byddwn yn eich helpu. Mae modd i chi gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid trwy ffonio (01248) 752200 neu anfon e-bost at ADRANTAI@ynysmon.gov.uk.

12.4 Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?

Byddwn yn dweud wrthyhych am eich hawl i ofyn am adolygiad pryd bynnag y byddwn yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad sy'n ymwneud â'r hawl am adolygiad.

12.5 Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ar fy nghais?

Byddwn yn dweud wrthyhych:

- Am eich hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.
- Am fathau'r penderfyniadau y gallwch ofyn i ni eu hadolygu (gweler **12.1**)
- Os ydych yn dymuno gofyn am adolygiad, bod yn rhaid i ni dderbyn y cais o fewn 21 diwrnod i chi'n cael gwybod am y penderfyniad (oni bai fod y penderfyniad yn ymwneud â gwrthod y cynigion, gweler **11.10**) ▪ Lle gallwch gael cyngor annibynnol.

Mae'r llythyr penderfynu yn egluro fod copi o'r penderfyniad ar gael i'w gasglu o swyddfeydd y Cyngor am gyfnod rhesymol. Yn y llythyr hefyd ceir eglurhad os na fyddwch yn derbyn y llythyr penderfynu (neu'r e-bost), y byddir yn ymdrinnir â chi fel pe bai y rhoddwyd gwybod i chi yr adeg y cafodd y llythyr ei anfon i'r cyfeiriad post (neu e-bost) a roesoch i ni.

12.6 Sut wyf yn gofyn am adolygiad?

Os ydych yn dymuno i ni adolygu penderfyniad rhaid i chi ofyn i ni o fewn 21 diwrnod i gael gwybod am y penderfyniad (yn amodol ar **11.10** lle mae'r adolygiad yn ymwneud

â gwrthod cynigion). Os na fyddwch yn derbyn y llythyr penderfynu rhaid i chi ofyn i ni o fewn 21 diwrnod i'r adeg y lluniwyd y llythyr a'i anfon i'r cyfeiriad post neu e-bost a roesoch i ni. Nid oes yn rhaid i chi gwblhau ffurflen arbennig i ofyn am adolygiad (er y gallwch ddewis defnyddio'r ffurflen a roddwn i chi). Mae modd i chi ein ffonio neu anfon e-bost atom a gofyn am adolygiad. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn gofyn yn glir am adolygiad ac yn dweud wrthym pa benderfyniad(au) yr ydych yn dymuno i ni edrych arno(arnynt) eto.

Neu gallwch gwblhau'r ffurflen adolygu sydd ar gael ar-lein yn:

www.ynysmon.gov.uk/adolygiadcaisamdŷ

12.7 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi dal gofyn am adolygiad?

Oes. Mae modd i chi dal gofyn am adolygiad os nad ydych yn derbyn copi o'r penderfyniad Fodd bynnag, mae rheolau arbennig. Rhaid i chi ofyn i ni ailstyried y penderfyniad o fewn 21 diwrnod i'r adeg yr ymdrinnir â chi'n gyfreithiol o ran bod wedi derbyn y penderfyniad (gelwir hyn yn 'dyddiad y gwasanaeth tybiedig').

Mae dyddiad y gwasanaeth tybiedig yn dibynnu ar sut y bu i ni anfon y penderfyniad atoch, a hwn yw'r:

- Ail ddiwrnod busnes ar ôl i'r llythyr gael ei bostio, os cafodd ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf, neu
- Y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad atoch neu y'i rhoddwyd i chi os gafodd ei anfon â llaw, ei gyflwyno'n bersonol neu ei e-bostio atoch ar ddiwrnod busnes cyn 4.30 pm, neu os oedd ar ôl 4.30 pm, ar y diwrnod busnes nesaf.

Os na fyddwch yn gofyn i ni ailstyried y penderfyniad o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y gwasanaeth tybiedig, byddwch yn colli eich hawl i adolygiad. Fodd bynnag, mae modd i chi dal gofyn a ydym yn fodlon ymestyn y cyfyngiad amser (gweler **12.8**).

12.8 Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi dal gofyn am adolygiad?.

Bydd cais am adolygiad a ddaw i law ar ôl i'r cyfnod 21 diwrnod ddod i ben yn cael ei gyfeirio at Reolwr y Tîm Opsiynau Tai neu at uwch-swyddog arall yn y Cyngor. Byddant yn ystyried pam oedd eich cais yn hwyr ac yn penderfynu a ddylem ymestyn y cyfyngiad amser a chynnal adolygiad.

12.9 Oes angen i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?

Oes. Mae'n well gennym os byddwch yn rhoi eich rhesymau pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am adolygiad. Mae hyn yn ein helpu i ddod i benderfyniad yn gynt. Fodd bynnag, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi dyddiad i chi erbyn pryd y mae'n rhaid i chi roi eich rhesymau a rhoi unrhyw wybodaeth gefnogi yr ydych yn dymuno i ni ei hystyried (gweler **12.10** am fanylion y weithdrefn adolygu).

12.10 Pa weithdrefn fydd y Cyngor yn ei dilyn os gofynnaf am adolygiad?

Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais am adolygiad byddwn, o fewn 21 diwrnod, yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig:

- Bod modd i chi, neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan, wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Tîm Opsiynau Tai yng nghyswllt yr adolygiad
- Am y weithdrefn y byddwn yn ei dilyn yng nghyswllt yr adolygiad, gan gynnwys y dyddiadau erbyn pryd
 - Y mae'n rhaid i ni dderbyn unrhyw wybodaeth gefnogi (ni chaiff hyn fod dim cynharach na 14 diwrnod i'n llythyr sy'n cadarnhau'r weithdrefn)
 - Y dyddiad erbyn pryd y cewch wybod am y penderfyniad
- Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad
- Manylion cyswllt y swyddog adolygu
- Y bydd y penderfyniad adolygu'n cael ei roi i chi'n ysgrifenedig
- Y bydd yr hysbysiad penderfynu'n cynnwys y rhesymau am unrhyw ganfyddiadau andwyol
- Bod modd i chi ofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw benderfyniad a wneir am ffeithiau eich cais (gweler **12.1(h)**).

Efallai y bydd y swyddog adolygu'n cynnig cyfle i chi wneud sylwadau llafar yng nghyswllt yr adolygiad. Mae'n bosib, hefyd, y bydd yn gofyn i swyddogion eraill yn y Tîm Opsiynau Tai wneud tasgau yng nghyswllt yr adolygiad, e.e. gwneud ymholiadau.

Os byddwch yn gofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw benderfyniad sy'n berthnasol i'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu (gan gynnwys materion sy'n cael eu cynnwys dan **12.1(h)**) ac yn gwneud hyn cyn diwrnod olaf derbyn sylwadau, bydd y swyddog adolygu'n sicrhau y rhoddir ymateb ac, os yw'n deg gwneud hynny, yn ymestyn y cyfnod derbyn sylwadau.

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad a wnaed ar eich adolygiad o fewn wyth wythnos o'r dyddiad y bu i chi ofyn am adolygiad (oni bai fod angen estyniad i'r dyddiad hwn; gweler **12.15**).

12.11 Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?

Oes. Efallai y byddwn yn codi £10 arnoch am hon. Gweler hefyd **16.6** ynghylch eich hawl gyfreithiol i gael gwybodaeth.

12.12 Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad adolygu?

Bydd Swyddog Gwasanaethau Tai nad oedd a wnelo â'r penderfyniad gwreiddiol ac sy'n uwch na'r swyddog a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn gwneud y penderfyniad ar eich adolygiad.

12.13 Sut bydd y penderfyniad ar fy adolygiad yn cael ei wneud?

Bydd y swyddog adolygu'n ystyried y wybodaeth a roesoch ac yn ailystyried yr holl ffeithiau perthnasol ar yr adeg y penderfynir ar yr adolygiad, yn wyneb y polisi hwn ac unrhyw ofynion cyfreithiol. Efallai y byddwn yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd ers gwneud y penderfyniad gwreiddiol os yw'n berthnasol.

12.14 Sut byddwch yn rhoi gwybod i mi am benderfyniad yr adolygiad?

Byddwn yn cadarnhau'r penderfyniad ar yr adolygiad yn ysgrifenedig trwy lythyr neu e-bost.

12.15 Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ar yr adolygiad?

Fel arfer, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad o fewn wyth wythnos i ni dderbyn eich cais am adolygiad. Mae'n bosib y byddwn yn cymryd mwy o amser os:

- Oes angen rhagor o amser arnom i wneud y penderfyniad
- Ydi'r estyniad amser yn rhesymol, o gofio ffeithiau eich achos penodol, ac os
- Ydym wedi rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig am ein rhesymau am fod angen estyniad.

12.16 Rwyf yn anfodlon gyda phenderfyniad yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?

Nac oes. Nid oes gennych hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad adolygiad negyddol. Efallai bod modd i chi fynd i'r llys gan ddefnyddio proses o'r enw adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, er mwyn gwneud cais i'r llys byddai angen rhesymau arnoch am honni fod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

12.17 Oes modd i mi gwyno am benderfyniad yr adolygiad?

Oes. Mae modd i chi gwyno dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor os ydych yn anfodlon gyda phenderfyniad adolygiad neu gyda'r modd y cafodd ei wneud. Mae modd hefyd i chi gwyno os ydych yn anfodlon gydag unrhyw agwedd arall o sut yr ymdriniwyd â'ch cais am dŷ. Mae copi o Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.

Oes oes eich cwyn a wnelo â rhywbeth y mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartner (cymdeithas tai) wedi'i wneud (nad oes a wnelo â rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud neu y mae'n gyfrifol amdano) gallwch gwyno gan ddefnyddio polisi cwyno'r landlord hwnnw) (mae manylion eu polisiâu cwyno ar wefan pob landlord).

Os ydych yn dymuno cwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhaid i chi, fel arfer, fod wedi bod trwy'r drefn gwyno ffurfiol.

13 BETH FYDD YN DIGWYDD OS OES ANGEN EIDDO WEDI'I ADDASU NEU EIDDO ADDAS ARNAF NEU FOD GENNYF GYFLWR MEDDYGOL?

- 13.1 Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?
- 13.2 Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?
- 13.3 Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?
- 13.4 Oes rhaid i mi gyflwyno tystiolaeth?
- 13.5 Pwy sy'n penderfynu a fyddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?
- 13.6 Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau sy'n cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?

- 13.7 Beth fydd yn digwydd os bydd angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?
- 13.8 Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?
- 13.9 Beth fydd yn digwydd nesaf?
- 13.10 Rwy'n anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?
- 13.11 Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu?
- 13.12 Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?
- 13.13 A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

13.1 Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?

Nid yw bod â chyflwr meddygol o reidrwydd yn golygu y rhoddir i chi flaenoriaeth am dŷ (na chael band uwch).

13.2 Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?

I gael blaenoriaeth oherwydd cyflwr meddygol, rhaid i'ch sefyllfa fod wedi'i chynnwys yn un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y cynllun bandio (gweler **adran 9**). Yn y tabl isod, rhestrir y grwpiau lle gall cyflwr meddygol roi blaenoriaeth i chi am dŷ:

Band	Categori	Adran	I'w weld ar dudalen...
Brys	1	9.6	41
Brys	3	9.6	41
1	14	9.7	46
2	22	9.9	52

13.3 Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?

Byddwn yn gofyn i chi yn eich cyfweiliad opsiynau tai a oes gennych gyflyrau meddygol. Byddwn yn trafod gyda chi sut mae eich sefyllfa tai yn cael effaith ar eich cyflwr meddygol. Os byddech yn gymwys ar gyfer flaenoriaeth oherwydd eich cyflwr meddygol dan y categorïau bandio, byddwn yn cymryd manylion eich cyflwr meddygol a sut mae'n cael effaith ar eich angen am dŷ.

13.4 Oes angen i mi gyflwyno tystiolaeth?

Oes. Bydd angen i ni weld tystiolaeth o'ch cyflwr meddygol a pham fod hyn yn golygu bod angen tŷ arnoch. Mae modd i chi ddefnyddio llythyr gan eich Meddyg Teulu (neu unrhyw swyddog proffesiynol arall). Fodd bynnag, rhaidd i'r llythyr:

- Gadarnhau natur eich cyflwr meddygol
- Roi manylion am y driniaeth a'r feddyginiaeth (os o gwbl) yr ydych yn eu derbyn, a
- Ddweud sut mae'r llety cyfredol yn cael effaith niweidiol ar eich cyflwr meddygol (neu sut byddai cael llety addas yn lliniaru'r cyflwr).

Ni fydd y llythyr yn debygol o'ch helpu oni fydd yn cynnwys y wybodaeth uchod.

13.5 Pwy sy'n penderfynu a wyf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?

Ni fydd yn penderfynu a oes gennych hawl i flaenoriaeth dan y system bandio oherwydd eich cyflwr meddygol. Bydd hyn yn seiliedig ar y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi. Os oes rhywun wedi rhoi gwybodaeth i gefnogi'ch cais (e.e. meddyg) bydd hon yn cael ei hystyried hefyd. Os na fedrwn wneud penderfyniad heb ragor o wybodaeth efallai y gwnawn ymholiadau a/neu gysylltu â'ch meddyg. Efallai y byddwn hefyd yn cael cyngor ar yr hyn y mae ei angen arnoch gan rywun sydd â chymwysterau meddygol cyn i ni wneud ein penderfyniad.

13.6 Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau s'yn cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?

Ni ddyfernir blaenoriaeth feddygol oni bai bod eich sefyllfa wedi ei chynnwys yn un o'r categorïau bandio (gweler **adran 9 a 13.2**). Fel arfer, golyga hyn bod yn rhaid i'ch tŷ (neu ddiffyg tŷ addas) fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar eich cyflwr meddygol. Waeth pa mor ddifrifol yw eich problem feddygol, ni allwn roi blaenoriaeth i chi onid ydym yn fodlon bod eich tŷ'n gwaethygu'ch cyflwr. Am yr un rhesymau, ni fyddwch o reidrwydd yn cael blaenoriaeth dim ond oherwydd eich bod wedi cyflwyno llythyrau cefnogi. Os na fyddwn yn dyfarnu blaenoriaeth (neu flaenoriaeth uwch) i chi oherwydd eich afiechyd, nid yw'n golygu nad ydym yn derbyn bod gennych gyflwr meddygol.

13.7 Beth fydd yn digwydd os oes angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?

Ni fyddwn yn penderfynu a oes angen ystafell wely ychwanegol arnoch oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gweler **4.12** os gwelwch yn dda am y rheolau ynghylch nifer yr ystafelloedd gwely y mae hawl gennyh iddynt.

Fel arfer, byddem yn disgwyl tystiolaeth bod ystafell wely'n hanfodol i iechyd a lles aelod o'r aelwyd neu fod angen gofal dros nos arnoch yn rheolaidd ac yn barhaus. Os oes gan eich plentyn ymddygiad heriol byddwn yn ystyried eich sefyllfa a'r hyn y mae ei angen arnoch. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys fel person sydd angen ystafell wely ychwanegol oni bai ein bod yn fodlon eich bod yn cwrdd â'r meini prawf yn **4.12**.

13.8 Beth os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?

Byddwn yn trafod unrhyw angen a fyddo arnoch am addasiadau yn eich cyfweiliad opsiynau tai. Os byddwch efallai angen addasiadau, byddwn yn asesu'r hyn y mae ei angen arnoch.

13.9 Beth fydd yn digwydd nesaf?

Efallai y byddwn yn trefnu i therapydd galwedigaethol ymweld â chi yn eich cartref er mwyn cynnal asesiad manwl o'ch anghenion. Byddwn yn gwneud penderfyniad unwaith yr ydym yn fodlon bod gennym yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom. Yna byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr asesiad a pha fand a roddwyd i chi.

13.10 Rwyf yn anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?

Mae modd i chi ofyn i ni adolygu'r penderfyniad os ydych yn anghytuno gyda'r ffordd yr ydym wedi asesu eich anghenion (gweler **adran 12** am ragor o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

13.11 Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu arnynt?

Ydym. Efallai y bydd eiddo'n cael eu heithrio o'r gronfa gyffredinol a'u clustnodi i'w gosod i ymgeiswyr y mae angen addasiadau arnynt oherwydd anabledd corfforol. Rydym yn gosod eiddo sydd wedi'u haddasu i aelwydydd a fydd yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd yn eu lle. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r eiddo sydd gennym ac yn osgoi gwariant diangen. Efallai y byddwn, hefyd, yn eithrio eiddo o'r gronfa dai gyffredinol os nad ydynt wedi'u haddasu ar y pryd ond eu bod yn addas i'w haddasu.

13.12 Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?

Rydym yn cadw cofnod o:

- Yr addasiadau y mae eu hangen arnoch

- Pa addasiadau sydd gan bob eiddo sy'n dod ar gael.

Efallai y byddwn hefyd yn cadw cofnod o addasiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i eiddo penodol.

Pan ddaw eiddo yn y 'gronfa eiddo sydd wedi'u haddasu' ar gael, rydym yn cyfatebu ymgeiswyr â'r eiddo ac yn penderfynu pa ymgeisydd ddylai gael y tŷ. Cyn cadarnhau hyn, efallai y byddwn yn ceisio rhagor o wybodaeth gan swyddogion proffesiynol ac efallai yn gofyn i therapydd galwedigaethol ymweld â'r eiddo i roi cyngor i ni ar ba mor addas ydyw.

13.13 A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

Byddant. Trwy wneud hyn, byddwn yn cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i bobl o ran tai ac yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

14 POLISIÂU GOSOD LLEOL A SENSITIF

- 14.1 Cyflwyniad
- 14.2 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod fod angen polisi gosod lleol?
- 14.3 Sut mae polisiâu gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?
- 14.4 Beth yw achosion sensitive o osod tai a pha bryd y cânt eu defnyddio?
- 14.5 Cytundebau Adran 106

14.1 Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn cydnabod y byddai landlordiaid sy'n bartneriaid o bosib yn dymuno mabwysiadu polisiâu sydd wedi'u llunio i fynd i'r afael â materion tai lleol trwy ddefnyddio polisiâu gosod lleol a sensitif. Defnyddir polisiâu gosod lleol i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion polisi rheoli tai a pholisiâu eraill sy'n ymwneud â thai. Fel

arfer, cânt eu datblygu pan fyddwn yn penderfynu bod angen i ni reoli cydbwysedd y gymuned.

Rhaid i'r holl bolisiâu gosod lleol fod â sylfaen dystiolaeth gadarn a chânt eu datblygu yn sgil asesiad cadarn o'r dystiolaeth hon. Pan yn cynnig polisi gosod lleol newydd, rhaid i'r landlord sy'n bartner gyflwyno manylion ynghylch:

- (a) Y mater penodol sy'n cael effaith ar y gymuned y mae'n ofynnol iddi gael polisi gosod lleol.
- (b) Yr ardal neu'r anheddau i'w cynnwys (c) Cyfnod arfaethedig y polisi.
- (d) Yr amcanion y mae'r landlord yn gobeithio'u cyflawni (e) Darpariaethau'r polisi.
- (f) Yr effaith y mae'r polisi'n debygol o'i chael ar y grwpiau hynny o ymgeiswyr y mae eu cyfle i gael symud tŷ wedi'i ostwng, gan gynnwys personau gyda nodweddion sydd wedi'u gwarchod dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

14.2 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod bod angen polisi gosod lleol?

Bydd yr holl bolisiâu lleol wedi'u seilio ar angen sydd wedi'i ddynodi a'i amlygu.

Ymhlith materion tai lleol y byddai polisi lleol o bosib yn ofynnol ar eu cyfer mae:

- (a) Ardaloedd lle mae pocedi o amddifadedd
- (b) Tŷ sy'n rhy fawr i nifer y bobl sy'n byw ynddo
- (c) Tŷ gorlawn
- (d) Angen i hwyluso cyflogaeth tenant trwy achosion o symud tŷ sy'n ymwneud â gwaith
- (e) Anghenion a chynaliadwyedd cymunedau gwledig, er enghraifft lle mae'r gallu i dalu am lety'n broblem
- (f) Caniatáu i denantiaid tai cymdeithasol drosglwyddo hyd yn oed pan nad ydynt yn syrthio i gategori rhesymol a ffafrir
- (g) Sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cynllunio dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- (h) Eiddo sy'n cael eu rhoi mewn ardal adfywio
- (i) Datblygiadau newydd mawr

14.3 Sut mae polisiâu gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?

Wrth ffurfio polisiâu lleol, byddir yn dilyn protocol y cytunodd Is-grŵp Gosod Tai Partneriaeth Tai Ynys Môn arno (gweler **17.1**). Rhaid i gynnig ar gyfer polisi gosod lleol:

- (a) Gynnwys meini prawf manwl sy'n rheoli'r gweithdrefnau a ddefnyddir i osod tai

- (b) Cael ei gymeradwyo gan yr Is-grŵp Gosod Tai, a
- (c) Gwneud darpariaeth i'r polisi gael ei adolygu ar ôl amser penodol

Wrth ystyried cymeradwyo'r polisi lleol ai peidio rhaid i'r is-grŵp wahodd barn y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio gweinyddiaeth y gwaith gosod tai a rhaid iddo roi ystyriaeth benodol i ba mor hawdd fydd gwaith gweinyddu'r meini prawf arfaethedig.

14.4 Beth yw achosion sensitif o osod tai a pha bryd y cânt eu defnyddio?

Efallai y bydd adegau pan fydd landlordiaid sy'n bartneriaid yn dymuno gosod tŷ y tu allan i'r rheolau gosod arferol i warchod diddordebau trigolion cyfredol. Er enghraifft, efallai yr ystyrir y byddai'n briodol mynd ati mewn modd sensitif i ailosod eiddo os yw cymuned wedi gorfod dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol hir a difrifol.

Bydd landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Opsiynau Tai am unrhyw achosion sensitif o osod tŷ, ynghyd â'r wybodaeth a ganlyn:

- Y rhesymau pam fod angen gosod yn yr achos sensitif hwn, a
- Sefyllfa'r person y gosodir y tŷ iddo ar y rhestr aros (os yw'n berthnasol).

14.5 Cytundebau adran 106

Mae cytundebau adran 106 yn rheoli'r modd y gosodir tai a godir ar ddatblygiadau newydd. Mabwysiedir y cytundebau hyn i gael ffyrdd o gyfyngu'r bobl sy'n byw yn yr anheddau i'r rhai hynny sydd ag angen cymunedol lleol am dŷ fforddiadwy, pan fyddant yn symud i mewn am y tro cyntaf a hyd dragwyddoldeb. Bydd eiddo a godir ar safleoedd sy'n ymgorffori cytundeb adran 106 yn cael eu gosod dan delerau'r cytundeb hwnnw.

15 EIDDO SYDD AR GAEL I'W GOSOD YN SYTH

- 15.1 Cyflwyniad
- 15.2 Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?
- 15.3 Sut medraf wneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?
- 15.4 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn penderfynu i bwy y gosodir yr eiddo sydd ar gael yn syth?
- 15.5 Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?

15.1 Cyflwyniad

Efallai bod nifer fach o eiddo ar gael i'w gosod ar unrhyw adeg benodol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan nad oes neb ar y Gofrestr Tai'n gymwys i gael cynnig eiddo penodol, neu lle mae pawb ar y gofrestr wedi cael tŷ.

Mae modd i nifer a math yr eiddo sydd ar gael amrywio'n fawr a chânt eu gosod achos wrth achos, gan ystyried math yr eiddo ac unrhyw feini prawf gosod arall sydd o bosib yn berthnasol i'r annedd benodol honno h.y. polisi gosod lleol, meini prawf dynodi eiddo ac ati.

15.2 Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

Rydym yn rhoi manylion unrhyw eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth ar ein gwefan ac ar wefan www.angleseyhousing.co.uk.

15.3 Sut medraf wneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w osod yn syth?

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried am eiddo yr ydych wedi gweld hysbyseb yn ei gylch, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gwasanaeth Tai (gweler tudalen 2) neu ddilyn yr arweiniad yn yr hysbyseb. Byddwn yn cynnig apwyntiad i chi os byddech yn gymwys i gael cynnig eiddo.

15.4 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn penderfynu i bwy y gosodir eiddo sydd ar gael yn syth?

Bydd unrhyw achos o osod yn seiliedig ar amgylchiadau ymgeisydd gan gynnwys materion megis:

- Eich angen am dŷ
- Eich cysylltiad lleol (un ai â'r ardal neu â'r lleoliad y mae'r eiddo ynddo)
- Eich sefyllfa ariannol
- Hanes eich tenantiaeth flaenorol a/neu
- Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r nod o osod yr eiddo i berson y mae angen tŷ arno.

15.5 Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau i gadarnhau pwy ydych a'ch amgylchiadau. Yn ogystal, efallai y bydd y landlord yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth a dogfennau eraill er mwyn bodloni eu hunain am eich amgylchiadau.

16 BETH MAE'R DDEDDFWRIAETH YN EI DDWEUD YNGHYLCH SUT Y DYLLID GOSOD TAI?

- 16.1 Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisiau gosod?
- 16.2 Gwieithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli.
- 16.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 16.4 Cyfrinachedd a gwarchod eich data personol.
- 16.5 Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses gosod?
- 16.6 Pa wybodaeth sydd gennyf hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

16.1 Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisiâu gosod?

Mae'r amryfal ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â gosod tai cymdeithasol i'w gweld yn bennaf yn Rhan 6 Deddf Tai 1996.

Mae gofyn i gynghorau gael cynllun gosod i bennu'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth osod tai cymdeithasol. Mae modd i'r Cyngor fabwysiadu ei bolisi ei hun, ar yr amod bod y cynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol penodol ac ag egwyddorion cyfreithiol sylfaenol tegwch a rhesymeg. Rhaid i'r Cyngor weithredu'n unol â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r tai cymdeithasol sy'n bartneriaid yn Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus. Mae nodau elusennol pob cymdeithas yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi llety i bobl y mae angen cymorth arnynt gyda thai a llety oherwydd caledi ariannol (oherwydd bod eu modd ariannol mor gyfyngedig fel eu bod yn methu cael llety addas ar y farchnad agored) neu oherwydd anghenion sy'n ymwneud â'u hoed neu eu salwch.

Rhaid i'r cynllun gosod ddatgan pa swyddog sy'n gwneud pa benderfyniadau (nid wrth ei enw ond trwy ddisgrifiad). Mae'r wybodaeth hon yn y gweithdrefnau sy'n mynd law yn llaw â'r polisi hwn ac sy'n helpu swyddogion tai i weinyddu'r polisi hwn (gweler **1.5**).

Rhaid i'r cynllun gosod sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol (mantais) i bobl sy'n syrthio i un o'r categorïau a ganlyn:

- (a) Pobl sy'n ddigartref oddi mewn i ystyr Rhan 2 Deddf Tai 2014.
- (b) Pobl y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd tuag atynt dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf 2014.
- (c) Pobl sydd mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfoddhaol.
- (d) Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les
- (e) Pobl y mae angen iddynt symud i leoliad penodol yn yr ardal, lle byddai methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n achosi caledi.

Nid yw cofrestru ymgeisydd a dyfarnu iddo ffafriaeth resymol yn gwarantu y byddai'n cael tŷ. Nid oes hawl cyfreithiol i osod tŷ cymdeithasol yn y tymor hir.

Mae'r polisi hwn yn sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r grwpiau uchod trwy fabwysiadu categorïau blaenoriaeth yn seiliedig ar y grwpiau statudol a ffafrir a thrwy eithrio pobl nad oes angen tai arnynt. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu ffafriaeth ychwanegol (neu roi mwy o bwys) i bobl ag anghenion brys am dŷ a phobl â chysylltiad lleol, ac mae'r polisi hwn yn darparu hyn. Mae'r polisi hwn hefyd yn cymryd mantais o'r grym cyfreithiol er mwyn rhoi ystyriaeth, wrth ddiffinio blaenoriaeth ar gyfer symud tŷ, i adnoddau ariannol ymgeisydd ac ymddygiad ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd sy'n cael effaith ar ba mor addas y bydd fel tenant. At hyn, rydym wedi defnyddio'r grym i wneud darpariaeth i eithrio ymgeiswyr neu ostwng blaenoriaeth

ymgeisydd oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol. Ceir rhagor o fanylion ar sut caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu yn **adran 9**.

Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i arweiniad statudol a gyflwynir gan Weinidogion Cymru dan adran 169 Deddf Tai 1996, a hynny wrth lunio'r cynllun gosod ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau unigolion am dŷ. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau yn Rhan 1 *Côd Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd* (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2015), ac unrhyw welliannau neu ganllawiau statudol wedi hynny.

Rhaid i'r Cyngor roi i'w landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid iddo gyfle i wneud sylwadau ar y cynllun gosod newydd, ac mae wedi gwneud hynny. At hyn, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i dynnu'r polisi i sylw'r rhai hynny y byddai'n cael effaith arnynt, gan gynnwys pobl oedd wedi'u cofrestru dan y polisi blaenorol a thenantiaid landlordiaid sy'n bartneriaid. Ymgynghorwyd â mudiadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys asiantaethau cynghori. Mae'r cyngor hefyd wedi cadw mewn cof ei strategaeth tai leol a'i adolygiad a'i strategaeth ddigartrefedd wrth lunio'r polisi hwn.

16.2 Gweithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli

Yn unol â Deddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976, rhaid i'r Cyngor wneud ei orau glas i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr amaethyddol cymwys sydd wedi cael eu dadleoli. Yn ôl Adran 27 Deddf 1976, rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun:

- (a) Bod angen yr annedd y mae'r gweithiwr yn cael ei ddadleoli ohoni i ddarparu llety ar gyfer gweithiwr amaethyddol arall,
- (b) Ni fedr y ffermwr ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli, a
- (c) Dylai'r Cyngor ddarparu llety addas er budd amaethyddiaeth effeithlon.

Wrth wneud penderfyniad, gall y Cyngor gymryd cyngor y Pwyllgor Ymgynghorol Anheddau Amaethyddol (ADHAC) i ystyriaeth. Rôl ADHAC yw cynghori a ddylid ailletua'r gweithiwr er budd amaethyddiaeth effeithlon ac ar frys yr ymgeisydd. Os yw'r Cyngor yn fodlon bod achos yr ymgeisydd yn deilwng, mae dyletswydd arnynt dan adran 28 Deddf 1976 i wneud eu gorau glas i ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli. Wrth asesu blaenoriaeth y cais, rhaid i'r Cyngor ystyried:

- (d) Brys y cais
- (e) Pwy sy'n cystadlu am y llety; a
- (f) Eu hadnoddau

Nod y polisi yw sicrhau y diwellir gofynion Deddf 1976 drwy roddi blaenoriaeth i weithwyr amaethyddol cymwys (gweler Band 3, **categori angen 29**).

Os ystyrir na fyddai dyfarnu blaenoriaeth Band 3 yn ddigon o flaenoriaeth, rhaid cael caniatâd i ddyfarnu band uwch (gweler categorïau **8**, **16** a **21** o ran yr angen am dŷ).

16.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymroi i roi'r un cyfle i bawb sy'n dymuno gwneud cais am dŷ. Mae'r partneriaid yn fodlon nad yw'r polisi hwn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw, rhywiaeth, oedran, anabledd, dosbarth, edrychiad, crefydd neu greddau crefyddol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, gweithgaredd troseddol digyswllt, statws HIV neu AIDS neu unrhyw fater arall a allai achosi i berson gael cam. Mae asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal ar y polisi hwn. Mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn fodlon bod y polisi hwn yn cydymffurfio â'u polisiau cydraddoldeb nhw.

Byddwn yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a'r codau ymarfer perthnasol. Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei fonitro i sicrhau fod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg a bod cydymffurfiaeth gyfreithiol ar waith, gan gynnwys yr ymrwymiad i beidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol am resymau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Pan fyddwn yn ymwybodol y bydd ymgeiswyr yn cael anhawster deall cyfathrebiadau a bod hynny'n debygol o effeithio ar eu gallu i ymgeisio am dŷ neu gwrdd â gofynion gweithdrefnol, byddwn yn cofnodi'r ffaith hon ac yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau y gallant ddeall unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys trefnu i drydydd parti dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig ar ran yr ymgeisydd neu ffonio ymgeisydd i egluro natur a chynnwys llythyrau a anfonwyd atynt.

Mae Cynllun Iaith y Cyngor yn berthnasol i gynnal a chadw'r Gofrestr Tai a'r swyddogaethau hynny a weinyddir gan y Cyngor. Bydd y cymdeithasau tai sy'n bartneriaid yn cydymffurfio gyda'r polisiau ac/neu'r safonau iaith Gymraeg sy'n berthnasol iddynt. Byddwn yn cyfathrebu â'r cwsmeriaid yn eu dewis iaith. Mae'r holl ddeunydd a chyngror ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

16.4 Cyfrinachedd a gwarchod eich data personol

Os ydych yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol, mae gennych hawl i gyfrinachedd. Ni chaniateir i'r ffaith eich bod wedi gwneud cais am dŷ gael ei gwneud yn gyhoeddus heb eich caniatâd.

Gofynnir i chi ganiatáu i'r Cyngor ofyn i bobl neu fudiadau eraill am wybodaeth os oes angen i ni wneud hyn i weinyddu'ch cais. Byddwch yn cael gwybod am eich hawliau statudol a sut caiff eich data personol ei ddefnyddio.

Bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhannu gwybodaeth berthnasol am geisiadau am dŷ at ddibenion gweinyddu ceisiadau, gosod tai a rheoli tenantiaethau. O'r herwydd, amod o wneud cais am dŷ yw eich bod yn fodlon caniatáu i'ch data personol gael ei rannu gyda landlordiaid sy'n bartneriaid.

Bydd pob partner yn sicrhau bod ganddo bolisiau a threfniadau yn eu lle i sicrhau y caiff data personol cwsmeriaid ei ddal yn ddiogel a'i brosesu'n gyfreithlon.

Bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn cytuno ar brotocol sy'n rheoli gwaith rhannu gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr am dŷ a bydd hwn yn cydymffurfio â safon Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI).

16.5 Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses osod?

Mae modd i aelodau etholedig y Cyngor eich cyngori a'ch cynrychioli os ydych wedi gwneud cais am dŷ. Mae ganddynt rôl bwysig i sicrhau y caiff y polisi hwn ei ddilyn a'i weithredu'n deg ac yn gyson. Medrwyd gysylltu â'ch cyngorydd lleol os ydych yn dymuno iddynt wneud sylwadau neu ymholiadau ar eich rhan.

Ni chaniateir yn gyfreithiol i gynghorwyr gymryd rhan mewn penderfyniad gosod os yw'r llety neu eich unig neu brif breswylfa yn eu ward. Mae'n bwysig nad yw landlordiaid yn cael eu rhoi (na chael eu gweld fel petaent) dan ormod o ddylanwad.

Rhaid i Gynghorwyr sy'n gwneud ymholiadau ar eich rhan am statws eich cais am dŷ, gyflwyno eich caniatâd ysgrifenedig. Efallai y byddwn yn gofyn am eglurhad ysgrifenedig gennych os nad yw'n glir a yw'r caniatâd yn parhau'n weithredol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos fod y caniatâd yn gyfredol neu'n ymwneud â'r mater y ceisir gwybodaeth yn ei gylch.

Mae modd i aelod etholedig ofyn am statws eiddo. Byddwn yn dweud wrtho a yw dan denantiaeth ar hyn o bryd ynteu'n 'wag' (heb denantiaeth), ac os yw'n wag, a yw wedi'i neilltuo i ymgeisydd arall. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwarchod Data 1998 nid oes modd datgelu gwybodaeth personol sy'n gysylltiedig â darpar denant neu denant newydd.

16.6 Pa wybodaeth sydd gennych hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

Mae landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhoi cyngor a gwybodaeth gyffredinol i aelodau'r cyhoedd am yr hawl i wneud cais am dŷ cymdeithasol. Os ydych yn dymuno gwneud cais am dŷ cewch eich cyngori i gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Gwasanaethau Tai'r Cyngor (gweler **2.2**).

Mae copi a chrynodeb o'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor. Mae gennych hawl i gael copi o'r crynodeb hwn yn rhad ac am ddim.

Mae modd i chi, hefyd, ofyn am gopi o'r cynllun gosod tai. Mae hwn yn gopi llawn o'r holl reolau, sy'n cynnwys holl agweddau'r broses osod, gan gynnwys y gweithdrefnau a'r canllawiau y byddwn yn eu darparu ar gyfer staff. Codir £10 amdano. Mae modd i chi hefyd gael golwg ar gopi o'r cynllun gosod tai yn Adran Gwasanaethau Tai'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Os ydych yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol mae gennych hawl gyfreithiol i ofyn am wybodaeth benodol. Mae hawl gennych ofyn am yr isod a'i chael:

- (a) Y cyfryw wybodaeth gyffredinol fydd yn eich helpu i asesu:

- (i) Sut mae'n debygol yr ymdrinnir â'ch cais dan y polisi hwn, gan gynnwys a ydych yn debygol o gael eich trin fel aelod o grŵp y rhoddir blaenoriaeth iddo
 - (ii) A yw llety priodol yn debygol o fod ar gael i chi ac, os yw, faint o amser fydd hi'n ei gymryd cyn y bydd llety ar gael i'w osod i chi
- (b) Gwybodaeth am unrhyw benderfyniad ynghylch ffeithiau eich achos sydd wedi'i chadw mewn cof neu'n debygol o gael ei chadw mewn cof wrth ystyried gosod llety ai peidio
- (c) Manylion y wybodaeth yr ydych eisoes wedi'i chyflwyno amdanoch eich hun neu am eich teulu ac yr ydym wedi'i chofnodi fel gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd yn (a)(i) i chi yn ystod eich cyfweiliad opsiynau tai. Bydd hyn yn eich helpu i werthuso eich cyfleoedd i gael tŷ cymdeithasol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd yn (a)(ii), (b) a (c) os byddwch yn gofyn amdani.

Rhoddir y wybodaeth sydd yn (a)(ii) trwy ddweud wrthy ch faint o dai gwag oedd mewn cyfnod (neu gyfnodau) blaenorol ar gyfer maint a math yr eiddo yn yr ardaloedd gosod yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer (neu ar gyfer yr ardal osod lle byddwch yn debygol o orfod aros yr amser byrraf i gael llety), a thrwy gadarnhau faint o ymgeiswyr eraill sydd â mwy o flaenoriaeth na chi (gweler hefyd **4.4** a **4.5**).

Os byddwch yn gofyn am wybodaeth am agweddau penodol o'r broses gosod tai, byddwn yn ei chyflwyno i chi os bydd ymrwymiad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Mae'r hawliau uchod yn ychwanegol at eich hawl i gael gweld eich gwybodaeth bersonol dan adran 7 Deddf Gwarchod Data 1988. Mae rhagor o wybodaeth am bolisiâu gwarchod data'r landlordiaid sy'n bartneriaid ac am sut i gael gweld eich gwybodaeth bersonol ar gael ar wefan pob landlord.

17 SUT MAE LANDLORDIAID CYMDEITHASOL YN MONITRO GWAITH GOSOD Tŷ?

- 17.1 Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?
- 17.2 A yw tai sy'n cael eu gosod tu allan i'r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?
- 17.3 Ydi'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy'n cael tŷ cymdeithasol?

17.1 Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ynys Môn, Tai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas yn rhan o Bartneriaeth Tai Ynys Môn. Mae is-grŵp

o'r bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro gwaith gosod tai a pha mor effeithiol yw'r polisi hwn wrth gwrdd ag amcanion strategol y Cyngor. Mae o leiaf un uwch-reolwr o bob un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid ar yr Is-grŵp Gosod Tai. At hyn, mae'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid hefyd yn adrodd i'w pwyllgorau/byrddau eu hunain fel bo'n briodol.

Bydd yr Is-grŵp yn:

- Cytuno ar eu cylch gorchwyl.
- Cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach os bydd gofyn
- Gofyn i'r Rheolwr Opsiynau Tai a landlordiaid sy'n bartneriaid gyflwyno gwybodaeth ystadegol reolaidd am waith gweinyddu'r ceisiadau am dai a gosod eiddo.
- Cytuno ar restr o'r dangosyddion ystadegol y mae'n rhaid i'r Tîm Opsiynau Tai a'r landlordiaid sy'n bartneriaid eu cyflwyno, gan ystyried pa mor hawdd yw cynhyrchu'r dangosyddion
- Ystyried effeithlonrwydd trefniadau i weinyddu ceisiadau am dŷ.
- Monitro cydymffurfiaeth landlordiaid sy'n rhan o'r bartneriaeth gyda thelerau'r cynllun gosod
- Ystyried yr angen am ddiwygio'r polisi a'r gweithdrefnau yn wyneb newidiadau i:
 - Y gyfraith
 - Arweiniad statudol
 - Amcanion strategol
 - Canlyniadau adolygiadau ac apeliadau, neu
 - Unrhyw faterion perthnasol eraill
- Ystyried cynigion i gyflwyno polisiâu gosod lleol ac adlewyrchu eu heffaith.
- Monitro'r defnydd y mae landlordiaid sy'n bartneriaid yn ei wneud o ddulliau sensitif o osod tai
- Monitro'r defnydd y mae landlordiaid sy'n bartneriaid yn ei wneud o waith rheoli symudiadau.
- Monitro nifer yr ymgeiswyr na chawsant gynnig tenantiaethau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oherwydd y byddai cynnig yn tynnu'n groes i'w hamcanion elusennol.

17.2 A yw tai sy'n cael eu gosod y tu allan i'r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?

Ydyn. Mae'r Is-grŵp Gosod Tai (gweler **17.1**) yn monitro nifer y symudiadau rheoli a gosodiadau sensitif. Rhaid i bob landlord sy'n bartner roi gwybod i'r Rheolwr Opsiynau Tai pa bryd y maent yn bwriadu gosod tŷ sy'n achos sensitif a chadarnhau:

- Y rheswm pam eu bod yn credu bod modd cyfiawnhau gosod y tŷ

- Safle'r ymgeisydd sy'n cael ei ystyried ar y Gofrestr Tai (os o gwbl)

Bydd y Rheolwr Opsiynau Tai neu uwch reolwr yn y Gwasanaethau Tai yn rhoi gwybod i'r Is-grŵp Gosod Tai am yr isod ac yn cadarnhau:

- Nifer y gosodiadau sensitif a wnaed gan bob landlord sy'n bartner
- Y rhesymau dros ddefnyddio dulliau sensitif o osod tai
- Nifer gyfartalog gymedrig yr ymgeiswyr sy'n cael eu hanwybyddu pan fo gosodiadau sensitif yn cael eu gwneud.

17.3 Ydi'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy'n cael tŷ cymdeithasol?

Efallai y bydd yr Is-grŵp Gosod Tai (gweler **17.1**) yn mabwysiadu targedau (ond nid oes yn rhaid iddo) i sicrhau fod cyfran o dai a osodir (neu gyfran o fathau penodol o eiddo) yn mynd i grwpiau penodol o ymgeiswyr.

ATODIAD 1 – FFYRDD O GAEL Tŷ CYMDEITHASOL NAD YDYNT YN CYFRIF FEL PE BAI'N ACHOS O OSOD


Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys y ffyrdd a ganlyn y mae modd i chi gael llety:

- (a) Trosglwyddiad a gychwynnwyd gan y landlord, er enghraifft fel bod modd gwneud gwaith ar yr eiddo neu am resymau rheoli.
- (b) Cael llety dros dro dan y ddeddfwriaeth digartrefedd.

- (c) Cael tenantiaeth nad yw'n denantiaeth ragarweiniol, ddiogel, byrddaliad sicr na thenantiaeth sicr
- (d) Dod yn denant sicr yn awtomatig pan fo tenantiaeth ragarweiniol yn dod i ben neu'n dod yn denant sicr pan fo tenantiaeth fyrddaliad yn dod i ben (e) Olynu tenantiaeth sy'n bodoli pan fo'r tenant blaenorol yn marw.
- (f) Dod yn denant trwy aseiniad, e.e. wrth ddefnyddio hawl gyfreithiol i gyfnewid eich tenantiaeth gyda thenant tŷ cymdeithasol arall ('cyfnewidiad cilyddol').
- (g) Dod yn denant oherwydd bod llys wedi gorchymyn trosglwyddo tenantiaeth sy'n bodoli i chi.
- (h) Rhoi tŷ arall i chi oherwydd pryniant gorfodol.
- (i) Cyngor yn rhoi llety i chi dan Ddeddf Digolledu Tir 1973, a.39.
- (j) Cael llety sy'n cael ei osod ar rent marchnad gyfryngol.
- (k) Cael cynnig tŷ 'gofal ychwanegol'.

ATODIAD 2 – ARDALOEDD GOSOD

Mae'r map isod a'r allwedd ar y dudalen sydd gyferbyn yn dangos yr ardaloedd gosod y medrwch eu dewis. Nid yw pob math o eiddo ar gael ym mhob ardal.



Allwedd yr ardaloedd gosod

Rhif Ardal Osod		Rhif Ardal Osod	
1	Aberffraw	34	Llanfairynghonwy
35	Llanfechell	3	Beaumaris
	Benllech	37	Llangefni
	Llangoed		
6	Bodffordd	39	Llangristiolus
7	Bodorgan	40	Llansadwrn
	Brynsiencyn	42	Llynfaes
	44	Moelfre	
12	Caergybi / Holyhead	45	Niwbwch / Newborough
		2	Amlwch
		36	Llangaffo
		4	
		5	Bodedern
		38	
		8	Bryngwran
		41	Llanynghenedl
		9	
		10	Brynteg
		43	Malltreath
		11	Caergeiliog

13	Capel Coch Penmynydd	46	Parc	14	Carreglefn	47
15	Cemaes Pentraeth	48	Penrhoslligwy	16	Dwyran	49
17	PontrhyPont / Four Mile Bridge		50	Pentre Berw		
18	Gaerwen	51	Penysarn			
19	Gwalchmai	52	Porthaethwy / Menai Bridge			
20	Hermon	53	Rhoscolyn	21	Llanbabo	54
	Rhosgoch	22	Llanbedrgoch	55	Rhosmeirch	23
	Llanddaniel		56	Rhosneigr	24	Llanddeusant
	Rhostrehwfa	25	Llanddona	58	Rhosybol	57
26	Llandegfan	59	Rhydwyn			
27	Llaneilian	60	Soar			
28	Llanerchymedd	61	Star			
29	Llanfachraeth	62	Talwrn			
30	Llanfaelog	63	Tregele			
31	Llanfaes	64	Ty Croes			
32	Llanfaethlu	65	Tyn Lôn			
33	Llanfairpwll	66	Y Fali / Valley			

ATODIAD 3 – ANGHYMWYSTER OHERWYDD STATWS CENEDLIGRWYDD A MEWNFUDO

1. Pa reolau sy'n rhaid i'r Cyngor eu defnyddio wrth benderfynu a wyf yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai am resymau mewnfudo neu genedligrwydd?

Y Llywodraeth sy'n gosod y rheolau y mae'n rhaid i ni eu defnyddio. Maent i'w gweld yn adran 160A Deddf Tai 1996 ac yn y rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, os gwnaethoch gais am dŷ 31 Hydref 2014 neu wedi hynny, Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwyster) (Cymru) 2014 yw'r rheoliadau hyn. Isod o 5 i 6 ceir eglurhad o'r rheolau os bu i chi wneud cais ar y dyddiad hwn neu wedi hynny.

2. Fydd angen i mi gyflwyno dogfennau i brofi fy statws mewnfudo a fy nghenedligrwydd ?

Bydd, os ydym eu hangen i fodloni ein hunain eich bod yn gymwys am dŷ (gweler

3. 9).

3. Rwyf eisoes yn denant tŷ cymdeithasol ac mae gennyf denantiaeth ddiogel/ragarweiniol/sicr. Cefais fy llety oherwydd achos blaenorol o osod oddi ar restr aros y Cyngor. Ydw i'n gymwys i fynd ar y rhestr aros a chael tŷ cymdeithasol?

Ydych. Os dyma yw eich sefyllfa, rydych yn gymwys hyd yn oed os na fyddech, fel arfer, yn cymhwyso dan y rheolau sy'n cael eu hegluro isod.

4. Beth mae 'yn destun rheolau mewnfudo' yn ei olygu?

Rydych yn destun rheolau mewnfudo os:

- Oes angen caniatâd arnoch i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, ond nid ydych wedi cael y caniatâd hyd yn hyn, neu
- Oes gennych ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno ar yr amod nad ydych yn hawlio budd-daliadau neu ddefnyddio arian cyhoeddus arall, neu
- Rhoddwyd caniatâd i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno o fewn y pum mlynedd diwethaf oherwydd bod rhywun arall wedi llofnodi ymrwymiad cynnal yn cytuno i'ch cynnal.

5. Rwyf yn destun rheolau mewnfudo. Ydw i'n gymwys ar gyfer tŷ?

Y rheol arferol yw na fyddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os ydych yn destun rheolau ymfudo. Fodd bynnag, mae eithriadau. Os ydych yn destun rheolau mewnfudo ac yn syrthio i un o'r grwpiau a ganlyn, byddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os:

- (a) Cewch eich cofnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel ffoadur o fewn diffiniad Erthygl 1 y Confensiwn Ffoaduriaid ac mae gennych hawl dod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno.
- (b) Os
 - (i) Oes caniatâd eithriadol gennych i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno y tu allan i ddarpariaethau'r Rheolau Mewnfudo, a
 - (ii) Nad yw eich caniatâd i ddod i mewn neu i aros dan amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynnal a chael llety i chi eich hun ac i unrhyw berson sy'n ddibynnol arnoch, heb droi at y pwrs cyhoeddus.
- (c) Rydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ac nad oes amodau neu gyfyngiadau ynghlwm wrth eich caniatâd i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, oni bai eich bod:
 - (i) Wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno yn sgil ymrwymiad a roddwyd gan eich noddwr, a
 - (ii) Rydych yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ers llai na phum mlynedd gan ddechrau

ar y dyddiad y daethoch i mewn neu ar y dyddiad y rhoddwyd yr ymrwymiad yn eich cyswllt chi, p'run bynnag ddyddiad a ddaw olaf, a

(iii) Lle mae eich noddwr neu lle mae mwy nag un noddwr, o leiaf un o'ch noddwyr, yn dal yn fyw.

(d) Rhoddwyd i chi warchodaeth ddyngarol dan y Rheolaeth Mewnfudo.

(e) Rydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon a chaniatâd cyfyngedig sydd gennych i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig fel dinesydd perthnasol o Affganistan dan baragraff 276BA1 y Rheolau Mewnfudo.

6. Nid ydw i'n destun rheolau mewnfudo. Ydw i'n gymwys ar gyfer tŷ?

Y rheol arferol yw y byddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os nad ydych yn destun rheolau mewnfudo. Fodd bynnag, mae eithriadau. Os ydych yn destun rheolau mewnfudo ac yn syrthio i un o'r grwpiau a ganlyn, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer tŷ:

(a) Onid ydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ac nad ydych yn syrthio i unrhyw un o'r categorïau isod:

(i) Yn weithiwr

(ii) Yn hunangyflogedig

(iii) Yn cael eich trin fel gweithiwr dan y diffiniad o "berson cymwys" yn Rheoliad 6(1) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2013 (hawl preswyllo gwladolyn o wlad dramor yn amodol ar awdurdod gweithiwr)

(iv) Aelod o deulu person sy'n weithiwr, yn hunangyflogedig neu'n cael ei drin fel gweithiwr dan y diffiniad "person cymwys"

(v) Rhywun sydd â hawl i fyw yn barhaol yn y DU dan Reoliad 15(1)(c), (d) neu (e) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2013, neu

(vi) Yn y DU oherwydd eich bod wedi cael eich alltudio, eich gwahardd neu eich symud drwy gyfraith o wlad arall i'r DU.

(b) Os yw eich unig hawl dros fyw yn y Deyrnas Unedig

(i) Yn dod o'ch statws fel rhywun sy'n chwilio am swydd neu eich bod yn aelod o deulu rhywun sy'n chwilio am swydd, neu

(ii) Yn hawl gychwynnol i breswyllo am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis dan reoliad 13 Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2013 neu

- (iii) Yn hawl ddeilliadol i breswyllo y mae gennych hawl iddo dan Reoliad 15A(1) Rheoliadau Ardal Economaidd Ewropeaidd ond dim ond mewn achos pan fo'r hawl yn bodoli dan y rheoliad hwnnw oherwydd eich bod yn bodloni'r meini prawf yn rheoliad 15A(4A) y rheoliadau hynny, neu
 - (iv) Yn dod o Erthygl 20 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, os yw eich hawl i fyw yno yn codi oherwydd y byddai dinesydd Prydeinig, fel arall, yn cael ei amddifadu o wir fwynhad sylwedd ei hawl fel dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd.
- (c) Os yw eich unig hawl i fyw yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu yng Ngwerniniaeth Iwerddon:
- (i) Yn hawl sy'n cyfateb i un o'r rhai a grybwyllir uchod yn (b)(i), (ii) neu (iii) sy'n deillio o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, lle byddai eich hawl i fyw:
 - (aa) Yng Ngwerniniaeth Iwerddon yn codi oherwydd byddai Dinesydd Gwyddelig, neu
 - (bb) Yn Ynysoedd y Sianel neu yn Ynys Manaw yn codi oherwydd y byddai dinesydd Prydeinig sydd hefyd â'r hawl i fyw yno fel arall, yn cael ei amddifadu o wir fwynhad sylwedd ei hawl fel dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd.

ATODIAD 4 – ANGHYMWYSTER OHERWYDD YMDDYGIAD ANNERBYNIOL DIFRIFOL

1. Pa effaith y mae penderfyniad ar ymddygiad annerbyniol yn ei chael ar fy nghais?

Os ydym yn penderfynu bod eich ymddygiad neu ymddygiad aelod o'ch cartref, yn eich gwneud yn anaddas i fod yn denant efallai y byddwn yn:

- eich eithrio o'r Gofrestr Tai (gweler **6.8 a 6.9**), neu
- gostwng eich blaenoriaeth (gweler **9.11 a 9.12**).

2. Beth sy'n cyfrif fel ymddygiad annerbyniol a fyddai o bosib yn fy niarddel rhag cael fy ystyried am dŷ?

Ymhlith esiamplau o ymddygiad a fyddai o bosib yn cael effaith ar eich addasrwydd i fod yn denant mae:

- Dyledion rhent
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Dyled flaenorol sy'n gysylltiedig ag eiddo ac a ddaw o ddifrod i eiddo, neu
- Gordaliad budd-dal tai

Enghreifftiau'n unig yw'r uchod a gall sefyllfaoedd eraill arwain at i ni benderfynu eich bod yn anaddas i fod yn denant.

3. Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a yw ymddygiad yn annerbyniol ac yn fy ngwneud yn anaddas i fod yn denant tŷ cymdeithasol?

Trwy gyfraith, rhaid i ni ystyried:

- (a) Os oeddech yn denant y Cyngor, a oedd yr ymddygiad yn ddigon difrifol i roi i'r Cyngor orchymyn meddiant llwyr dan adran 84A Deddf Tai 1985 neu dan adran 84 Deddf 1985 am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn Rhan 1 Atodlen 2 y Ddeddf honno (ac eithrio rheswm 8), a
- (b) Roedd eich ymddygiad ar y pryd yn ddigon difrifol i wneud chi fel ymgeisydd neu aelod o'ch aelwyd yn anaddas i fod yn denant
- (c) A ydych yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad adeg eich cais.

4. Os yw'r Cyngor yn penderfynu fy mod wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol fydda i'n bendant yn cael fy eithrio o'r Gofrestr Tai?

Na fyddwch. Rydym yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant, gan gymryd pob ffactor perthnasol i ystyriaeth. Rydym hefyd yn ystyried yr angen i gyflawni nodau polisi ehangach megis cydraddoldeb cyfle, cynhwysiad cymdeithasol ac anghenion preswylwyr presennol.

Os yw'r Cyngor yn fodlon bod bob agwedd o'r tri uchod wedi ei gwrdd, byddwn ystyried ein disgresiwn i benderfynu eich ystyried fel person anghymwys ar gyfer gosod tŷ. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwnnw bydd rhaid i'r Cyngor ystyried bob achos ar sail ei hun. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau personol (ac amgylchiadau personol aelwyd y teulu), gan gynnwys anghenion iechyd a meddygol, unrhyw ddibynyddion ac unrhyw fater arall sydd yn berthnasol i'r cais. Bydd penderfyniad i dderbyn ymgeisydd fel anghymwys yn cael ei seilio ar Ddeddf a Chod Canllaw.


Bydd cosb o flwyddyn yn cael ei roi os bydd A i C yn berthnasol.

Efallai y byddem yn parhau i ddefnyddio'n disgresiwn i beidio â'ch trin fel rhywun sy'n anghymwys am dŷ a chynnwys eich cais ar y Gofrestr Tai. Efallai na wnawn ganiatáu eich cais o gwbl. Neu efallai y gwnawn eich cynnwys ar y rhestr aros, ond dyfarnu i chi fand is na fyddech fel arall yn gymwys ar ei gyfer (gweler **9.11** a **9.12**. Gweler hefyd **9.6** i **9.10** am y categorïau blaenoriaeth).



"Catchment Area" Caergybi yn cael dewis mynd i Ysgol Uwchradd Caergybi neu Bodedern

Disgyblion yn byw yn Llanerchymedd yn cael dewis mynd i Syr Thomas Jones neu Bodedern



Cyngor Sir Ynys Môn - Templed ar gyfer Aseu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
V1	2019	

Cam 1: Y Cefndir	
1 - Beth sy'n cael ei aseu?	Polisi Gosod Cyffredin Ynys Môn
2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?	Bwriad yw adolygu Polisi Gosod Cyffredin Ynys Môn Cyfredol (Gorffennaf 2016)
3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?	<p>Pwrpas yw adolygu Polisi Gosod Cyffredin Ynys Môn - yn benodol yw cynnwys cyswllt cymunedol o fewn y Polisi</p> <p>Wrth gynnwys cysylltiad lleol o fewn y Polisi Gosod Cyffredin mae Gwasanaethau Tai yn bwriadu cyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy wneud yn siŵr bod cysylltiadau teuluol a chymuned yn cael eu cynnal</p>
4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei aseu?	Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn
5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr aseiad yma?	Elliw Llŷr- Rheolwr Strategol, Comisiynu a Pholisi

Cam 1: Y Cefndir	
<p>6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?</p>	<p>Partneriaeth Tai Cymdeithasol Ynys Môn sydd yn cynnwys: Cyngor Sir Ynys Môn Cîwyd Alyn Grŵp Cynefin Cymdeithas Tai Gogledd Cymru</p>
<p>7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?</p> <p>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiâu eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith?</p>	<p>Un o amcanion sydd wedi ei osod yn Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-21 sydd wedi ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn i'w annog ac adnabod cyfloedd i gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth</p>
<p>8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn effeithio yn bennaf unigolion sydd ar y rhestr aros gyfredol, gan iddo allu effeithio'r amser maent wedi bod yn aros.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r cynnig yn effeithio holl breswylwyr Ynys Môn gan efallai byddent hwy neu eu teuluoedd eisïau mynd ar y rhestr aros ar ryw bwynt. Yn ogystal, gall preswylwyr gael eu heffeithio gan fod y Polisi yn cael effaith ar rai sydd eisïau cael tŷ cymdeithasol o fewn eu cymunedau.</p>

9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?	Ydy'	Nac ydy'
Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu	Ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	
Meithrin perthynas dda	Ydi	
Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol	Ydi	
Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir.		

Cam 2: Casglu gwybodaeth	
10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?	<p>Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a dylai preswylwyr yr Ynys allu byw eu bywyd drwy gyfrwng iaith Gymraeg os dymunent.</p> <p>Mae'r un disgwyliad yn berthnasol i weithredu'r Polisi, lle mae pob cwsmer yn cael y cyfle i gysylltu gyda Thîm Gosod / Gwasanaeth Cwsmer yn y Gymraeg neu Saesneg. Bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith, ac nid fydd defnyddio unrhyw un o'r ieithoedd yn arwain at oedi.</p>
11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?	<p>Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 56% o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn uwch ar gyfer rhai sydd yn byw mewn Tai Cymdeithasol gyda 60% yn gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Gobaith yw bydd y bwriad hwn yn rhoi blaenoriaeth i roi cartref i roi sydd hefo cysylltiad cymunedol i'r ardal hwnnw, bydd yn cadw cymunedau Cymraeg gyda'i gilydd. Rydym yn rhagweld bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg bob dydd.</p>
12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?	<p>Mae Polisi Iaith Gymraeg (2016) yn nodi bod y Cyngor yn darparu i'r cyhoedd gwasanaeth llawn mewn Cymraeg a Saesneg ar draws ei wasanaethau. Bydd y dewis o iaith i ddelio gyda'r Cyngor, pa un bynnag Cymraeg neu Saesneg ddim yn amharu ar effeithlonrwydd a safon y gwasanaeth hwnnw.</p> <p>Bydd y Polisi hwn yn cydymffurfio gyda hyn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi ar gael ar safle we'r Cyngor yn y ddwy iaith • Mae ffurflen gais am dy cymdeithasol ar gael yn y ddwy iaith • Mae bob aelod o dîm gwasanaeth cwsmer a datrysiadau yn ddwyieithog ac felly yn gallu delio hefo ymholiadau yn dewis iaith y cwsmer
13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?	<p>Yn ôl Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn 2016-21 mae yna 8 ward gyda mwy na 70% o'r boblogaeth (oed dros 3 oed) yn gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Mae'n rhagweld bod rhoi blaenoriaeth i rai sydd hefo cyswllt cymunedol yn mynd i gryfhau cymunedau sydd yn siarad Cymraeg and yn darparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ddyddiol. Bydd hyn mwy na thebyg yn cyfrannu tuag at gynnal wardiau lle mae 70% o boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg ac yn</p>

Cam 2: Casglu gwybodaeth		
	<p>cynyddu canran o fewn y wardiau eraill.</p> <p>Mae canlyniad cyfnod o 8 wythnos o ymgynghoriad ar y Polisi Tai Cyffredin yn dangos bod 85% o ymatebwyr o'r farn fod pobl sydd hefo cyswllt cymunedol i ardal benodol gael mwy o flaenoriaeth ar gyfer cartref yn yr ardal, gyda nifer o ymatebwyr yn nodi bydd hyn yn cefnogi'r iaith Gymraeg.</p>	
<p>Mae Atodiad 1 i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.</p> <p>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai prif bolisiâu a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.</p>		
<p>14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)</p> <p>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1).</p>	<p>Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith ar hawl sylfaenol sydd wedi eu rhestr Deddf Hawliau Dynol</p>	
<p>15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?</p> <p>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2)</p>	<p>Cymru lewyrchus</p>	<p>Na</p>
	<p>Cymru gydnerth</p>	<p>Na</p>
	<p>Cymru iachach</p>	<p>Yndi -mae nifer o ymatebwyr wedi nodi bod helpu cwsmeriaid allu aros o fewn eu cymunedau fydd o gymorth sefydlogi iechyd meddwl a rhoi cefnogaeth i bobl hyn/ anabl, gan felly</p>

Cam 2: Casglu gwybodaeth		
		lleihau byrdwn ar wasanaethau
	Cymru sy'n fwy cyfartal	Ydi
	Cymru o gymunedau cydlynus	Ydi
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Ydi
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	na
16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?	<p>Mae cyfnod o ymgynghori wedi ei gynnal ar Bolisi Gosod Cyffredin rhwng 17 Mehefin ac 5ed o Awst, 2019. Prif bwrpas yr ymgynghoriad oedd adnabod a ddylid cynnwys cysylltiad cymuned o fewn y polisi.</p> <p>Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor gyda linc i gwblhau'r holiadur ar lein drwy Survey Monkey.</p> <p>Roedd yr holiadur yn cael ei annog yn rheolaidd i aelodau o'r cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod 8 wythnos o ymgynghoriad.</p> <p>Cafodd papur copi a linc i'r holiadur ar lein ei yrru i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 295 o ymgeiswyr ar y rhestr aros • 42 o ymgeiswyr oedd ddim yn gymwys i fod ar y rhestr o fewn y 6 mis diwethaf <p>Gyrrwyd linc ar lein i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 40 Cynghorau Cymuned a Thref • 30 o Gynghorwyr Môn • Asiantaethau / Darparwyr Cefnogi Pobl <p>Mae canlyniad yr ymgynghoriad 8 wythnos ar y Polisi gosod Cyffredin yn dangos bod 85% o ymatebwyr o'r farn bod pobl sydd hefo cysylltiad cymuned i ardal benodol fod a blaenoriaeth i gael cartref yn yr ardal honno. Dyma rai o ymatebion a roddwyd i gefnogi'r cynnig oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cryfhau cymunedau • Rhoi cefnogaeth i bobl hyn / teuluoedd ifanc • Cyfrannu i gymuned leol • Lleihau byrdwn ar wasanaethau eraill 	

Cam 2: Casglu gwybodaeth	
	<ul style="list-style-type: none"> • Lleihau aflonyddwch i blant • Sefydlogi iechyd meddwl • Cefnogi iaith Gymraeg <p>Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn dylai pobl gyda chyswllt cymunedol i ardal benodol gael blaenoriaeth i gael cartref yn yr ardal, yn poeni byddai'r cynnig byddai rhai sydd a llai o angen am dy yn colli blaenoriaeth hefo cyswllt cymuned. <i>Nodwch os gwelwch yn dda fod y pryderon hyn yn cael eu lliniaru gan y faith fod y rhai sydd hefo cyswllt cymunedol yn cael eu blaenoriaeth o fewn y band hwnnw. Byddai rhywun hefo band is ddim yn cael eu blaenoriaethu dros rywun hefo mwy o angen tai heb gyswllt cymunedol.</i></p>
17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.	Data hanesyddol ar osodiadau tai
18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?	Dim hyd yma- er bydd yr asesiad yma yn cael ei adolygu unwaith bydd 'cyswllt cymunedol' wedi ei benderfynu

Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.

*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

Tudalen 206

Y grŵp a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith	Camau i liniaru effaith negyddol
Oed	Dim effaith / negyddol	<p>Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae oedran rhai sydd yn byw mewn Tai Cymdeithasol ar Ynys Môn fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4.9% oed 24 ac is • 14.9% oed 25-34 • 24.2% oed 25-49 • 23.8% oed 50-64 • 14.5% oed 65-74 • 11.7% oed 75-84 • 5.9% oed 85 a drosodd <p>Yn ddibynnol ar ddiffiniad cysylltiad cymuned, bydd rhai pobl hyn sydd angen tai ar gyfer pobl hefo cysylltiad gydag ardal lle na fydd yna eiddo ar gyfer pobl hyn.</p> <p>(Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 22.4% o boblogaeth Ynys Môn yn oed ymddeol o'i gymharu â 18.4% ar draws Cymru)</p>	Mae Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2016) Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi ei fod yn anghyfreithlon i ddiscrimineiddio ar sail oedran.
Anabledd	Dim effaith/ negyddol	<p>Mae gwybodaeth gan Wasanaethau Oedolion ar anabledd yn dangos ar 31 Mawrth 2015 (Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor 2016-2020)</p> <ul style="list-style-type: none"> • 303 o bobl wedi eu cofrestru ar restr anabledd dysgu • 5,139 o fathodynau glas (yn ystod 201-15) • 2,516 o unigolion wedi cofrestru hefo anabledd corfforol 	<p>Mae Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2016) Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi ei fod yn anghyfreithlon i ddiscrimineiddio ar sail oedran.</p> <p>Os bydd materion yn codi, byddent yn cael eu delio gyda mewn modd sensitif</p>

Y grŵp a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith	Camau i liniaru effaith negyddol
		Yn dibynnu ar ddiffiniad o gysylltiad cymunedol, bydd rhai unigolion yn gofyn am eiddo wedi ei addasu mewn ardal lle na fydd eiddo wedi addasu	
Rhyw		Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 49.1% o rai sydd yn byw ar Ynys Môn yn ddynion ac 50.9% yn ferched. Mae gwybodaeth am ryw ymgeiswyr ac aelodau aelwyd yn cael eu hasesu ar gfyer cael gwybod nifer o ystafelloedd wely sydd eu hangen yn unig. Ni does tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys cyswllt cymuned o fewn y polisi gosod yn mynd i gael effaith negyddol ar gwsmeriaid ar sail rhyw	Mae Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2016) Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi ei fod yn anghyfreithlon i ddiscrimineiddio ar sail oedran. Os bydd materion yn codi, byddent yn cael eu delio gyda mewn modd sensitif
Newid Rhyw	Dim effaith	Nid oes data ar gael ar hyn. Mae gwybodaeth am newid rhyw yn cael ei ddefnyddio wrth osod eiddo. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys cyswllt cymuned o fewn y Polisi Gosod yn cael effaith negyddol ar rai sydd wedi newid rhyw. Os bydd angen i gwsmeriaid symud oherwydd aflonyddu oherwydd newid rhyw, bydd band angen brys am dŷ yn cael ei ddefnyddio	Mae Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2016) Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi ei fod yn anghyfreithlon i ddiscrimineiddio ar sail oedran. Os bydd materion yn codi, byddent yn cael eu delio gyda mewn modd sensitif
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim effaith	Dim tystiolaeth ar gael. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys cyswllt cymunedol o fewn y polisi gosod yn cael effaith negyddol ar ferched sydd yn disgwyl.	Mae Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2016) Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi ei fod yn anghyfreithlon i ddiscrimineiddio ar sail oedran. Os bydd materion yn codi, byddent yn cael eu delio gyda mewn modd sensitif
Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd	Dim effaith	Yn ôl Cyfrifiad, 2011 mae ethnigedd o rai sydd yn byw mewn tai cymdeithasol ar Ynys Môn yn: <ul style="list-style-type: none"> • 98.6% Gwyn • 1.0% grŵp Ethnig cymysg • 0.1% Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig • 0.1% Du/ Affrig/Caribiaidd/Du Prydeinig 	

Y grŵp a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith	Camau i liniaru effaith negyddol
		<ul style="list-style-type: none"> 0.2% grŵp arall ethnig Ethnigedd pobl sydd yn byw mewn unrhyw ddaliadaeth ar Ynys Môn: 98.7% Gwyn 0.5% cymysg 0.4% Asiaidd 0.1 Du 0.2 arall Nid oes gwybodaeth am ethnigrwydd yn cael ei ddefnyddio wrth osod eiddo. Mae rhaid i ymgeiswyr roi statws mewnfudo a statws dinasyddiaeth wrth geisio am dy cymdeithasol	
Crefydd neu Gred	Dim effaith	Nid yw yn hyn yn cael ei ystyried o fod angen am dy, ond mae darpariaeth o fewn y Polisi pe byddai ymgeisydd yn dioddef camdriniaeth	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith	Nid yw yn angen am dy, ond mae darpariaeth o fewn y Polisi pe byddai ymgeisydd yn dioddef camdriniaeth	
Yr iaith Gymraeg	positif	Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 56% o boblogaeth Ynys Môn yn siarad Cymraeg. 60% yn byw mewn tai cymdeithasol yn siarad Cymraeg	
Hawliau Dynol	Dim effaith		
Priodas neu bartneriaeth sifil	Dim effaith		
Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig	Dim effaith / negyddol		

Cam 4: Canlyniad yr asesiad	
20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).	Dim newid sylweddol
21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	
22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd). (Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2)	Rydym wedi ystyried hyn ac yn gweld ei fod yn cyfrannu at amcanion y Ddeddf drwy: Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma? (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).	na
24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?	Pwyllgor Gwaith
25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?	Oes, ar y cyd gyda Partneriaid Tai Cymdeithasol

Tudalen 209

Cam 5 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog arweiniol	Amserlen

Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd

Erthygl 3: Gwahardd artaith

Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch

Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg

Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith

Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull

Erthygl 12: Yr hawl i briodi

Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo

Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg

Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd

Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	11 Medi 2019
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad:	Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgrwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Aled Morris Jones
Aelod(au) Portfolio:	Amherthnasol
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)
Awdur yr Adroddiad:	Anwen Davies, Rheolydd Sgrwtini
Rhif Ffôn:	01248 752578
E-bost:	AnwenDavies@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgrwtini

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20

A2 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgrwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgrwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgrwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

3.4 Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

5 – Cefndir / Cyd-destun

1. Cefndir

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol¹. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

- i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
- ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda²

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses “cychwyn-stopio”
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. Cyd-destun Lleol

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

¹ A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

² A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

Canlyniad: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgrwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgrwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgrwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwyllo'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgrwtini:** mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgrwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

- i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
- ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
- iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20:** cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019³.

3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgrwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (3 Mehefin, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgrwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgrwtini).

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried.

7 – Goblygiadau Ariannol

Amherthnasol

8 – Atodiadau

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 2017/18 – 2018/19 – 2019/20.

³ Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2019

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni LL77 7TW

RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → HYDREF, 2019
[Fersiwn dyddiedig 03/09/19]

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
Medi, 2019 (11/09/19)	Medi, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 23/09/19 → 11/09/19)
Monitro Perfformiad Ch1: 2019/20	Monitro Contractau Gofal Cymdeithasol
Monitro Gwelliannau Gwasanaethau Plant / Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol	Trefniadau Diogelu (Gwasanaethau Cymdeithasol)
Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19	Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd
Polisi Gosod Tai (cyswllt lleol)	
Hydref, 2019 (23/10/19)*	Cyfarfod Arbennig (24/10/19)
Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21	Cynllun Datblyu Lleol ar y Cyd – Adroddiad Monitro Blynyddol
Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21	Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf)
Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd	Adroddiad Blynyddol Galw Gofal
Adolygiad Paneli Sgriwtini	Craffu Partneriaethau – adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor
Tachwedd, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 04/11/19 → w/d 11/11/19)	Tachwedd, 2019 (12/11/19)
	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
Monitro Perfformiad Ch2: 2019/20	Partneriaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol – Gwynedd a Môn
	Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant

*Tebygol y bydd angen newid dyddiad y cyfarfod i sicrhau aliniad efo cyhoeddiad Setliad Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Eitemau i'w rhaglennu:

Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Amlwch / ðl-16 / ardal Llangefni ac ardal Seiriol.
 Cynllun cydraddoldeb strategol 2020/24 (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, Chwefror 2020)



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 **→ 2018/19 → 2019/20**

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
2017/18						
31 Mai 2017	Ethol Cadeirydd y Pwyllgor	Trefniadau llywodraethiant effeithiol				
	Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor	Trefniadau llywodraethiant effeithiol				
26 Mehefin 2017 [CH4: 2016/17]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17 Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad	Monitro perfformiad				
	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17	Monitro perfformiad				
	Strategaeth Tai Gwag 2017/2022	Datblygu Polisi			√	
	Aelodaeth Paneli a Byrddau	Enwebu Aelodau		√ (Aelodau)		
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
11 Gorffennaf 2017 [Cyfarfod arbennig]	Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni	Sgriwtini cyn penderfyniad		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24)	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion	Enwebu Aelodau		√ (Aelodau)		

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbyn Panel Sgrwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
4 Medi 2017 [CH1: 2017/18]	Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1] 2017/18	Monitro perfformiad				
	Cynllun y Cyngor 2017/2022	Sgrwtini cyn penderfyniad		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
	Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17)	Er gwybodaeth / monitro perfformiad				
2 Hydref 2017 [Cyfarfod arbennig]	Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC)	Monitro perfformiad				√
	Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17	Monitro perfformiad			√	√
	Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol	Sgrwtini cyn penderfyniad		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol	Sgrwtini cyn penderfyniad		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
31 Hydref 2017 [Cyllideb]	Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19	Sgrwtini cyn penderfyniad		√ (Aelodau)	√	√
	Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19	Sgrwtini cyn penderfyniad		√ (Aelodau)	√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgrwtini Cyllid	Monitro perfformiad	√			√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
13 Tachwedd 2017	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18	Monitro perfformiad				
[CH2: 2017/18]	Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Strategaeth Rheoli Asedau - Tai Cyngor	Datblygu Polisi			√	
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
14 Rhagfyr 2017 [Cyfarfod Arbennig]	Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Carchar a Llys Biwmaris	Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 27/11/17 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers)				√
31 Ionawr 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgil y broses ymgysylltu)	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Cludiant ysgol	Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad				
	Rhaglen Wella Mân-	Rhybudd o gynnig o'r				√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	ddaliadau	Cyngor Llawn				
	Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17)	Monitro perfformiad – er gwybodaeth				
5 Chwefror 2018 [Cyllideb]	Cyllideb Ddrafft 2018/19	Sgriwtini cyn penderfyniad	√	√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	√			
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid)	Sgriwtini cyn penderfyniad	√			√
12 Mawrth 2018 [CH3: 2017/18]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18	Monitro perfformiad				
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn)	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
23 Ebrill 2018	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas)	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth	Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17]				
	Trawsnewid Gwasanaethau	Trawsnewid			√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	Anableddau Dysgu					
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
2018/19						
4 Mehefin, 2018 [CH4: 2017/18]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18	Monitro perfformiad				
	Trafnidaeth Ysgol – diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu (er gwybodaeth)	Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18]			√	
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	√			
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol			√ (Aelodau)	
5 Gorffennaf, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn)	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Monitro perfformiad				√
13 Gorffennaf, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
2 Awst, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Llangefni (Y Talwrn a'r Graig)	Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 16/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Lewis Davies, Bryan Owen a Peter Rogers)				√
6 Awst, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Seiriol	Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 18/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers)				√
12 Medi, 2018 [CH1: 2017/18]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19	Monitro perfformiad				
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	√			
	Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2017/18)	Monitro perfformiad – er gwybodaeth				
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
20 Medi, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Gwaredu adeilad hen Ysgol Llaingoch, Caergybi	Galw Mewn penderfyniad gan y Deilydd Portffolio ar 30/08/18 (galw mewn gan y Cyng Shaun Redmond, Peter Rogers, Eric Wyn Jones, Bryan Owen ac Aled Morris Jones)				√
8 Hydref, 2018 [Cyfarfod]	Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio	Trawsnewid			√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
Arbennig]	Ysgolion Ynys Môn – diweddariad (2018)					
	Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18	Monitro perfformiad			√	
24 Hydref, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√
6 Tachwedd, 2018 [Cyllideb]	Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20	Sgriwtini cyn penderfyniad	√		√	√
	Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20	Sgriwtini cyn penderfyniad	√	√	√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid	Monitro perfformiad	√			
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
23 Tachwedd, 2018 [Ch2: 2018/19]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19	Monitro perfformiad				
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
10 Rhagfyr, 2018 [Cyfarfod Arbennig]	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol – Ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn	Trawsnewid		√ (Holl Rhanddeiliaid)	√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbyn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
17 Ionawr, 2019 [Cyfarfod Arbennig]	Archwiliad o'r Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Monitro perfformiad	√		√	√
	Er gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol 2017/18 – Gwasanaeth Llyfrgell	Monitro perfformiad – er gwybodaeth				
4 Chwefror, 2019 [Cyllideb]	Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2019/20	Sgriwtini cyn penderfyniad	√	√	√	√
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
11 Mawrth, 2019 [CH3: 2018/19]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19	Monitro perfformiad				
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Polisi Cludiant Ysgol – polisi diwygiedig		√	√ (i'w gadarnhau)	√	√
	Blaen raglen waith - adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
8 Ebrill, 2019	CYFARFOD WEDI'I OHIRIO					
2019/20						
17 Mai, 2019 [Cyfarfod Arbennig]	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18	Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 29/04/19 (galw mewn gan y Cyng Peter Rogers, Shaun Redmond, Robert Llewelyn Jones, Ken Hughes a Bryan Owen)				√
3 Mehefin, 2019 [Ch4: 2018/19]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19	Monitro perfformiad				

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant					
	Aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid		√	(Aelodau)	√	
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		(Aelodau)		
8 Gorffennaf, 2019 [Cyfarfod Arbennig]	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Monitro perfformiad				√
	Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2018/19)	Monitro perfformiad				
11 Medi, 2019 [Ch1: 2019/20]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2019/20	Monitro perfformiad				√
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
	Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant					
	Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19	Monitro perfformiad				√
	Polisi Gosod Tai (cyswllt lleol)	Datblygu polisi		√	√	√
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		(Aelodau)		
23 Hydref, 2019 [Cyllideb]	Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20	Sgriwtini cyn penderfyniad	√		√	√
	Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20	Sgriwtini cyn penderfyniad	√		√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	Adolygiad Paneli Sgriwtini ac Aelodaeth Byrddau Trawsnewid	Mesur effaith	√	√ (Aelodau)	√	
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
4 Tachwedd 2019 [Ch2: 2019/20]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2019/20	Monitro perfformiad				
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
Cyfarfod Arbennig (Rhagfyr)	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√
3 Chwefror 2020 [Cyllideb]	Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2020/21	Sgriwtini cyn penderfyniad	√	√	√	√
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
9 Mawrth 2020 [Ch3: 2019/20]	Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2019/20	Monitro perfformiad				
	Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant	Monitro perfformiad	√		√	√

Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgrwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithiol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
6 Ebrill 2020						
	Blaen raglen waith – adolygiad	Cynllunio ymlaen effeithol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol		√ (Aelodau)		
Eitemau Posibl ar gyfer y Blaen Raglen Waith (dyddiadau i'w cadarnhau)						
I'w gadarnhau	Rheoli Ynni	Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgrwtini, 31/10/17)				
I'w gadarnhau	Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi	Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgrwtini, 13/11/17]				
I'w gadarnhau	Effeithiau Diwygio Lles	Monitro perfformiad				
I'w gadarnhau	Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	Datblygu polisi [Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Scrutiny, 18/06/18]				
I'w gadarnhau	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion	Trawsnewid		√	√	√
I'w gadarnhau (Ionawr, 2020)	Eitem er gwybodaeth – Adroddiad Blynyddol 2018/19: Gwasanaeth Llyfrgelloedd	Monitro perfformiad – er gwybodaeth				

This page is intentionally left blank